

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2025 am 2:00 y. p.	TUESDAY, 11 FEBRUARY at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Euryrn Morris (*Diprwy Gadeirydd*), Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Ieuan Williams

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Kenneth Hughes, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans (*Cadeirydd*), William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 DATGAN DIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 27 Tachwedd 2024 (arbennig)
- 5 Rhagfyr 2024

3 LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (Tudalennau 15 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2025-2028 (Tudalennau 27 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN O REOLI'R TRYSORLYS 2024/25 (Tudalennau 43 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 DATGANIAD O STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26 (Tudalennau 61 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 ARCHWILIO ALLANOL: CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL (Tudalennau 103 - 184)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru – adroddiad cenedlaethol.
- Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru – adroddiad lleol Cyngor Sir Ynys Môn ac ymateb rheolwyr

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

9 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH (Tudalennau 185 - 192)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024 yn yr Ystafell Bwyllgor a thrwy Zoom

PRESENNOL:	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Eurn Morris (Dirprwy Gadeirydd) Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams. Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, Michael Wilson
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio a Risg Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Rhaglen a Pherfformiad (GP) Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) Rheolwr Cyllid (CLK) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Prif Archwilydd (CSYM) (NW), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), David Tomalin (Arweinydd Archwilio Ariannol - Archwilio Cymru)

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr datganiad o ddiddordeb.

2. DATGANIAD O GYFRIFON 2023/24, DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2023/24 AC ADRODDIAD ISAS 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad Terfynol Cyfrifon 2023/24 yn dilyn archwiliad i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiledig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 wedi'i ymestyn i 30 Tachwedd, 2024 ar gyfer holl gynghorau Cymru. Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon drafft Cyngor Sir Ynys Môn 2023/24 i archwilydd allanol y Cyngor, Archwilio Cymru i'w harchwilio ar 28 Mehefin 2024 a chânt eu hystyried gan y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr cyn cael eu llofnodi. Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad trylwyr o'r cyfrifon a'r trafodion ariannol mewn perthynas â 2023/24 a daeth i'r casgliad bod y

datganiadau ariannol ym mhob agwedd berthnasol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024. Nododd y profion archwilio rai newidiadau a oedd eu hangen a chafodd yr holl wallau perthnasol yr argymhellodd y tîm archwilio eu diwygio i sicrhau bod y Cyfrifon yn sylweddol gywir. Ni effeithiodd yr un o'r diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon ar yr alldro sy'n parhau i fod ar danwariant o £1.732m fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Gorffennaf 2024. Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau'n ymwneud â newidiadau ar y fantolen neu'r gwariant mewn perthynas ag incwm grant, ni chafodd effaith ar refeniw.

Arweiniodd Swyddog Adran 151 yr aelodau drwy'r diwygiadau i'r cyfrifon a amlinellwyd yn adran 3 yr adroddiad ac a nodir yn llawn yn adroddiad ISA 26O yr archwilyr a gyflwynwyd ar wahân isod. Eglurodd sut yr oeddent yn effeithio ar y ffigurau yn y cyfrifon a'r nodiadau atodol. Diolchodd i staff cyfrifeg y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cwblhau'n brydlon ac i dîm Archwilio Cymru am eu dull proffesiynol a thrylwyr wrth gynnal yr archwiliad.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 i'w adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno i gael sêl bendith y Cyngor Llawn. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (cyflwynwyd y fersiwn ddrafft ohono i'r Pwyllgor roi sylwadau arno yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf, 2024) yn ceisio rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith yn ystod 2023/24 ar gyfer sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol ohono a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon terfynol 2023/24.

Diweddarodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Rhaglen a Pherfformiad y Pwyllgor ynghylch statws y materion llywodraethu a nodwyd yn Natganiad y flwyddyn flaenorol gan gadarnhau bod pedwar o'r pum cam gweithredu i roi sylw i'r gwendidau wedi'u cwblhau a bod y pumed ar y gweill. Cyfeiriodd at y materion llywodraethu a nodwyd yn natganiad 2023/24 a dywedodd, er mwyn rhoi sicrwydd, y byddai diweddariad ynglŷn â materion llywodraethu a'r ymateb i argymhellion cenedlaethol i gyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr er mwyn rhoi sicrwydd.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Bod angen eglurhad ynghylch y pumed mater llywodraethu mewn perthynas â sicrhau bod galw am asedau'r Cyngor, eu bod yn addas i'r diben a, lle bo angen, gwella safonau. Mae'r pwysau ar gyllid cyfalaf yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn cael ei gyflawni'n llawn a bod yr amcan hwn yn uchelgeisiol.
- O ran sicrhau cadernid ariannol y Cyngor, p'un ai a oes unrhyw gyfle pellach i adolygu a symleiddio prosesau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith llai o gyllid.

Adroddwyd fel a ganlyn –

- Bod Cynllun Strategol Rheoli Asedau y Cyngor 2024-2029 yn cydnabod y bydd cyflwyno'r cynllun yn heriol yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac oherwydd costau cynyddol a phwysau'r gyllideb, mae bwlch rhwng uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei asedau a'r hyn y gall ei gyflawni. Y gobaith yw y bydd y setliad llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys cynnydd mewn cyllid cyfalaf craidd y gall y Cyngor ei ddefnyddio yn unol â'i flaenoriaethau ei hun. Strategaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf fu dyrannu

grantiau yn y tymor byr sy'n aml yn dod gydag amodau ac wedi'u targedu at amcanion penodol nad ydynt o bosibl yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

- Bod y Cyngor wedi ceisio sicrhau effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf trwy symleiddio prosesau a strwythurau'r sefydliad i leihau costau a gwella effeithlonrwydd ac mae'n parhau i ddatblygu rhaglenni i wneud y defnydd gorau o dechnoleg a digideiddio prosesau. Er y ceisir gwneud hyn yn barhaus, mae'n dod yn anos sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy symleiddio gwaith a phrosesau mewnol yn unig.
- Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ynghylch yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023/24 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Bu i Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru wrth adrodd ar brif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2023/24 ddiolch i dîm cyfrifeg y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyllid ehangach am eu mewnbwn a'u cydweithrediad a dywedodd fod yr ymarferiad archwilio wedi mynd rhagddo'n ddidrafferth. Cadarnhaodd fod yr archwilydd yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon 2023/24 ac yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr, 2024, bydd y cyfrifon yn cael eu hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Cyfeiriodd at y diwygiadau i'r cyfrifon fel y'u cofnodwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad, nodwyd rhai ohonynt yn fewnol gan y tîm cyfrifeg yn yr adolygiad sicrhau ansawdd dilynol o'r cyfrifon. Dywedodd fod nifer y gwelliannau yn bennaf oherwydd pwysau amser ac amserlen dynn yn hytrach nag unrhyw faterion systemig neu ansawdd a chadarnhaodd fod y cyfrifon a'r papurau gwaith a ddarparwyd i'r archwilydd o ansawdd uchel. Tynnodd sylw at yr addasiad pensiwn net yn sgil y gwerthoedd uchel ac eglurodd fod yr addasiad pensiwn net o £71,145,000 wedi'i ychwanegu'n anghywir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn hytrach na'i dynnu ohono. Cadarnhaodd nad oedd yr addasiad wedi cael unrhyw effaith ar fantolen na Chronfa Gyffredinol y Cyngor.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y cyfeiriad yn adroddiad ISA 260 fod yr archwiliad wedi'i gwblhau i raddau helaeth a gofynnwyd a oes unrhyw faterion sy'n weddill.
- P'un ai a yw'r terfynau amser a bennwyd ar gyfer paratoi'r cyfrifon ac adroddiadau dilynol gan yr archwilydd yn gosod pwysau ar staff gwasanaeth Cyllid ac yn arwain at wallau na fyddai'n digwydd fel arall ac os felly, a ddylid ymestyn yr amserlen.
- Er mwyn sicrhau eglurder dylid newid y frawddeg derfynol o dan Monitro'r Gyllideb ar dudalen 2 yr adroddiad naratif i: "Mae'r wybodaeth Refeniw a Chyfalaf ochr yn ochr â CRT, yn cael ei hadrodd i is-grŵp Sgriwtini Cyllid, y Pwyllgor Sgriwtini ac yna'r Pwyllgor Gwaith yn chwarterol sy'n sicrhau lefel o her yn ogystal â gallu lliniaru unrhyw effaith sy'n debygol o ddigwydd ar wasanaethau."
- P'un ai a ddylai'r tabl sy'n dangos gwariant cyfalaf fesul gwasanaeth ar dudalen 4 yr adroddiad naratif gael ei addasu er mwyn rhoi darlun cywirach sy'n dangos gwariant prosiectau fesul gwasanaeth gan ei fod yn cynnwys gwariant refeniw.

Adroddwyd fel a ganlyn –

- Bod yr adroddiad ynghylch yr archwiliad o'r datganiadau ariannol wedi'i ddrafftio ochr yn ochr â chwblhau a gwirio'r cyfrifon diwygiedig. Gellir cadarnhau bod yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau a'i lofnodi.
- Y bwriad yw dod â'r amserlen adrodd archwilio yn ôl i ddiwedd mis Hydref ar gyfer proses archwilio cyfrifon 2024/25 ac i ddiwedd mis Medi wedi hynny yn unol ag

amserlenni cyn y pandemig. Er bod yr archwilyr yn hapus i drafod unrhyw bryderon gyda'r Gwasanaeth Cyllid, ni ystyrir bod yr amserlen yn creu unrhyw faterion o bwys o ran cwblhau'r archwiliad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mai'r bwriad cyn y pandemig oedd dod â'r dyddiadau cau ymlaen ar gyfer paratoi'r cyfrifon a'r adroddiadau archwilio i fis Mai a Gorffennaf yn y drefn honno, er y deellir bellach na fydd unrhyw newid. Er bod dyddiad cau diwedd mis Mehefin ar gyfer paratoi'r cyfrifon drafft yn parhau i fod yn her, dylai ddod yn haws ei reoli wrth i'r Cyngor barhau i ddysgu o'r broses archwilio a gwella ei brosesau a'i bapurau gwaith ei hun.

- Bod y gwariant a ddangosir yn y tabl ar dudalen 4 yn cael ei ddosbarthu o dan arferion cyfrifo fel gwariant cyfalaf oherwydd ei fod wedi'i wario ar greu ased. Bydd ei defnydd ohono'n ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol ac mae'r gwariant yn fwy na £10k. Gall gwariant cyfalaf gynnwys cyfraniad o reffeniw.

Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd ar ran y pwyllgor, i bawb a fu'n rhan o'r broses o baratoi'r cyfrifon a'r gwaith archwilio.

Penderfynwyd –

- **Derbyn Datganiad Cyfrifon 2023/24 ac argymell i'r Cyngor Llawn fod Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 yn cael yr awdurdod i lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2023/24.**
- **Argymell Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24 i'r Cyngor Llawn fel gwerthusiad teg o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.**
- **Nodi Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol gyfer 2023/24.**

**Mr Dilwyn Evans
Cadeirydd**

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 5 Rhagfyr, 2024

PRESENNOL:	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig) Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Ieuan Williams. Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, William Parry, Michael Wilson.
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 4 a 5) Pennaeth Archwilio a Risg Mewnol (AS) Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP) (ar gyfer eitemau 3 ac 11) Rheolwr Newid Hinsawdd (RAW) (ar gyfer eitem 8) Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (TO) (ar gyfer eitem 10) Prif Swyddog Digidol (MH) (ar gyfer eitem 15) Prif Cynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 10) Swyddog Diogelu Data Ysgolion (EW) (ar gyfer eitem 9) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Euryr Morris a Liz Wood.
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Prif Archwilydd (NW)(CSYM), Rheolwr Seilwaith TG (MD) Peiriannydd Diogelwch TG Arweiniol (CCT)

Gan nad oedd y Cynghorydd Euryr Morris, yr Is-gadeirydd, yn bresennol, etholwyd y Cynghorydd Margaret M. Roberts i wasanaethau fel Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn diweddarau'r Pwyllgor ynglŷn â statws y gweithredoedd y cytunwyd arnynt ers cyflwyno'r log gweithredoedd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr holl eitemau oedd i fod i gael eu cwblhau erbyn y cyfarfod hwn wedi'u cwblhau. Mewn perthynas ag eitem 8 ar y log, cadarnhaodd y byddai Prif Swyddog Digidol y Cyngor nawr yn briffio'r pwyllgor ar Ddeallusrwydd Artiffisial a'r risgiau a'r mesurau lliniaru cysylltiedig mewn sesiwn a fydd, yn amodol ar gytundeb y pwyllgor, yn cael ei gynnal am 1:00 p.m. yn union cyn y cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2025. Nododd y pwyllgor fod y trefniant arfaethedig yn dderbyniol.

Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen mewn perthynas ag eitem 10 ar y log bod gwaith i fonitro nifer y bobl sydd mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor ar y gweill. Mae'r gwasanaeth Datblygu Economaidd wedi comisiynu cwmni allanol, Quod i gynnal dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o boblogaeth yr Ynys gan gynnwys anweithgarwch economaidd. Cafodd adroddiad ar ranbarth Gogledd Ynys Môn ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024 ac mae adroddiad ar gyfer yr Ynys gyfan ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd Rhagfyr 2024. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael drwy Lywodraeth Cymru a Data Cymru sy'n cyhoeddi data mewn perthynas â'r boblogaeth a mudo yn flynyddol.

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen ddiweddariad pellach i'r pwyllgor ar eitem 13 ar y log a oedd yn ymwneud â chynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd gan broses asesu 2023/24 a chadarnhaodd fod y saith mater a nodwyd yn cael sylw a'u bod ar y gweill. Cyfeiriodd at y trefniadau o ran cynnal asesiad perfformiad panel ym mis Tachwedd 2025 ac at gynnydd y Cynllun Strategol Caffael drwy brosesau democrataidd mewnol y Cyngor fel rhan o'r gwaith o sicrhau y cydymffurfir â Deddf Caffael 2024. O ran asedau'r Cyngor, mae cyhoeddi strategaeth rheoli asedau mân-ddaliadau wedi'i gohirio er mwyn gallu gwneud rhagor o waith gan gynnwys adolygiad gan grŵp tasg a gorffen trawsbleidiol.

Penderfynwyd nodi'r gweithredoedd y manylir arnynt yn y tabl log gweithredoedd a chadarnhau fod y Pwyllgor yn fodlon â'r gweithredoedd a roddwyd ar waith.

Gweithredu ychwanegol – Bod y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen yn rhoi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod o Ynys Môn pan gaiff ei gyhoeddi

4. ENWEBU I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU (CBC)

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am enwebiadau i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Er gwybodaeth roedd cylch gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC Gogledd Cymru wedi'i atodi ynghyd â chyflwyniad i rôl a disgrifiad rôl aelodau lleig sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a amlinellodd y gofynion mewn perthynas â chyfansoddiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC Gogledd Cymru a dywedodd y bydd ei aelodaeth yn cynnwys naw aelod. Bydd chwech ohonynt yn gynghorwyr sir, un o bob un o gynghorau Gogledd Cymru, a thri aelod lleig. Gofynnwyd i bob un o gynghorau y CBC enwebu cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail gynghorydd i weithredu fel

eilydd i sicrhau cworwm pan nad yw'r prif enwebai ar gael. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i bob un o'r cynghorau ystyried a ydynt am enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. At hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, er mai lle i un aelod lleyg sydd ar gael bellach, gallai'r pwyllgor enwebu mwy nag un person lleyg o hyd ac os felly, byddai'r penodiad yn cael ei wneud yn seiliedig ar deilyngdod yn unol â phroses gyhoeddus.

Ar ôl ystyried y mater ac yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd –

- **Enwebu'r Cynghorydd Geraint Bebb i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru fel prif enwebai.**
- **Enwebu'r Cynghorydd Keith Roberts i weithredu fel eilydd os na fydd y prif enwebai ar gael.**
- **I enwebu Mrs Sharon Warnes i wasanaethu fel Aelod Lleyg ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.**

5. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/2024

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Llythyr Blynnyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2023/24 ar gyfer Cyngor Ynys Môn. Roedd y Llythyr yn crynhoi perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r cwynion am wasanaethau a dderbyniwyd a'u canlyniadau yn ystod 2023/24, achosion yn ymwneud ag ymyrraeth gan yr Ombwdsmon a chwynion wnaed o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau.

Cyflwynwyd y negeseuon pennawd yn y Llythyr Blynnyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro. Dangosodd y rhain fod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion am wasanaethau a wnaed i OGCC er na wnaed unrhyw ymchwiliadau. O'r 38 cwyn a wnaed am y Cyngor yn 2023/24, roedd 9 neu 24% yn ymwneud â'r modd yr ymdriniwyd â chwynion. Hefyd dibynnwyd mwy ar ymyrraeth gan OGCC gyda 24% o gwynion (10 cwyn) wedi'u datrys yn y modd hwn sy'n cynrychioli'r lefel uchaf o ymyrraeth yng Nghymru. Er bod gwasanaethau'n ymdrin â'u cwynion eu hunain, maent yn dibynnu ar gymorth, arweiniad a chynghor gan y Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol. Mae'r swydd hon wedi bod yn wag ers peth amser ac ystyrir bod y swydd wag yn ffactor sy'n cyfrannu at ddirywiad mewn perfformiad ymdrin â chwynion er bod y swydd bellach yn cael ei llenwi dros dro gan asiantaeth. Roedd camau lliniaru i ddelio gyda'r rhain wedi'u nodi ac fe'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Sylwedd y cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon a ph'un ai a oeddent yn rhai difrifol
- P'un ai a yw ymyrraeth gynnar a datrys 10 cwyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn arwyddocaol ac yn adlewyrchu dull y Cyngor o ymdrin â chwynion.
- P'un ai a oes unrhyw arwyddion o welliant mewn perfformiad ac ymateb i gwynion hanner ffordd drwy 2024/25.

Hefyd, dywedwyd wrth y pwyllgor—

- Bod y rhan fwyaf o'r cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon mewn perthynas â busnes arferol y Cyngor o ddydd i ddydd ac ni ystyrir bod yr un ohonynt yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad gan y Swyddfa Archwilio Cyhoeddus.
- Mae'r ffaith bod 10 cwyn wedi'u datrys drwy ymyrraeth gynnar a chamau gweithredu a drefnwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos y gellid bod

wedi unioni materion yn gynnar yn y broses pe bai'r Cyngor wedi cymryd yr un ymagwedd at y cwynion hynny ac wedi gweithredu yn unol â hynny.

- Ni aseswyd ai cwynion yw'r rhain ynteu gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â chwynion yn seiliedig ar y data sydd ar gael i'r pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith oherwydd bod cwmplas y wybodaeth honno'n gyfyng ac nid yw'r wybodaeth wedi'i chyhoeddi.

Penderfynwyd -

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynnyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2023/2024.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynnyddol.**
- **Rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny, ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.**
- **Parhau i gefnogi'r Cyngor i ddatblygu ei system CRM fel llwyfan i brosesu cwynion a darparu data "byw" ar berfformiad o ran ymdrin â chwynion, fesul gwasanaeth, i swyddogion perthnasol, penaethiaid gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth.**

Camau ychwanegol – bod y pwyllgor yn cael ei ddiweddarau maes o law ynghylch cynnydd y mesurau a nodwyd i ddatrys cwynion.

6. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU ADOLYGIAD EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan CIPFA yn dilyn ei adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2024.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, o ran y 10 argymhelliad a wnaed a'r 13 cam a gynigiwyd i ddatrys yr argymhellion, bod deg wedi cael eu gweithredu'n llawn, bod dau wedi'u nodi a bod un cam yn parhau i fynd rhagddo, sef darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n adrodd i'r pwyllgor.

Penderfynwyd nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl yn yr adroddiad a chadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fodlon bod yr argymhellion wedi'u rhoi ar waith.

7. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad diweddarau'r Pennaeth Archwilio a Risg ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf (28 Tachwedd 2024) hyd at 31 Awst 2024. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi rhaglen waith bresennol y tîm Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau yn y tymor byr a chanolig. Derbyniodd aelodau'r pwyllgor gopiâu ar wahân o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, mewn perthynas â Goruchwyllo Partneriaethau (Sicrwydd Rhesymol), mesurau rheoli atal twyll o fewn ad-daliadau Refeniw (Sicrwydd Rhesymol) ac Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch (Sicrwydd Rhesymol).

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r tri adroddiad sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod gan gadarnhau, ym mhob achos, bod cynlluniau gweithredu wedi'u llunio ac y

cytunwyd arnynt gan y rheolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd. Cyfeiriodd at flaenoriaethau tymor byr i ganolig Archwilio Mewnol gan gynnwys gwaith ar y gweill fel y'i crynhoir yn yr atodlen ym mharagraff 18 yr adroddiad ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer y tymor hir. Tynnwyd sylw at ddatblygiadau eraill ar sail newidiadau i Safonau Archwilio Mewnol.

Gan fyfyrir ar y risg o dwyll ac addaswydd mesurau rheoli atal twyll, ceisiodd y pwyllgor sicrwydd bod gan y Cyngor fesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith i reoli'r risgiau sy'n codi oherwydd Deallusrwydd Artiffisial, yn enwedig wrth weithio gartref lle gall staff fod yn fwy agored i niwed yn sgil seiberymosodiadau, dynwarediad a hunaniaethau ffug a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial a allai beryglu diogelwch.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod adnabod eich gweithwyr yn ffordd gydnabyddedig o liniaru twyll a bod hynny'n haws mewn cyngor llai fel Ynys Môn. Mae trefniadau gweithio hybrid y Cyngor lle mae staff yn bresennol yn y swyddfa am ran o'r wythnos waith yn helpu i staff adnabod ei gilydd yn ogystal â'i ddull traddodiadol o ddarparu gwasanaeth i bobl sy'n golygu bod y risgiau yn sgil Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu lleihau.

Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith y tîm Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

8. DIWEDDARIAD AR WAITH Y CYNGOR I GYFLAWNI'R CYNLLUN STRATEGOL TUAG AT SERO NET YN 2023/24

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol Tuag at Sero Net ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad blynyddol yn cofnodi cynnydd y Cyngor o ran rheoli'r risg o newid yn yr hinsawdd ac i gyflawni amcanion blynyddol y cynllun yn ystod 2023/24. Yn atodiad 1 i'r adroddiad roedd dadansoddiad o ddata allyriadau 2023/24 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o dan ei rhaglen adrodd sero net flynyddol ynghyd â dadansoddiad o gyllidebau allanol a chyllideb y cyngor o fewn y cynllun gweithredu Tuag at Sero Net yn atodiad 2.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Newid Hinsawdd. Roedd yn rhoi trosolwg o uchafbwyntiau'r flwyddyn a phrif gamau gweithredu cynllun gweithredu Tuag at Sero Net ar gyfer 2023/24 gan gynnwys gostyngiad o 19.7% yng nghyfanswm allyriadau carbon y Cyngor o'i gymharu ag uchafswm yr allyriadau yn 2021/22, datgarboneiddio eiddo'r Cyngor yn barhaus a gefnogir gan £14m o gyllid grant Llywodraeth Cymru dros 3 blynedd, ychwanegu 28 o gartrefi carbon niwtral newydd at stoc tai'r Cyngor, ymestyn rhwydwaith gwefru EV a llwybrau teithio llesol, sefydlu meithrinfa goed newydd ger Llangoed a darparu hyfforddiant newid hinsawdd i aelodau etholedig ac uwch reolwyr. Prif negeseuon yr adroddiad yw bod nifer y cynlluniau gan y Cyngor o fewn y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net wedi cynyddu ond mae heriau sylweddol o hyd i gyrraedd y targed sero net erbyn 2030. Mae swm y cyllid allanol a sicrhawyd wedi rhagori ar ddisgwyliadau ac mae allyriadau carbon y Cyngor yn parhau i leihau ond mae angen gwneud rhagor o waith.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Gan gydnabod y cynnydd a wnaed yn fewnol gan y Cyngor, gofynnwyd cwestiynau am allu'r Cyngor i ddatgarboneiddio ei gadwyni cyflenwi a maint ei ddylanwad yn hyn o beth. Awgrymwyd y gallai fod o gymorth pe bai'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng canlyniadau allyriadau carbon mewnol y Cyngor a pherfformiad cynaliadwyedd a rhai'r gadwyn gyflenwi heb ddyblygu data.
- P'un ai a yw'r Cyngor yn gallu nodi uchafswm lefelau allyriadau ar gyfer cerbydau cyflenwyr er mwyn annog i newid o ddefnyddio petrol/diesel heb effeithio ar ddarpar ymgeiswyr ar gyfer contractau.

- Mae'r graddau y mae'r Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant allanol yn risg o ran cyflawni ei nodau sero net.

Hefyd dywedwyd wrth y Pwyllgor, gan fod allyriadau carbon y Cyngor yn cael eu rhannu'n bedwar prif gategori – Adeiladau, Trafnidiaeth, Gwastraff a'r Gadwyn Gyflenwi o fewn trefniadau adrodd Llywodraeth Cymru, mae'n bosibl sefydlu pa ffynonellau allyriadau sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor ac sy'n dod o fewn Cwmpas 3 sy'n cael eu dosbarthu fel allyriadau anuniongyrchol a lle gallai dylanwad y Cyngor fod yn wannach. Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod holl ddata'r gadwyn gyflenwi sy'n cael ei fonitro'n cael ei gofnodi'n gywir e.e. cofnodir gwariant ar drafnidiaeth o dan drafnidiaeth yn hytrach nag o dan y gadwyn gyflenwi rhag dyblygu. Er bod y Cyngor yn y tymor hir yn bwriadu cynnal trafodaethau gyda chyflenwyr gyda'r bwriad o nodi a lleihau eu hallyriadau carbon dros amser bydd yn cymryd mwy o amser i newid o gerbydau petrol/diesel mawr fel lorïau casglu sbwriel a bydd yn cynnwys ffactorau megis effeithiau ar lefelau gwasanaeth i gymunedau ac ystyriaethau eraill. Mae'r cyllid allanol sydd ar gael yn cael ei gydnabod fel risg ac mae unrhyw ostyngiad mewn cyllid grant neu arian a dynnir yn ôl yn debygol o effeithio ar ba mor gyflym y gwneir unrhyw gynnydd tuag at sero net.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol yn eu lle i reoli risgiau newid hinsawdd fel eu bod ar lefel dderbyniol.

9. ADRODDIAD SICRIFYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN 2024

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Dysgu Pobl Ifanc a oedd yn nodi'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol o ran ysgolion Ynys Môn ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2023 a Thachwedd 2024. Roedd yr adroddiad yn darparu datganiad a throsolwg y Swyddog Diogelu Data Ysgolion o ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion arbennig Ynys Môn â'r gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth ysgolion gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a'r codau ymarfer perthnasol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion y camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf ym mis Tachwedd 2023 gan gynnwys yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2023-24 ynghyd â chynnwys Strategaeth Datblygu Data Ysgolion 2024/25 a'r cynnydd hyd yma.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a ddywedodd ei bod, yn seiliedig ar ei hasesiad, yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch cydymffurfiaeth ysgolion Môn â gofynion diogelu data a rhoddodd drosolwg o'r dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r casgliad hwn gan friffio'r pwyllgor ar y camau nesaf.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Er y derbyniwyd bod angen i ysgolion fonitro eu cydymffurfiaeth eu hunain â'r holl bolisiau diogelu data, holwyd ynghylch parhau i gynnal ymweliadau archwilio blynyddol i ysgolion er na chawsant eu cynnal yn y cyfnod adrodd.
- Rôl a chyfranogiad llywodraethwyr ysgol mewn hunanreoleiddio diogelu data ysgolion

Cadarnhaodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion nad oedd unrhyw archwiliadau diogelu data wedi'u cynnal yn 2024 ac eithrio un ysgol na ymweld â hi yn 2023. Dywedodd y penderfynwyd gohirio'r archwiliadau yn 2024 hyd nes y cyflwynir y ddeddfwriaeth newydd ac y byddai'r archwiliadau yn aildechrau unwaith y bydd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) yn dod i rym a bod ysgolion wedi cael amser i weithredu unrhyw newidiadau ac y gellir eu monitro i weld a ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion newydd. Hefyd,

ystyriwyd bod ysgolion mewn sefyllfa dda o ran cydymffurfiaeth sylfaenol a bu 3 ymweliad ers 2019. Yn y cyfamser mae ysgolion wedi cael Rhestr Wirio Diogelu Data i'w helpu i fonitro eu cydymffurfiaeth.

At hyn, dywedodd fod cyflwyniad wedi'i wneud i gyrff llywodraethu ysgolion ar y prif ofynion a'r disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â rhwymedigaethau diogelu data. Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion rôl fel rheolwyr data ac felly mae cyfrifoldeb arnynt i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae adroddiadau yn dilyn ymweliadau archwilio hefyd yn cael eu rhannu gyda chyrff llywodraethu. Mae'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethu ysgolion wedi penodi arweinydd/hyryddwr diogelu data ac mae hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol bellach yn rhan o raglen waith y Gwasanaeth Dysgu.

Penderfynwyd –

- **Derbyn adroddiad a datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.**
- **Cymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion fel y nodir yn Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2024/25 i alluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.**

10. ADRODDIAD IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2023/24

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynnyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod y cyfnod gan gynnwys dadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau ynghyd â'r prif bethau a gyflawnwyd. Roedd hefyd yn cynnwys y cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a gyfeiriodd at ddau fater o bwys y bu'n rhaid rhoi sylw sylweddol iddynt yn ystod y flwyddyn. Un oedd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) oedd yn bresennol mewn dwy o ysgolion yr Awdurdod a'r llall yr achosion o fflwr adar ac eglurodd sut yr ymdriniwyd â'r rhain. Cadarnhaodd fod nifer y damweiniau/digwyddiadau a adroddwyd i'r Cyngor dros y cyfnod adrodd wedi codi a bod nifer yr achosion o drais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff y Cyngor ac o fewn ysgolion, lle mae ymddygiad disgyblion yn broblem gynyddol yn enwedig yn y sector cynradd, wedi cynyddu hefyd. Amlinellodd rai o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn gan gynnwys newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad ar ôl Covid a sut mae'r materion hyn yn cael sylw. Nodwyd cynllun gweithredu strategol i gefnogi gwelliant parhaus o ran rheoli iechyd a diogelwch a gofynnwyd i'r pwyllgor ei gymeradwyo.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ddadansoddiad y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghylch y pwysau ar staff sy'n wynebu'r cyhoedd gan gynnwys Gwarchod y Cyhoedd fel gwasanaeth rheng flaen a'r cynnydd mewn achosion o ymddygiad ymosodol tuag at staff yn y cyfnod ers y pandemig.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y pwyllgor -

- Y dull o fynd i'r afael ag ymddygiad gwael disgyblion mewn ysgolion cynradd
- P'un ai a oes angen i'r cynnydd mewn achosion o ymddygiad ymosodol a cham-drin tuag at staff y Cyngor gael ei godi i risg sylweddol a'i gydnabod felly.
- P'un ai a yw'r cynnydd yn nifer y damweiniau llithro, baglu a syrthio yn arwain at oblygiadau cost i'r Cyngor

At hyn, dywedwyd wrth y pwyllgor fod achosion o ymddygiad heriol disgyblion mewn ysgolion yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Dysgu a gallant arwain at gefnogaeth gan y

Tîm Ymyrraeth Gynnar. Mae gan y Cyngor bolisiau yn eu lle i ddelio â digwyddiadau treisgar a cham-drin yn erbyn staff, gan gynnwys system Nodi Risg o Drais sy'n nodi unigolion a allai beri risg i staff; os yw'r cam-drin yn digwydd ar lafar dros y ffôn mae'r Polisi Rheoli Cysylltiadau – Gweithredoedd Annerbyniol gan Gwsmeriaid yn caniatáu i staff roi gwybod i'r cleient bod eu hymddygiad yn annerbyniol a dod â'r alwad ffôn i ben. Pan fo digwyddiadau mewn adeilad cyhoeddus, gellir gwahardd y sawl sy'n ymddwyn yn annerbyniol rhag mynd i mewn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 15 fod y Cyngor wedi'i yswirio ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus ac, wrth hawlio iawndal, rhaid i hawlydd ddangos bod y Cyngor wedi bod yn esgeulus o ran peidio â sicrhau diogelwch ardal/adeilad cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano, er enghraifft. Mae'r Cyngor a'i yswirwyr yn delio ag achosion o lithro, baglu a syrthio yn rheolaidd ac ni fu cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau hyn. Mae'n anodd mesur cost delio ag effaith achosion o lithro a syrthio oherwydd os yw un o weithwyr y Cyngor yn absennol o'r gwaith oherwydd ei fod wedi lithro neu syrthio, yna, yn dibynnu ar y math o waith y mae'n ei wneud e.e. gwaith gofal, efallai y bydd angen trefnu i gael gweithiwr dros dro. Felly, mae costau amrywiol ar gyfer gwahanol wasanaethau.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio –

- **Yn cadarnhau ei fod yn fodlon bod gweithgareddau'r Cyngor ynghylch lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhoi sylw digonol i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor**
- **Derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol yn eu lle i reoli risgiau iechyd a diogelwch fel eu bod ar lefel dderbyniol.**
- **Yn cefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu lechyd a Diogelwch Corfforaethol.**

11. ARCHWILIO ALLANOL – ADRODDIAD MONITRO

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn manylu ar ymateb y Cyngor i adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod yr argymhellion sy'n gysylltiedig ag adroddiadau allanol wedi cael eu hystyried gan wasanaethau'r Cyngor a bod y rhai sy'n berthnasol i'r Cyngor yn cael eu gweithredu mewn ffordd ystyrlon.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen a gadarnhaodd fod y Cyngor wedi gweithredu 20% o'r argymhellion, bod 68% o'r ymatebion ar waith a bod 12% ar ei hôl hi. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am statws a chynnydd y tri argymhelliad a oedd ar ei hôl hi. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch y ffaith nad oedd amserlenni ar gyfer gwaith sydd ar y gweill, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen fod argymhellion sy'n ddewisol mewn adroddiadau cenedlaethol lle mae'n fater i'r cyngor benderfynu a fyddai eu gweithredu'n ychwanegu gwerth ai peidio ynghlwm wrth amserlen fel arfer. Fodd bynnag, mae amserlen ar gyfer argymhellion mewn adroddiadau sy'n benodol i Ynys Môn a bydd y Cyngor yn fewnol yn gosod amserlen ar gyfer eu gweithredu fel y bo'n briodol.

Dywedodd Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad (Archwilio Cymru) ei bod yn ddefnyddiol cael amserlen ar gyfer pob tasg mewn cynllun gweithredu gan y bydd gosod cerrig milltir yn helpu i olrhain cynnydd dros amser a nodi tasgau sydd angen mwy o amser na'r disgwyl i'w cwblhau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ynghyd â'r ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.

Cytunwyd ar gam ychwanegol – ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, pan fydd diweddariadau ynghylch y cynnydd a wneir o ran yr ymatebion i argymhellion, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

12. ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU (CH2 2024/25)

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar 30 Medi 2024 ar ddarparu ei raglen waith mewn perthynas â gwaith yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac yn genedlaethol, er gwybodaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r gwaith rheoleiddio sy'n cael ei wneud gan Estyn ac AGC.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a ddarparodd grynodedb o'r cynnwys. Rhoddodd Mr Alan Hughes Arweinydd Archwilio Perfformiad (Archwilio Cymru) ddiweddariad i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd a wneir gyda darnau penodol o waith archwilio ariannol a pherfformiad.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r sicrwydd a ddarperir ynddo.

13. ADOLYGU'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

Tynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg sylw at y ffaith bod adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys wedi'i aildrefnu o fis Rhagfyr 2024 i fis Chwefror 2025 gan fod y gwaith archwilio ariannol yn parhau. Dyma'r unig newid i'r rhaglen waith.

Penderfynwyd derbyn Blaen Raglen Waith 2024/25 fel un sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

14. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwaharddwyd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 18 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.

15. ADRODDIAD SEIBERDDIOGELWCH TGCH BLYNYDDOL 2023/24

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Seiberddiogelwch TGCh Blynyddol ar gyfer 2023/24. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar 31 Mawrth 2024 o weithgareddau'r Cyngor o ran lliniaru risg seiberddiogelwch yn ystod 2023/24.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Peiriannydd Diogelwch TG Arweiniol a amlinellodd y cynnwys a rhoddodd drosolwg o'r heriau seiberddiogelwch sy'n wynebu'r Cyngor a'r camau a gymerwyd hyd yma i oresgyn yr heriau hyn, sut yr ymdriniwyd â rhybuddion diogelwch a sut y cafodd y rhain eu datrys ynghyd â phrosiectau seiberddiogelwch presennol.

Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor a chawsant eu trafod gyda'r swyddogion TGCh oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem –

- Prydlondeb penderfyniadau ac ymatebion cyflenwyr ceisiadau trydydd parti i wendidau diogelwch a ph'un ai a ellir mynd i'r afael â hyn/gwella hyn trwy fanyleb contract neu drwy atal taliad pan fydd oedi yn arwain at fethiant rheoleiddiol.

- Risgiau parhaus a / neu risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r mudo i Windows 11.
- Gallu'r gwasanaeth TGCh o ran staff ac adnoddau a phu'n ai y gellir lleihau costau drwy gydweithio a/neu gydweithredu.
- Ymwbyddiaeth staff o ddiogelwch a'r gwersi i'w dysgu o ymarferion/ymgyrchoedd sy'n profi staff ynglŷn â'u gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o faterion diogelwch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a derbyn eglurhad a sicrwydd gan y Swyddog mewn perthynas â'r materion a godwyd, penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio –

- Yn nodi'r heriau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad.
- Cadarnhau ei fod yn fodlon bod gweithgareddau'r Cyngor ynghylch seiberddiogelwch yn rhoi sylw digonol i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.
- Derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol yn eu lle i reoli bygythiadau seiber fel eu bod ar lefel dderbyniol.

**Mr Dilwyn Evans
(Cadeirydd)**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	11 Chwefror 2025
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm Dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
8	27/06/24	7	Pennaeth Archwilio a Risg i drefnu sesiwn ar liniaru risg a chyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn rhaglen hyfforddi'r Pwyllgor ar gyfer 2024/25.	Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol	Bydd y Prif Swyddog Digidol yn rhoi briff i'r Pwyllgor ar Ddeallusrwydd Artiffisial a'r mesurau y gellir eu cymryd i liniaru'r risgiau mewn perthynas â'r maes technoleg hwn sy'n datblygu. Cytunwyd ar ddewis y Pwyllgor ar gyfer fformat ac amseriad y briff hwn yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 a bydd yn digwydd am 1yp, yn union cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Chwefror 2025.	Cwblhawyd.

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
10	27/06/24	9	Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor.	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol	Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024 .	Ar y gweill.
	05/12/24	3			Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 (Eitem 3), cytunodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen i roi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac effaith Quod Môn pan gaiff ei gyhoeddi.	
16	19/09/24	5	Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blyneddol ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor i gynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro		Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025.

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
18	19/09/24	6	Mae'r adroddiad Rheoli Trysorlys Blynnyddol i'w adolygu er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder pendant.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151		Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025.
19	05/12/24	5	Darperir diweddariad ar gynnydd y mesurau a nodwyd i ddarparu penderfyniadau i'r Pwyllgor maes o law.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	Bydd pryderon a godwyd gan wasanaeth ynghylch y CRM yn gofyn am addasiadau pellach, ond ar hyn o bryd mae'r gallu i'w gweithredu yn gyfyngedig. Gall y sefyllfa heb ei llenwi hefyd gyfyngu diweddariad ystyrlon. Felly, bydd diweddariad cynnydd yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad cwynion blynnyddol nesaf, ym mis Medi 2025, gan ganiatáu i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth cyn y llythyr CCC blynnyddol nesaf.	Mae'r adroddiad nesaf yn ddyledus ym mis Medi 2025.
20	05/12/24	11	Ar gyfer adroddiadau monitro archwilio allanol a rheoleiddwyr yn y dyfodol, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cyd-fynd â diweddariadau ar gynnydd yr ymatebion i argymhellion.	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol		Mae'r adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	11 Chwefror 2025
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1). Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10) Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 , yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynnydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060).	

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Ionawr 2025 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 28 Tachwedd 2024 llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Diweddariad Archwilio Mewnol

Chwefror 2025



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf	1
Datblygu Tai (YM15)	2
Recriwtio a Chadw Staff (YM2)	2
Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo	3
Gwaith ar y Gweill	4
Camau Gweithredu sy'n Weddill	4
Blaenoriaethau	5
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig	5
Blaenoriaethau yn y Tymor Hwyl	5
Tendr ar gyfer darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol	5
Datblygiadau Eraill	5
Newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol	5
Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU.	5
Adolygiad o Ganllawiau CIPFA a Solace ar yr Adolygiad Blyneddol a Datganiadau Llywodraethu Blyneddol	5

Tudalen 21

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau/cyfleoedd a godwyd.
2. Rydym wedi cwblhau tri darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol
Datblygu Tai (YM9)	Rhesymol	0	3	3
Recriwtio a Chadw (YM2)	Rhesymol	0	0	3
Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo	Amherthnasol	0	0	4

Datblygu Tai (YM15)

Sicrwydd Rhesymol	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	3	Sylweddol
	3	Cymedrol

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gynyddu ei stoc dai cymdeithasol, ac o ganlyniad liniaru'r risg o ddiffyg tai addas, fforddiadwy ar gyfer trigolion Ynys Môn?
4. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gynyddu ei stoc dai ond bod angen gwella rhai meysydd, yn benodol, yn gysylltiedig â rheoli'r tai y mae'n eu 'prynu'n ôl' h.y. tai cyngor a gafodd eu gwerthu o dan y cynllun 'Hawl i Brynu'.
5. Mae'r cyngor yn cyflawni ei dargedau o ran twf y stoc dai; y nod yn y Strategaeth Dai 2022-27 yw ychwanegu 45 eiddo y flwyddyn (30 eiddo newydd a phrynu 15 tŷ yn ôl). Ers 2022-23 mae'r Cyngor wedi ychwanegu 72 o dai a adeiladwyd o'r newydd i'w stoc ac mae 54 uned newydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Os caiff y prosiectau hyn eu cyflawni erbyn Ebrill 2026, bydd y Cyngor wedi cyrraedd ei darged i ddatblygu 30 uned newydd y flwyddyn.
6. Er bod y Cyngor yn cyflawni ei darged yn gysylltiedig â phrynu tai yn ôl, gyda 51 eiddo wedi eu prynu ers 2022-23, mae heriau, gan gynnwys prynu eiddo a'u hadnewyddu, yn golygu ei bod yn cymryd 18 mis neu fwy i osod eiddo. Mae'n anodd profi gwerth am arian oherwydd nad yw hyfywedd ariannol yn cael ei asesu'n ffurfiol. Mae cyllideb gyfalaf 2024-25 yn tanbrisiu'r costau yn gysylltiedig â phrynu tai yn ôl, gan greu'r risg o orwario, neu ailddyrannu adnoddau ar gyfer datblygiadau newydd. Byddai polisi ffurfiol ar gyfer 'prynu tai yn ôl' yn cryfhau trefniadau llywodraethu.
7. Er bod yr adolygiad wedi nodi chwe maes sydd angen sylw gan reolwyr, mae'n darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn rheoli'r risg strategol hon yn effeithiol. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr.

Recriwtio a Chadw Staff (YM2)

Sicrwydd Rhesymol	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	3	Cymedrol

8. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith er mwyn recriwtio, datblygu a chadw staff sydd â sgiliau addas er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon?
9. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod trefniadau addas ar waith gan y Cyngor, ond byddai o fudd pe byddai gwelliannau'n cael eu gwneud mewn perthynas â monitro perfformiad, rhaglenni dysgu a hyfforddi a diweddarau'r gofrestr risgiau strategol i adlewyrchu'r heriau presennol.
10. Mae ymrwymiad cryf i hyfforddi a datblygu'n cael ei ddangos trwy raglenni arweinyddiaeth, partneriaethau gyda cholegau a chyllid ar gyfer hyfforddiant proffesiynol. Mae'r cynllun 'Denu Talent' diwygiedig yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau recriwtio yn y gweithlu gofal. Er hyn, dylid ffurfioli gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni hyfforddi ac adrodd ar ganlyniadau i'r Tîm Arweinyddiaeth.
11. Mae'r system AD wedi cael ei diweddarau ac mae hyn wedi symleiddio prosesau hysbysebu ac awdurdodi swyddi. Cynhelir trafodaethau ynglŷn â'r gweithlu dair gwaith y flwyddyn, a chyflwynir adroddiadau ar dueddiadau dair gwaith y flwyddyn hefyd, ond byddai data ychwanegol ar rolau sy'n anodd recriwtio iddynt yn gwella dealltwriaeth rheolwyr. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd yn canolbwyntio ar swyddi sy'n cael eu hysbysebu am y tro cyntaf, ond nid ydynt yn cynnwys swyddi sy'n cael eu hail-hysbysebu. Mae risg felly i'r darlun o'r heriau recriwtio fod yn anghyflawn.
12. Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd wedi disgyn yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac nid yw bellach yn broblem mor eang, er bod rhai gwasanaethau'n dal i wynebu heriau recriwtio penodol.
13. Mae ein hadolygiad yn darparu **sicrwydd rhesymol** a nodwyd tri maes i'w gwella. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r gwasanaeth er mwyn cefnogi gwelliannau sy'n mynd rhagddynt.

Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo

	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
Amherthnasol	0	Critigol
	0	Sylweddol
	4	Cymedrol

14. Cynhaliwyd ein hymchwiliad mewn ymateb i honiadau a wnaethpwyd mewn perthynas â gwariant y Cyngor ar gontractwyr trydanol, lle'r oedd yr achwynydd wedi cyhuddo swyddogion y Cyngor o ffafrio contractwr wrth gaffael gwaith trydanol.
15. Roedd ein hadolygiad, felly, yn ceisio ateb y cwestiynau allweddol canlynol:
- **Trefniadau caffael y Cyngor mewn perthynas â gwaith trydanol a ph'un a ddyfarnwyd contractau / gwaith trydanol yn unol â rheoliadau, a bod proses gaffael deg, dryloyw, anwahaniaethol a chystadleuol wedi'i dilyn.**
 - **P'un a oedd gwrthdaro buddiannau rhwng swyddogion a'r contractwr a sut y cawson nhw eu rheoli.**
16. Fe gynhaliom hefyd adolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol presennol i liniaru risgiau twyll yn gysylltiedig â'r maes hwn.
17. Daeth ein hymchwiliad i'r casgliad fod y Cyngor wedi dyfarnu gwaith a chontractau trydanol i'r contractwr yn unol â'r rheolau gweithdrefnau contractau a'r rheoliadau, gan ddilyn proses deg, dryloyw, anwahaniaethol, gan sicrhau gwerth am arian o ganlyniad i broses gaffael gystadleuol.
18. Nid oedd yn bosib cadarnhau honiadau bod y contractwr wedi cael ei ffafrio a bod gwaith trydanol wedi'i ddyrannu iddo ar draul contractwyr eraill ar y Fframwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Eiddo 2019.
19. Oherwydd bod y contractwr wedi cael ei osod mewn safle isel ar y rhestrau Lotiau Gwaith Trydanol a Gynlluniwyd a Gwaith wrth y Dydd, ni chafodd ei ystyried ar gyfer gwaith trydanol ar ysgolion ac adeiladau

corfforaethol. Roedd y gwaith o werth sylweddol a gwblhawyd gan y contractwr mewn ysgol yn destun proses dendro ar wahân trwy [GwerthwchiGymru¹](#).

20. Fe wnaethom nodi gwrthdaro buddiannau posib mewn perthynas â gweithiwr a adawodd gyflogaeth y Cyngor yn 2021. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth fod gan y swyddog rôl yn y broses gaffael ar gyfer y contract Archwilio, Profi, Cynnal a Chadw Gosodiadau Trydanol o Dro i Dro yn y Stoc Môn-ddaliadau 2018, a arweiniodd at gynnydd sylweddol yn y gwaith a ddyfarnwyd i'r contractwr, na bod y swyddog wedi cael dylanwad amhriodol ar y broses honno.
21. Os oedd gwaith yn cael ei ddyfarnu i'r contractwr yn bennaf oherwydd y berthynas hon, byddai disgwyl i'r gwaith a ddyrannwyd i'r contractwr ostwng ar ôl i'r swyddog ymddiswyddo. Er hynny, roedd y contractwr wedi derbyn y gwaith mwyaf, o ran gwerth, yn 2022 a 2023. Lle gofynnwyd am ddyfynbrisiau gan gyflenwyr eraill, penderfynwyd mai'r contractwr oedd yn cynnig y gwerth gorau o ran pris / ansawdd, a hynny ar sail arfarniad teg.
22. Yn ddiweddar, mae'r tîm Eiddo wedi cyhoeddi tendr ar GwerthwchiGymru ar gyfer y contract(au) Gwaith Profi a Chynnal a Chadw (Anheddau ac adeiladau Allan) - Adroddiadau Cyflwr Gosodiadau Allanol Môn-ddaliadau.
23. Oherwydd yr honiadau a wnaed, a'r disgwyliad y gallai honiadau pellach gael eu gwneud os dyfernir y contract(au) i'r contractwr, mae'n bwysig fod panel arfarnu cymwys yn sgorio'r bidiau unwaith eto, gan sicrhau tegwch, tryloywder a bod cyflenwyr yn cael eu trin yn gyfartal.
24. Er na chadarnhawyd yr honiadau, roedd ein hymchwiliad yn amlygu cyfleoedd i gryfhau rheolaethau'n gysylltiedig â'r risg o dwyll, megis trefniadau ar gyfer datgan diddordebau personol ac ariannol, a rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau o fewn y gwasanaeth. Rydym wedi nodi rhai anghysonderau gweithdrefnol mewn perthynas ag anfonebau a dderbyniwyd gan y contractwr, nad ydynt yn gysylltiedig â'r honiadau hyn, ac rydym wedi eu cyfeirio at y tîm Eiddo a'r Gwasanaeth Adnoddau. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion / risgiau / cyfleoedd hyn.

¹ Ffynhonnell gwybodaeth a phorth caffael yw GwerthwchiGymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau i ennill contractau yn y sector cyhoeddus ledled Cymru ac i brynwyr yn y sector cyhoeddus hysbysebu a rheoli cyfleoedd i dendro.

Gwaith ar y Gweill

25. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:


Maes	Rheswm am yr Archwiliad	Cam
Y Fenter Twyll Genedlaethol	Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025	Derbyniwyd yr adroddiadau paru data ddiwedd Rhagfyr 2024. Rydym yn adolygu'r paru data risg uchel ar hyn o bryd.
Ymchwiliad - Gwasanaethau Tai	Cwyn	Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad. Daethpwyd â chontract cyflogaeth y gweithiwr i ben yn dilyn proses ddisgyblu'n ymwneud â mater nad oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn.
Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Gymraeg	Ar gais y Prif Weithredwr	Adroddiad Drafft
Rheoli Asedau'r Cyngor	Cofrestr Risgiau Strategol (YM14)	Gwaith Maes
Archwiliad TG: Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Prynu (PCI DSS)	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Adroddiad Drafft
Adennill y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a Mân Ddyledion	Ail Ddilyniant	Gwaith Maes
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Dilyniant Cyntaf	Gwaith Maes
Cyrchfan - Prosesau Incwm y gwasanaeth Morwrol	Dilyniant Cyntaf	Gwaith Maes
Archwiliad TG: Rheoli'r Ddesg Wasanaeth	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Gwaith Maes
Rheoli Perfformiad	Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25	Pennu Cwmpas
Sail y Dreth Gyngor	Ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151	Pennu Cwmpas
Archwiliad TG: Seiberddiogelwch mewn Ysgolion	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Pennu Cwmpas

Tudalen 24

Camau Gweithredu sy'n Weddill

26. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.
27. Ar 31 Ionawr 2025, roedd 12 mater / risg / cyfle yn hwyr a heb dderbyn sylw erbyn y dyddiad targed, fel y gwelir isod.
28. Mae chwech o'r gweithredoedd yn gysylltiedig ag archwiliad o drefniadau Adennill y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a Mân Ddyledion ac mae adolygiad dilynol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys tair gweithred 'Sylweddol' yn gysylltiedig ag adennill hen ddyledion treth gyngor a mân ddyledion.
29. Mae tri o'r gweithredoedd hwyr yn ymwneud ag archwiliad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac mae adolygiad dilynol hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r maes hwn ar hyn o bryd.
30. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau'n parhau i geisio adennill arian mewn perthynas ag anfonebau a dalwyd ddwywaith ac mae'r weithred hwyr arall yn ymwneud â rheoli mynediad i dechnoleg gwybodaeth a diffyg aliniad rhwng system swyddfa gefn a'r safon cymhwysiad a ddefnyddir ar gyfer dilysu. Ar hyn o bryd, mae'r tîm TG yn trafod â'r cyflenwr p'un a ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r meddalwedd.

Materion / Risgiau / Cyfleoedd Hwyr fesul Gwasanaeth



Blaenoriaethau

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

- 31. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran [Gwaith ar y Gweill](#) yn gynharach yn yr adroddiad. Rydym yn gwneud cynnydd cyson o ran ein Strategaeth Archwilio Mewnol Blynnyddol 2024-25 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 ac rydym yn ymgynghori ar y Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26.
- 32. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi bod yn brysur iawn fel aelod o'r gweithgor a sefydlwyd gan CIPFA i ymateb i gyhoeddi'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang ac, yn ddiweddarach, Grŵp Cyfeirio a sefydlwyd i oruchwyllo adolygiad o ganllawiau ar y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol mewn cyrff llywodraeth leol yn y DU (ceir manylion yn yr adran Datblygiadau Eraill isod).

Blaenoriaethau yn y Tymor Hwyr

- 33. Er bod y safonau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025, ni fydd disgwyl i dimau archwilio mewnol gydymffurfio'n llawn â nhw ar y dyddiad hwn. Mae CIPFA'n cydnabod y bydd timau'n cydymffurfio'n raddol a bydd angen amser arnynt i bontio a dod yn gyfarwydd â'r safonau newydd. Mae'n newid sylweddol fydd yn golygu y bydd angen i dimau archwilio mewnol adolygu eu harferion gweithio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau, a bod ganddynt gynllun gweithredu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.
- 34. Yn dilyn cyhoeddi'r Cod Ymarfer, bydd hunan asesiad dadansoddi'r bwlch a chynllun gweithredu'n cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai.

Tendr ar gyfer darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol

- 35. Mae timau archwilio mewnol Llywodraeth Leol ar draws y Deyrnas Unedig yn wynebu anawsterau o ran adnoddau, oherwydd swyddi gweigion, diffyg sgiliau arbenigol a thoriadau cyllidebol.
- 36. Rydym yn parhau i weithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i wella canlyniad yr ymarfer tendro a gynhaliwyd ar ran rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol er mwyn datrys y broblem hon. Mae hyn yn cynnwys darparu rolau arbenigol, gan gynnwys archwiliad TG.

Datblygiadau Eraill

Newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol

- 37. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang newydd wedi cael eu cyhoeddi ac mae sector cyhoeddus y DU yn ymateb.
- 38. Mae fersiwn derfynol y nodyn Cymhwyso: Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU bellach yn [weithredol](#). Gyda'i gilydd, bydd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang a'r Nodyn Cymhwyso yn sail i archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025.
- 39. Mae CIPFA wedi cyhoeddi briff ar y safonau archwilio mewnol newydd ar gyfer aelodau pwyllgorau archwilio – Diweddariad Pwyllgorau Archwilio, Rhifyn 40, a anfonwyd ymlaen at y Pwyllgor ar 24/12/24.

Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU.

- 40. Mae CIPFA hefyd wedi datblygu Cod Ymarfer newydd i gynorthwyo awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu trosolwg a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol.
- 41. Roedd manylion wedi'u cynnwys yn y diweddariad a gyflwynwyd i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.
- 42. Roedd y Cod yn destun [ymgyngoriad](#) a gwahoddwyd ymatebion gan y rhai hynny oedd â diddordeb mewn archwilio mewnol yn sector llywodraeth leol y DU, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion oedd 28 Tachwedd 2024.
- 43. Mae CIPFA yn bwriadu cyhoeddi'r Cod ar 3 Chwefror 2025 a bydd yn cyhoeddi briff pellach ar gyfer aelodau'r pwyllgor archwilio bryd hynny.

Adolygiad o Ganllawiau CIPFA a Solace ar yr Adolygiad Blynnyddol a Datganiadau Llywodraethu Blynnyddol

- 44. O dan reoliadau statudol eu llywodraeth genedlaethol, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol y DU gynnal adolygiad blynnyddol o effeithiolrwydd ei system o reolaethau mewnol. Mae'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi mewn datganiad llywodraethu blynnyddol.

45. Mae canllawiau ar gyfer cwblhau'r adolygiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u cynnwys yn *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (Governance Framework)* (CIPFA a Solace, 2016). Mae CIPFA a Solace yn cynnig diweddaru'r canllawiau trwy lunio Atodiad.
46. Nod yr Atodiad yw cefnogi llywodraethiant da o fewn y sector, adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi effeithio ar lywodraethiant mewn cyrff llywodraeth leol ers 2016, annog adolygiadau cadarn o drefniadau llywodraethu a gwella atebolrwydd i randdeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol.
47. Dyma'r tro cyntaf i'r canllawiau gael eu diweddaru ers 2016 ac mae'n disodli Pennod 7 yn y Fframwaith. Nid yw'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016 a'r saith egwyddor llywodraethu da wedi newid.
48. Mae'r Atodiad yn destun [ymgyngoriad](#) ar hyn o bryd a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 10 Mawrth 2025.
49. Bydd rhaid i awdurdodau sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025-26 ymlaen yn cydymffurfio â'r canllawiau ac maent yn cael eu hannog i ystyried hynny ar gyfer 2024-25.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	11 Chwefror 2025
Pwnc:	Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2025-28
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rhesymau dros Adrodd: Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gofyn bod y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risgiau o dwyll a llygredd, gan roi sicrwydd eu bod yn addas i'w diben ac y byddant yn hyrwyddo arferion gwrth-dwyll a gwrth-lygredd da i'r sefydliad ehangach. (3.4.8.9.2) Wrth wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll a llygredd, er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag arfer a argymhellir, safonau llywodraethu a deddfwriaeth. (3.4.8.9.3).	

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd y bydd Archwilio Mewnol yn ei wneud yn ystod 2025-28 i leihau'r risg o dwyll, llwgwrwobrwyo a llygredd ddigwydd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

2. Argymhelliad

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer gwrthsefyll twyll, llwgwrwobrwyo a llygredd ar gyfer 2025-28 ac yn:
- nodi'r gweithgaredd a wneir yn ystod 2025-28 i leihau'r risg o dwyll
 - sicrhau bod y strategaeth yn cwrdd ag arfer a argymhellir, safonau llywodraethu a deddfwriaeth.

Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-28

Chwefror 2025



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Pam fod Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig?	3
Y Cyd-destun Presennol	3
Trefniadau ac adnoddau atal twyll	4
Amcanion strategol	5
Casgliad	8
Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd?	9
Atodiad 2 – Cynllun Cyflawni Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028	11

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau y bydd Archwilio Mewnol yn eu cyflawni yn ystod 2025-28 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd¹ rhag digwydd yn y Cyngor ac yn ei erbyn.
2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2022 (PSIAS), sy'n nodi bod rhaid i archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
3. Yn ogystal, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod mesurau er mwyn atal a chanfod gwallau a thwyll wedi'u cynnwys yn systemau rheoli cyfrifeg y Cyngor.
4. Roedd [adroddiad](#)² gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn datgan bod gwerth y colledion yn y sector cyhoeddus oherwydd twyll yn anhysbys. Roedd [adroddiad](#)³ gan Swyddfa'r Cabinet yn nodi bod ystod y colledion tebygol yng ngwariant y llywodraeth rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant.
5. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, mae'n awgrymu y gallai colledion yn sgil twyll a chamgymeriadau fod rhwng £1.13 miliwn ac £11.3 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar [gyllideb](#) refeniw gros o £226 miliwn ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn 2024-25.
6. Mae lleihau twyll ac anghysonderau yn hanfodol er mwyn sicrhau fod adnoddau, y bwriadwyd iddynt ddarparu gwasanaethau hanfodol i breswylwyr a busnesau Ynys Môn, yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw.
7. Pwrpas y strategaeth hon yw sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud popeth yn ei allu i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn a lleihau'r risg o dwyll a llygredd.

¹ Mae esboniad o beth yw twyll, llwgrwobrwyo a llygredd wedi'i gynnwys yn [Atodiad 1](#)

² [Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru](#), Archwilio Cymru, Mehefin 2019

³ [Cross-Government Fraud Landscape Annual Report 2019](#), Swyddfa'r Cabinet

Pam fod Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Bwysig?

8. Mae pob punt a gollir oherwydd twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen.
9. Mewn cyfnod pan mae pwysau ariannol yn cynyddu, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll, yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd ariannol.
10. Gall twyll gael effaith ar enw da'r sector cyhoeddus hefyd, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ac effeithlonrwydd sefydliadau.
11. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
12. Mae'r sector cyhoeddus yn cael ei dargedu'n gynyddol bellach, oherwydd bod y trafodion ariannol yn fwy, ac mae twyllwyr yn gallu gwneud mwy o elw.
13. Yn y cod ymarfer, 'Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption'⁴ mae CIPFA yn dadlau:

"Mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol."

⁴ [Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption](#), CIPFA, 2014

⁵ [Fraud Barometer 2023 Update](#), KPMG, Awst 2024

⁶ [Crime in England and Wales](#), ONS, Mehefin 2024

⁷ [Fraud Strategy: stopping scams and protecting the public](#), Mehefin 2023

⁸ [Employee theft jumps by a fifth as cost-of-living pressures mount](#), Zurich UK, Chwefror 2023

Y Cyd-destun Presennol

14. Mae pryder gwirioneddol ymysg sectorau cyhoeddus a phreifat y DU fod twyll bellach wedi cyrraedd lefelau digynsail. Yn ôl y Swyddfa Gartref, twyll sy'n gyfrifol am dros 40% o droseddau, ond mae'n derbyn llai na 1% o adnoddau'r heddlu ⁵, a dyma'r drosedd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr heddiw.⁶
15. Gyda'r rhyfel yn Wcráin yn parhau, ynghyd â'r argyfwng costau byw, risgiau allweddol eraill i fusnesau, megis amharu ar y gadwyn gyflenwi, materion cadw staff a bygythiadau seiber, mae'r cyfleoedd i dwyllo'n parhau i gynyddu a bydd twyllwyr yn manteisio ar y sefyllfa gan ddefnyddio dulliau mwyfwy soffistigedig i gyflawni troseddau.
16. Mewn ymateb, cyhoeddodd llywodraeth y DU ei Strategaeth Dwyll⁷ a chyflwynwyd deddfwriaeth newydd, gan gynnwys y [drosedd](#) o 'fethu ag atal twyll' yn Neddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023. Daw'r drosedd newydd i rym ar 1 Medi 2025.
17. Bwriad y drosedd hon yw annog sefydliadau i dderbyn cyfrifoldeb am systemau a rheolaethau gwael y gallai unigolion gam-fanteisio arnynt er mwyn torri'r gyfraith. Gall y sefydliad osgoi cael ei erlyn os yw'n gallu profi fod ganddo 'weithdrefnau rhesymol' ar waith i atal y math hwn o dwyll rhag digwydd pan gyflawnwyd y drosedd dwyll.
18. Mae'r risg o dwyll hefyd yn cael ei gydnabod fel problem ddifrifol gan nifer o ran y bygythiad mewnol gan reolwyr a staff. Amlygodd [adroddiad](#)⁸ gan Zurich UK fod cynnydd sylweddol yn yr achosion o ddwyn gan weithwyr wrth i gynnydd mewn costau byw esgor ar don o droseddau yn y gweithle.

19. Mae ffigyrau diweddar yn dangos bod dros 500 achos o weithwyr yn cael eu dal yn dwyn gan eu cyflogwyr bob mis yng Nghymru a Lloegr.⁹
20. Mae Zurich wedi gweld cynnydd hefyd mewn hawliadau yswiriant am deilwra cymdeithasol, lle mae twyllwyr yn dylanwadu ar weithwyr er mwyn iddynt wneud taliadau neu rannu manylion banc a chyfrineiriau. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae troseddwyd wedi hacio cyfrif e-bost uwch swyddog ac anfon cyfarwyddiadau talu brys gyda manylion banc ffug at aelodau eraill o staff a sefydliadau allanol.
21. Wrth archwilio'r math mwyaf cyffredin o dwyll a welir yn y llysoedd, roedd y nifer mwyaf o achosion yn ystod hanner cyntaf 2024 yn ymwneud â thwyll yn gysylltiedig â chymryd rheolaeth o gyfrifon banc.
22. Yn ei [adroddiad](#)¹⁰ sy'n trafod yr heriau a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn pryderu y gallai fod yn rhy hawdd i gyrff cyhoeddus ystyried eu buddsoddiad mewn gwaith atal twyll fel elfen ddewisol yn hytrach na hanfodol ymysg pwysau eraill.
23. Gan ddyfynnu amcangyfrifon Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus bod o leiaf £33 biliwn o arian trethdalwyr y DU (gan gynnwys trethi a lles) yn destun twyll a chamgymeriadau bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu bod y cyfleoedd yn rhai sylweddol os yw'r ewylllys yn bodoli i fynd i'r afael â nhw.

Trefniadau ac adnoddau atal twyll

Trefniadau atal twyll y DU

24. Mae nifer o gyrff yn cefnogi a gyrru arferion da o ran atal twyll ledled y DU, gan gynnwys Canolfan Atal Twyll CIPFA, y Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll (NAFN)¹¹ ac, yn fwyaf nodedig, y Fenter Twyll Genedlaethol.
25. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd ac mae'n paru data oddi mewn i sefydliadau, systemau a ffiniau cenedlaethol, a rhyngddynt, er mwyn cynorthwyo gyrff cyhoeddus i nodi twyll neu wallau posib mewn hawliadau a thrafodion. Rhaglen atal twyll y llywodraeth yw hi sy'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet ac a sefydlwyd yn 1996 i warchod arian cyhoeddus a chosbi twyllwyr.
26. Roedd [adroddiad](#)¹² diweddaraf yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi fod yr ymarfer wedi canfod neu atal dros £56.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru ers ei sefydlu, ac roedd yr ymarfer yn 2022-23 wedi cynorthwyo gyrff cyhoeddus yng Nghymru i nodi twyll a gordaliadau gwerth £7.1 miliwn.
27. Roedd 97% o'r canlyniadau gwerth £7.1m a nodwyd yn deillio o baru data mewn awdurdodau lleol, a hynny'n gysylltiedig â'r dreth gyngor, budd-dal tai, bathodynau glas, rhestrau aros tai, a phensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys astudiaeth achos ar Gyngor Sir Ynys Môn, mewn perthynas â'n gwaith wrth ymchwilio i ddata bathodynau glas (bathodynau anabled) a barwyd.
28. Mae hyn yn amlygu gwerth cymryd rhan yn yr ymarfer a buddsoddi adnoddau i asesu ac adolygu'r parau data.

⁹ [Number of theft by an employee offences in England and Wales from 2002/03 to 2023/24](#), Statista, cyrchwyd 27/01/2025

¹⁰ [O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol - yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru](#), Archwilio Cymru, Chwefror 2024

¹¹ Mae NAFN yn sefydliad sector cyhoeddus a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Fetropolitanaid Tameside. Mae aelodaeth yn agored i unrhyw sefydliad sydd â chyfrifoldeb am reoli arian cyhoeddus a/neu asedau. Ar hyn o bryd, mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau.

¹² [Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23](#), Archwilio Cymru, Hydref 2024

Trefniadau atal twyll Cymru gyfan

29. Nododd [adolygiad](#)¹³ o drefniadau atal twyll ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, fod yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau atal twyll yn amrywio'n sylweddol o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. O fewn llywodraeth leol yng Nghymru, roedd y trefniadau ar gyfer darparu adnoddau atal twyll yn amrywio'n fawr o gyngor i gyngor, ac nid oes tîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau atal twyll mewn llywodraeth leol, na strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi.

Trefniadau Rhanbarthol

30. Gan nad os grŵp neu rwydwaith proffesiynol sy'n hyrwyddo atal twyll mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ffurfiwyd is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru ym mis Mai 2021 i lenwi'r bwlch a rhannu a chymell arfer dda mewn perthynas ag atal twyll. Mae'n parhau i gyfarfod tair gwaith y flwyddyn.

Trefniadau yn y Cyngor

31. Mae Côt CIPFA yn sefydlu y bydd y gallu i gyflawni gweithgareddau atal twyll yn ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Yn dilyn trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol bellach ac, yn lle hynny, neilltuwyd y rôl atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.
32. O fewn y tîm, mae'r Uwch Archwilydd yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig cymwys, ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn Arbenigwr Atal Twyll Achrededig cymwys. Byddwn yn defnyddio eu sgiliau i hyrwyddo gweithgarwch atal twyll o fewn y Cyngor.

Amcanion strategol

33. Wrth ystyried ein hamcanion, fe wnaethom ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (2014) ([Cod CIPFA](#)), sy'n nodi'r arfer orau ar gyfer gwaith atal twyll mewn llywodraeth leol, yn seiliedig ar bum egwyddor.
34. Yn ogystal, gan nad oes strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, na fframwaith polisi, defnyddiom '[Fighting Fraud and Corruption Locally: A Strategy for the 2020s](#)' (FFCL), fel sylfaen i'n ffocws strategol. Dyma'r strategaeth atal twyll a llygredd gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr ac mae'n gosod patrwm ar gyfer ymateb yn fwy cadarn i dwyll a llygredd yn erbyn awdurdodau lleol.
35. Yn yr un modd â Chod CIPFA, mae'r strategaeth FFCL yn canolbwyntio ar bum piler o weithgarwch, neu amcanion strategol, ac mae'n ein cynorthwyo i nodi ym mhle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion yn y maes atal twyll.
36. Defnyddiwyd yr amcanion strategol hyn i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer gweithgarwch atal twyll, ac mae manylion wedi'u cynnwys yn [Atodiad 2](#). Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn gwybodaeth am gynnydd o ran cyflawni'r gweithgareddau sydd yn y cynllun, yn yr Adroddiad Blynnyddol Atal Twyll, Llwgwrwobrwy a Llygredd.

¹³ [Gwellla Ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru](#), Archwilio Cymru, Gorffennaf 2020

Llywodraethu
Sicrhau trefniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.
Y disgwyliadau Sylfaen y Strategaeth yw bod 'y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' yn cefnogi'r gweithgareddau trwy sicrhau fod trefniadau cadarn ar waith, a chefnogaeth gan y weithrediaeth, i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae trechu twyll yn fater i bawb, ac mae angen trefniadau mewnol cadarn ar y Cyngor, sy'n cael eu cyfathrebu ar draws y Cyngor, i arddangos y diwylliant a'r ymrwymiad i atal twyll. Mae egwyddor gyntaf Cod CIPFA yn argymhell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r drydedd egwyddor yn argymhell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi sut mae'n rheoli risgiau a diffinio cyfrifoldebau am weithredu. Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud Mae fframwaith o bolisiâu'n bodoli, fel sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisiâu yn monitro a yw staff yn deall ac yn derbyn rhai o'r polisiâu. Bydd rhaglen yn cael ei darparu fel rhan o'r Strategaeth Atal Twyll ar gyfer 2025-28, er mwyn diweddarau polisiâu, codi ymwybyddiaeth am atal twyll a chyflwyno pecyn E-ddysgu. Mae gan y Cyngor strategaeth dair blynedd sydd wedi'i diffinio'n glir a'i chymeradwyo ar y lefel uchaf ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y risg o dwyll a llygredd o ddifri.

Cydnabod
Asesu a deall risgiau twyll. Ymrwymo'r gefnogaeth gywir a thaclo twyll a llygredd. Dangos bod ganddo ymateb atal twyll cadarn. Cyfathrebu'r risgiau i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am Lywodraethiant.
Y disgwyliadau I greu ymateb atal twyll, mae'n rhaid i'r Cyngor gydnabod a deall risgiau twyll ac yna dangos hynny trwy ymrwymo'r gefnogaeth gywir ac adnoddau priodol er mwyn taclo twyll. Mae ail egwyddor Cod CIPFA yn nodi bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall perygl risgiau penodol, newid ym mhatrymau bygythiadau twyll a llygredd a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae ystyried risgiau twyll a llygredd fel risgiau busnes yn cael ei gefnogi gan y Cod, a dylid eu rheoli fel rhan o broses rheoli risgiau'r sefydliad. Mae'r bedwaredd egwyddor yn argymhell bod sefydliadau'n rhoi polisiâu a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd. Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud Mae'r Tîm Arweinyddiaeth (TA) wedi cydnabod bygythiadau twyll a llygredd a'r niwed y gallant eu gwneud i'r Cyngor, ei nodau a'i amcanion, yn ogystal â'i ddefnyddwyr gwasanaeth, trwy ei gwneud yn orfodol i bob gwasanaeth gynnwys twyll yn ei gofrestr risgiau. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu trwy sefydlu Gweithgor Atal Twyll Cyngor cyfan. Ei dasg gyntaf fydd datblygu asesiad risg twyll ar gyfer y Cyngor cyfan. Yn yr un modd â phob gwasanaeth o fewn y Cyngor, ychydig iawn o gapasiti ac adnoddau a fu ar gael o fewn y Cyngor ar gyfer trefniadau atal twyll. Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn ei alluogi i herio gweithgareddau a deall gweithgareddau atal twyll y Cyngor.

Atal
Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg. Gwella rheolaethau a phrosesau'n ymwneud â thwyll. Datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol. Cyfathrebu ei weithgareddau a'i lwyddiannau.
Y disgwyliadau Y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ymladd twyll yw drwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Gall y Cyngor atal a chanfod trwy wella rheolaethau a phrosesau yn gysylltiedig â thwyll a defnyddio gwybodaeth a thechnoleg yn well, ynghyd â datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol. Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud Ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, fe wnaethom ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi atal twyll yn 2023-24, gan dargedu aelodau etholedig a lleyg a rheolwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol a chaffael. Byddwn yn ailadrodd yr hyfforddiant hwn yn rheolaidd, a bydd yn cael ei gefnogi gan becyn e-ddysgu fydd yn cael ei gyflwyno yn 2025. Byddwn yn cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth rheolaidd o fewn y Cyngor ac yn dosbarthu unrhyw rybuddion a dderbynnir gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol i swyddogion perthnasol o fewn y sefydliad. Pan fydd twyll yn cael ei nodi a'i daclo'n llwyddiannus, rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o frig y sefydliad na fydd twyll yn cael ei oddef. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo pwysigrwydd atal twyll i'r Cyngor a bydd yn rhoi hyder i staff a'r cyhoedd nad yw twyll yn cael ei oddef.

Erlyn
Blaenoriaethu adennill colledion oherwydd twyll a defnyddio sancsiynau sifil. Datblygu'r gallu a'r capasiti i gosbi troseddwyd. Cydwethio ar draws ffiniau daearyddol a ffiniau sectorau. Dysgu gwersi a chau'r bylchau.
Y disgwyliadau Er mai prif nod y Cyngor yw atal twyll a llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf, mae'n hanfodol fod ymateb cadarn ar gael o ran gorfodaeth er mwyn erlyn twyllwyr a rhwystro eraill. Mae pumed egwyddor y Cod yn argymhell bod sefydliadau'n rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd a'u bod yn cymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio twyll. Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint a gweithgareddau sefydliad, mae angen iddo gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu. Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r gosb gryfaf bosib ar bob achlysur yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r Cyngor. Os bydd gweithred droseddol yn cael ei phrofi, yna bydd Deddf Enillion Troseddau 2002 yn cael ei defnyddio, lle bo hynny'n briodol, i adennill yr arian. Gallai dulliau adennill eraill gynnwys, ymysg pethau eraill, achosion sifil; gorchmynion elw anghyfreithlon a gorchmynion iawndal. Byddwn yn parhau i fynychu cyfarfodydd Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru. Byddwn yn parhau i gydlynu data y mae angen i'r Cyngor ei ddarparu i'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer ei ymarfer paru data bob dwy

flynedd, a byddwn yn archwilio parau data risg uchel a nodwyd fel rhan o ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol.

Gwarchod ei hun a'i breswylwyr

Sicrhau trefniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

Cydnabod y niwed y gall twyll ei achosi yn y gymuned.

Y disgwyliadau

Mae'r thema hon yn ymestyn ar draws pileri'r strategaeth hon ac mae'n ymwneud ag amddiffyn y Cyngor rhag trosedd ddifrifol a chyfundrefnol, diogelu unigolion rhag dioddef troseddau a diogelu rhag y niwed y gall twyll ei wneud i'r gymuned ehangach. Mae'n ymwneud hefyd â diogelu cyllid cyhoeddus, diogelu'r Cyngor rhag troseddau seibr a diogelu ei hun rhag twyll yn y dyfodol.

Beth ydym ni'n ei wneud / Beth fyddwn ni'n ei wneud

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw twyll yn drosedd heb ddioddefwyr ac mae'n ceisio gwarchod pobl fregus rhag y niwed y gall twyll ei achosi yn y gymuned.

Mae dyletswydd arnom i amddiffyn preswylwyr yn ein cymunedau rhag twyll a dylem weithio ar y cyd â swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor, ac mewn asiantaethau partner, i atal twyll a diogelu pobl fregus.


Casgliad

37. Mae rhyw lefel o dwyll yn y sector cyhoeddus yn debygol o ddigwydd, hyd yn oed yn ystod cyfnodau arferol. O wybod bod holl elfennau'r triongl twyll delfrydol sy'n caniatáu i dwyll ffynnu (cymhelliant, cyfle a rhesymoli) wedi cynyddu, rhagwelir y bydd twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau, ac nid oes arwydd ei fod yn arafu.
38. Nid yw'r Cyngor yn ddiogel rhag achosion o ddwyn yn y gweithle ac mae'n gallu digwydd ar bob lefel ac am flynyddoedd heb gael ei ganfod. Oni bai bod mesurau amddiffyn addas ar waith gennym, ni fydd gan y Cyngor lawer o obaith adennill arian neu nwyddau sy'n cael eu dwyn, a gallai wynebu costau eraill, megis dirwyon gan reoleiddwyr.
39. Mae rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn rhan hanfodol o unrhyw gyngor modern, effeithiol sy'n mynd ati i reoli ei adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gall y Cyngor leihau'r risg bod gweithwyr yn dwyn ganddo trwy roi rheolaethau cadarn ar waith ar gyfer gwneud taliadau, cynnal archwiliadau rheolaidd a sefydlu diwylliant gwaith cadarnhaol.
40. Bydd cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo 2025-28 a'r Cynllun Cyflawni yn sicrhau fod y Cyngor yn ymladd twyll yn llwyddiannus. Un o'r camau allweddol nesaf fydd datblygu asesiad o'r risg o dwyll ar gyfer y Cyngor cyfan, fydd yn helpu i wella gallu'r Cyngor i nodi achosion posib o dwyll, yn ogystal ag unrhyw wendidau yn ei drefniadau atal twyll neu feysydd lle mae mwy o risg o dwyll. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor dargedu ei adnoddau prin yn well, a'i weithgareddau'n briodol, yn enwedig os, neu pryd, y bydd risgiau newydd yn gysylltiedig â thwyll yn dod i'r amlwg.
41. Yn olaf, mae ymddygiadau a gweithredoedd unigolion yn hanfodol bwysig wrth daclo'r risg o dwyll. Mae'n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ei gilydd, fynd ati i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risg o dwyll a llygredd a sefydlu llinell glir rhwng yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

Atodiad 1 – Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd?

Twyll

Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:



Mae'n golygu bod y tramgwyddwr ar ei ennill (yn ariannol fel arfer), tra bod rhywun arall (gan gynnwys sefydliad) ar ei golled, neu mae'n golygu fod rhywun arall yn wynebu colled.

Er enghraifft, gyda thwyll trwy gynrychiolaeth ffug, mae'r tramgwyddwr yn cyflwyno hawliadau ffug am oramser yn fwriadol, neu'n cyflwyno cymwysterau ffug yn ystod y broses recriwtio.

Mae enghraifft o dwyll trwy fethu â datgelu gwybodaeth yn cynnwys peidio â datgelu gwybodaeth i farnwr mewn achos cyfreithiol, gan olygu fod y sefydliad yn colli'r achos ac yn gorfod talu iawndal.

Mae twyll trwy gam-drin grym yn cynnwys enghreifftiau lle mae aelod o staff yn cam-drin ei safle i ddyfarnu contractau i ffrindiau a theulu, neu'n trosglwyddo taliadau credydwy'r i'w gyfrif personol ei hun.

Llwgrwobrwyo

Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn nodi'r pedair ffordd o gyflawni'r drosedd:

- Llwgrwobrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
- Derbyn llwgrwobrwyon
- Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor
- Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgrwobrwyfaeth (trosedd gorfforaethol)

Mae llwgrwobrwyo yn gysyniad eang ac mae'n cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol, neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys lletygarwch a rhoddion.

Enghraifft o hyn yw rhywun yn rhoi mantais i un o weithwyr y Cyngor am beidio â gwneud ei waith yn gywir. Mae cynnig neu addo llwgrwobr yn drosedd, nid oes rhaid rhoi taliad neu wobr; mae derbyn llwgrwobr yn drosedd, yn ogystal â chytuno i dderbyn llwgrwobr, neu ofyn am un. Gallai'r fantais gynnwys arian, tocynnau cyngerdd neu unrhyw fath arall o rodd neu letygarwch. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhywun yn cynnig arian yn gyfnewid am:

- Beidio â gwirio bod cais am fudd-daliadau yn gywir
- Darparu gwybodaeth gyfrinachol yn gysylltiedig â phroses dendro
- Dylanwadu ar un o ganlyniadau'r Cyngor e.e. llobio ar ran cwmnïau preifat

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i atal llwgrwobrwyo a gallai wynebu dirwy am beidio â gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd ar staff i roi gwybod am unrhyw amheuan sydd ganddynt ynghylch camymddygiad ariannol neu broffesiynol. Y gosb am fod yn gysylltiedig â llwgrwobrwyo yw hyd at 10 mlynedd yn y carchar a / neu ddirwy ddiderfyn.

Llygredd

Er nad oes diffiniad cyfreithiol o beth yw llygredd, mae llygredd yn aml yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i lwgrwobrwyo ac mae Llywodraeth Ei Fawrhydi yn defnyddio'r diffiniad a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref.¹⁴

Yn aml mae llygredd yn cael ei ystyried fel rhagflaenydd i lwgrwobrwyo ac mae'n cael ei ddiffinio fel:

“...cam-drin pŵer a roddwyd i unigolyn er budd personol sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol.”

Mae llygredd, neu rywun sy'n 'llwgr', yn ymwneud ag ymddygiad ac mae'n golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgrwobrwyo), neu gamddefnyddio statws i sicrhau mantais anghyfreithlon.

Defnyddir y term i ddisgrifio rhywun sy'n cymryd rhan mewn twyll, lladrad, gwyngalchu arian ac arferion troseddol neu niweidiol posib eraill lle byddant yn ymddwyn yn groes i ddiddordebau'r Cyngor er mwyn sicrhau mantais iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

Er enghraifft:

- Camddehongli gwybodaeth am berfformiad yn fwriadol
- Derbyn arian neu rodd yn gyfnewid am ddyfarnu contract
- Dwyn asedau (gliniaduron, offer)
- Rhoi gwybodaeth sensitif i drydydd parti er mwyn rhoi mantais iddynt mewn proses dendro
- Peidio â datgelu gwrthdaro buddiannau er mwyn sicrhau mantais ariannol
- Defnyddio eu dylanwad i sicrhau swydd i ffrindiau / teulu.

¹⁴ [Strategaeth Atal Twyll Weithredol y Llywodraeth 2024-2027](#)

Atodiad 2 – Cynllun Cyflawni Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2025-2028

Mater / Risg / Cyfle	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Statws Presennol
Cynnydd o ran cyflawni'r gweithredoedd sy'n weddill yn y Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd 2025-2028				
Caffael oedd un o'r meysydd lle'r oedd y canfyddiad o dwyll ar eich uchaf yn 2019-20	Byddwn yn gweithio gyda'r Rheolwr Caffael i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' a gynhaliwyd ym mis Awst 2022.	Pennaeth Archwilio a Risg	Mawrth 2023	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Ni chwblhawyd un o'r chwe 'Mater/Risg' yn y Cynllun Gweithredu 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael'. 1. Nid yw'r Gweithgor Atal Twyll wedi'i sefydlu eto.
Mae prosesau prynu i dalu yn agored i dwyll oherwydd bod niferoedd mawr o drafodion yn cael eu prosesu, yr amrywiaeth o gyflenwyr dan sylw, heriau staffio a thrafodion o werth uchel.	Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwy'r i nodi ac atal gwallau a thwyll, gan gynnwys trwy ddefnyddio technegau dadansoddi data (monitro parhaus) a chyhoeddi rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhybuddion twyll eraill.	Pennaeth Archwilio a Risg gyda'r Rheolwr Tîm Taliadau	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Mae monitro parhaus yn digwydd yn flynyddol. Cyhoeddwyd adroddiad ym Medi 2024 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgwrwbrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.	Bydd cael fframwaith atal twyll corfforaethol, sydd yn darparu ystod lawn o elfennau lefel uchel, yn cyfrannu tuag at sicrhau fod gan y Cyngor strategaeth atal twyll effeithiol. Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau fydd yn cyfuno i weithredu fel rhwystr effeithiol yn erbyn gweithgarwch twyllodrus ac yn darparu ffordd o adrodd am dwyll a llygredd, neu eu canfod. Byddwn, felly, yn cynnal: - rhaglen ddiweddarau polisïau gynhwysfawr - gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am atal twyll - pecyn e-ddysgu	Pennaeth Archwilio a Risg	Rhagfyr 2023	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. - Bydd y polisïau wedi eu diweddarau erbyn diwedd 2024-25. - Darparwyd rhaglen hyfforddi, dros gyfnod o wythnos, ym mis Rhagfyr 2023 a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024 ar gyfer unrhyw un oedd wedi methu'r sesiynau gwreiddiol. - Datblygwyd pecyn e-ddysgu a bydd yn cael ei gyflwyno cyn diwedd 2024-25.

Mater / Risg / Cyfle	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Statws Presennol
Nodi, asesu a deall y risgiau twyll yw conglfaen trefniadau atal twyll effeithiol	Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd waith allweddol fydd yn: - ceisio nodi'r risgiau twyll o fewn y Cyngor - asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a - neilltuo digon o adnoddau i ymchwilio a chanfod twyll pan dderbynnir adroddiadau am dwyll Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu i helpu i nodi'r risg o dwyll o fewn y Cyngor. Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad o'r risg o dwyll er mwyn nodi twyll posib y gallai gwasanaethau fod yn agored iddo. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib unrhyw dwyll a pha mor debygol ydyw o ddigwydd. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n caniatáu i'r Cyngor ddeall yn well beth yw'r bygythiadau o dwyll sy'n ei wynebu. Bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio hefyd fel adnodd i gynorthwyo i ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol.	Pennaeth Archwilio a Risg	Rhagfyr 2024	Mae'n trosglwyddo i Strategaeth 2025-28. Nid yw'r gwaith hwn wedi cychwyn, oherwydd materion capasiti o fewn y tîm. Mae defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo i ddod â gwasanaethau ynghyd i gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risg o dwyll yn allweddol o ran ymateb i'r risgiau, gan ddefnyddio staff sydd â sgiliau addas, defnyddio gwybodaeth genedlaethol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r sefydliad. Gellir defnyddio'r asesiadau risg twyll hyn fel adnodd byw a'u hymgorffori yn y fframwaith rheoli risgiau cyffredinol er mwyn sicrhau bod y risgiau a nodir yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn cael eu huwch-gyfeirio'n ôl yr angen. Mae sefydlu Gweithgor Atal Twyll yn allweddol i'r weithred hon. Bydd cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth i geisio cefnogaeth i sefydlu'r grŵp hwn. Bydd y weithred hon yn cael ei dwyn ymlaen a'i blaenoriaethu yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28.
Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnolegau trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol	Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymarferion a gynhelir yn flynyddol a bob dwy flynedd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan o'r sector cyhoeddus a phreifat, er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ynparu data electronig oddi fewn a rhwng cyrff sector cyhoeddus a phreifat ac mae'r cyrff hyn yn cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac achub,	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Cyflwynwyd Adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhagfyr 2023 a Gorffennaf 2024. Rhyddhawyd yr amserlen ar gyfer ymarfer 2024-2026 ym mis Hydref 2024 a llwythwyd y data yn ddiweddarach y mis hwnnw. Rhyddhawyd y parau data ym mis Rhagfyr

Mater / Risg / Cyfle	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Statws Presennol
	yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector preifat. Mae ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag y risg o dwyll.			2024 ac maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2025.
Hyrwyddo diwylliant atal twyll	Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll o fewn y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned.	Pennaeth Archwilio a Risg gyda'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Darparwyd rhaglen hyfforddiant fewnol i godi ymwybyddiaeth o dwyll, ac mae rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol yn parhau i gael eu cylchredeg. Nid yw'r rhaglen o rannu negeseuon mwy cyffredinol wedi cychwyn eto.
Codi ymwybyddiaeth	Y ffordd orau o atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyron, cynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Darparwyd rhaglen hyfforddiant dros gyfnod o wythnos ym mis Rhagfyr 2023, a chynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ym mis Mawrth 2024 ar gyfer unrhyw un oedd wedi methu'r sesiynau gwreiddiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r darparwr er mwyn darparu rhagor o sesiynau yn 2025. Bydd y modiwl e-ddysgu'n cael ei gyflwyno yn ystod 2025.
Adrodd am Dwyll	Mae angen rhoi gwybod i'r tîm Archwilio Mewnol am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thwyll. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau a gwersi i'w dysgu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth.	Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn gwybodaeth trwy'r Adroddiad Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd Blyneddol a'r Diweddariadau Archwilio Mewnol a gyflwynir i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Cydweithio, dysgu gwersi a chau'r bwlch	Byddwn yn parhau i gydweithio o fewn rhanbarth gogledd Cymru i gymell gwelliannau mewn gweithgarwch atal twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â 15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020.	Pennaeth Archwilio a Risg	Gwaith ar y gweill	Gwaith ar y gweill ac wedi'i gynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2025-28. Mae Gweithgor Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu templed i fynd i'r afael â

Mater / Risg / Cyfle	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Statws Presennol
	Byddwn hefyd yn parhau i weithio tu hwnt i ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio gydag Is-Grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, er mwyn dysgu gwersi, rhannu arfer dda a chau'r bwllch.			15 argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Grŵp yn parhau i gyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth, trefnu hyfforddiant a thrafod risgiau sy'n dod i'r amlwg.
Amddiffyn y Cyngor a'i drigolion	Er mwyn sicrhau fod ein strategaeth atal twyll yn cyd-fynd â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i warchod yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos â thimau gofal i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi'r arfer orau ar gyfer atal twyll ym maes gofal cymdeithasol.	Pennaeth Archwilio a Risg gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Gwaith ar y gweill	Wedi'i drosglwyddo i Strategaeth 2025-28. Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto oherwydd materion capasiti o fewn y tîm.
Gweithredoedd newydd o'r Cynllun Gweithredu Atal Twyll, Llwgrwobrwy a Llygredd				
Hyfforddiant Proffesiynol	Y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang (GIAS) newydd a'r Nodyn cymhwyso: Bydd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a ddaw i rym o 1 Ebrill 2025, yn sylfaen i archwilio mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU. Un o ofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yw y dylai archwilyd mewnol ddatblygu cymwyseddau'n gysylltiedig â risgiau hollbresennol, megis twyll. Bydd y tîm yn parhau i ddilyn rhaglen o hyfforddiant proffesiynol ym maes twyll.	Pennaeth Archwilio a Risg	Mawrth 2028	
Defnyddio dadansoddeg data fel ymarferion datgelu ar feysydd o wendid	Defnyddir dulliau cwestiynu data fel rhan o ymarfer monitro parhaus ar y system gyflogau i nodi data sydd ar goll, megis rhifau YG; lefelau uchel o dâl neu oramser yn cael eu hawlio; enwau'n cael eu dyblygu; rhifau cyfrifon banc yn cael eu dyblygu, cysylltiadau â sefydliadau eraill.	Pennaeth Archwilio a Risg	Mawrth 2026	
Y drosedd o fethu ag atal twyll	Bydd sefydliad yn atebol yn droseddol, o dan y ddeddfwriaeth, os caiff trosedd dwyll benodedig ei chyflawni gan weithiwr, asiant neu 'berson cysylltiedig' arall, er budd y sefydliad, ac os nad oedd trefniadau atal twyll 'rhesymol' ar waith gan y sefydliad. Cynhelir hunanwerthusiad.	Pennaeth Archwilio a Risg	Mawrth 2026	

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	
Dyddiad:	11 CHWEFROR 2025	
Pwnc:	ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2024/25	
Deilydd Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A TAI	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151	
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI	
Ffôn:	01248 752133	
E-bost:	claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:-		
1. Ystyried a nodi'r adroddiad, y gweithgareddau trysorlys a'r dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Medi 2024.		
2. Cyflwyno unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Adroddiad craffu ac er gwybodaeth yw hwn ac nid yw ystyried opsiynau'n berthnasol.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa rheoli'r trysorlys lle mae penderfyniadau ynglŷn â benthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn a fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	D/B Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu ar yr adroddiad hwn ar 11 Chwefror 2025.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Arall	Dim

E – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol o ran hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion yr Ynys yn yr hir dymor gan fod cynlluniau benthycu'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau fod asedau ar gael heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid hefyd i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canol yn creu anfantais i genedlaethau'r dyfodol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Mae'n rhaid i'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r gweithgareddau fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthycu, megis o dan y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill, gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:	Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Roedd / mae ysgolion newydd / estyniadau o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorir â dinasyddion Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf flynyddol, ac mae cyfran o'r rhaglen honno'n ddibynol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Mae ymgynghori mwy manwl yn digwydd mewn perthynas â rhai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion.
5	Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthycu yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Gwaith monitro statudol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol.
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthycu'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu a thyfu'r iaith Gymraeg, megis ysgolion cyfrwng Gymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
F – Atodiadau:		
Atodiad A – Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2 2024/25 Atodiad B – Dadansoddiad o Fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) Cyngor Sir Ynys Môn fesul blwyddyn Aeddfedu Atodiad C – Dadansoddiad Economaidd – MUFG Corporate Markets Treasury Limited Atodiad CH – Dadansoddiad BBGC – MUFG Corporate Markets Treasury Limited		
FF – Papurau cefndir:		
Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 – Cyngor Sir Ynys Môn 7 Mawrth 2024		

1. PWRPAS RHEOLI'R TRYSORLYS

- 1.1 Mae'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2024/25 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canol. Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i gynorthwyo i nodi beth yw blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.
- 1.2 Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys, yn unol â'r DSRhT, yn allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28 a'r Strategaeth Gyfalaf 2024/25, yn ogystal â sawl cynllun strategol a gweithredol cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar yr asedau tymor hir, megis swyddfeydd y Cyngor, ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol, tai Cyngor, isadeiledd, meddalwedd a chyfarpar TGCh, cerbydau ac offer sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor, ac i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu hadnewyddu, eu hystyn neu eu hamnewid yn ôl yr angen a bod asedau newydd, megis ysgolion newydd, yn cael eu hadeiladu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- 1.3 Mae cyllid cyfalaf yn brin, felly mae'r Cyngor yn cyllido rhai prosiectau cyfalaf trwy fenthycia â chefnogaeth, lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid ar gyfer hynny yn y grant cynnal refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru (LIC), neu fenthycia digefnogaeth, sy'n cael ei gyllido'n llawn gan y Cyngor. Fel arfer, bydd benthycia'n cael ei wneud trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith rheoli'r trysorlys, a dyna sydd i gyfrif am y cyswllt pwysig â'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith.
- 1.4 Mae'r Côt Ymarfer Rheoli'r Trysorlys 2021, sydd yn ganllaw statudol, yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

2. GWYBODAETH CEFNDIROL

- 2.1 Mae rheoli'r trysorlys yn cynnwys tasgau sy'n sicrhau fod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd, a buddsoddi arian dros ben, yn ychwanegol i'r hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Mae'n rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau yn y DU sydd â statws credyd uchel, fel y diffinnir yn y DSRhT. Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei arian, yn unol â'r Côt, ac mae'n sicrhau fod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel y gall y Cyngor dalu cyflenwyr, staff a budd-daliadau ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw ar fuddsoddiadau, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi i dderbyn y gyfradd log uchaf posib o fewn y grŵp o sefydliadau sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â'r meini prawf yn y DSRhT 2024/25. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw lefel benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthycia yn fforddiadwy.
- 2.2 Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthycia, sef, yn ei hanfod, cynllunio llif arian yn y tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Mae cyswllt agos rhwng Strategaeth Gyfalaf 2024/25, Rhaglen Gyfalaf 2024/25 ac adroddiadau monitro chwarterol y gyllideb gyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor. Yn unol â deddfwriaeth, gall y Cyngor ond benthycia ar gyfer gwariant cyfalaf, nid costau refeniw, ac eithrio pan fydd LIC yn darparu cyfarwydddeb cyfalafu ar gyfer gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau tâl cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT i gyd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023/28. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r DSRhT.

3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

3.1 Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, MUFG Corporate Markets Treasury Limited (MUFG), yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos, megis adroddiadau economaidd ac adroddiadau credyd, er mwyn cynorthwyo swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae MUFG wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer yr ail chwarter, ac mae copi ohono yn Atodiad C. Mae MUFG wedi darparu'r rhagolwg o gyfraddau llog canlynol yn ddiweddar hefyd:-

Tabl 1
Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr, chwyddiant a Chyfraddau BBGC, rhwng Mawrth 2025 a Rhagfyr 2026

	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr
	2025	2025	2025	2025	2026	2026	2026	2026
Cyfradd Banc (%)	4.50%	4.25%	4.00%	4.00%	3.75%	3.75%	3.75%	3.50%
Chwyddiant (OBR Hydref 2024)	2.60%	2.60%	2.60%	2.60%	2.30%	2.30%	2.30%	2.30%
Cyfradd blwydd-dal 5 mlynedd BBGC (%)	4.90%	4.80%	4.60%	4.50%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%
Cyfradd blwydd-dal 10 mlynedd BBGC (%)	5.10%	5.00%	4.80%	4.80%	4.70%	4.50%	4.50%	4.40%
Cyfradd blwydd-dal 25 mlynedd BBGC (%)	5.50%	5.40%	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%
Cyfradd blwydd-dal 50 mlynedd BBGC (%)	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%	4.70%	4.60%

3.2 Targed chwyddiant Banc Lloegr (BLI), a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd chwarter cyntaf 2023/24. Yn 2024/25, mae chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol i darged BLI o 2%, a, chyflawnwyd hynny ym mis Mehefin 2024. Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter, ac roedd yr MPD yn 1.7% ar 30 Medi 2024. Er bod rhagolygon chwyddiant yr MPD ar gyfer 2025 a 2026 yn uwch na'r targed o 2% (gweler rhagolygon Chwyddiant OBR, Hydref 2024 yn Nhabl 1 uchod), mae'r cyfraddau hyn yn well o lawer nac yn 2022 a 2023.

3.3 Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng i'w lefel isaf, sef 0.1%, er mwyn cefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd BLI y gyfradd i 0.25%, ac yna gwelwyd cynnydd o rhwng 0.25% a 0.75% (sef y cynnydd uchaf) yn y gyfradd sylfaen ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Ym mis Awst 2023, cododd yr MPC y gyfradd sylfaen i 5.25%, ac ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% tan 1 Awst 2024 pan gafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng am y tro cyntaf ers 2020, i 5%, ac roedd y gyfradd yr un fath ar 30 Medi 2024. Ers hynny, mae'r gyfradd wedi gostwng i 4.75%, ac mae'r marchnadoedd yn disgwyl 2 neu 3 gostyngiadau cynyddradol pellach yn y gyfradd sylfaen yn ystod 2025.

3.4 Mae'r Cyngor yn elwa ar gyfradd sylfaen uwch ar gyfer buddsoddi arian parod sydd dros ben, ac mae hynny wedi cynorthwyo'r Cyngor i ennill dros £1m mewn taliadau llog. Er hynny, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i BLI ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Mae benthyca allanol yn cael ei ohirio, felly, hyd nes na fydd y balansau arian parod yn ddigonol i barhau i ddefnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

4. SEFYLLFA FENTHYCA'R CYNGOR 30 MEDI 2024

- 4.1 Benthyciadau BBGC – Ni chymerodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau newydd gan y BBGC rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Medi 2024. Yr angen i osgoi benthycia tra bod cyfraddau llog yn codi sydd i gyfrif am hyn. Yn hytrach, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor MUFG Corporate Markets ar fenthycia yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y gost yn gysylltiedig â hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi, ond, serch hynny, mae costau benthycia'n uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau. I sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arian i dalu ei gredydwy'r a chyflogau, mae'n rhaid cadw digon o arian parod mewn cyfrifon galw ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn parhau i wneud arbedion rhesymol ar log taladwy wrth ddefnyddio balansau arian parod.
- 4.2 Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr lawn o fenthyciadau BBGC sy'n parhau i fod yn ddyledus. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio o 1969, ac mae cyfraddau llog y mwyafrif o'r benthyciadau'n uwch na chyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y gyfradd log. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y flwyddyn ariannol pryd mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad.

Tabl 2
Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus - 30 Medi 2024

Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2024			
	BBGC Aeddfedu	BBGC EIP	Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2024
	£'000	£'000	£'000
Benthyciad Dyledus	117,546	153	117,699
Canran y benthyciadau aeddfedu blwydd-dal	99.87%	0.13%	100.00%
Hyd cyfartalog (blynnyddoedd)	31.14	3.66	31.10
Cyfradd gyfartalog (%)	4.47%	9.42%	4.48%

- 4.3 Benthyciadau Salix – Sefydliad LIC yw Salix ac mae'n darparu benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac er mwyn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd gan y Cyngor £4.570m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2024. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn ddibynol ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn yn cael eu gwneud fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden, yn ogystal â sawl prosiect cynaliadwy arall. Mae Tabl 3 yn dangos y benthyciadau Salix sy'n ddyledus ar 30 Medi a'r dyddiad ad-dalu ar gyfer pob benthyciad. Gellir gweld yr ad-daliadau ar gyfer y benthyciadau Salix yn Atodiad C.

Tabl 3
Benthyciadau Salix sy'n Ddyledus ar 30 Medi 2024

Benthyciadau Salix ar 30 Medi 2024						
	Benthyciad Salix 2	Benthyciad Salix 3	Benthyciad Salix 4	Benthyciad Salix 5	Benthyciad Salix 6	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans Dyledus	68	287	132	1,653	2,431	4,571
Dyddiad Ad-dalu	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
Cyfradd Llog (%)	-	-	-	-	-	-

5. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

- 5.1 Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2024/25, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.

- 5.2** Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posibl ar ei fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg y mae'r Cyngor am ei gymryd.
- 5.3 Teilyngdod i gael Credyd –** Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus, a mesurau teilyngdod credyd eraill, i sicrhau mai dim ond gwrthbartïon priodol sy'n cael eu hystyried at ddibenion buddsoddi.
- 5.4 Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartïon Buddsoddi –** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni gofynion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.
- 5.5 Balans y Buddsoddiadau –** Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30 Medi 2024 oedd £39.451m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024 yn £924k, a disgwylir i gyfanswm y llog y gellir ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod fod yn £1.322m ar gyfer 2024/25. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.
- 5.6** Dechreuodd cyfraddau buddsoddi ostwng yn Awst 2024, yn dilyn gostwng y gyfradd sylfaenol o 5.25% i 5% ar 1 Awst 2024. Fodd bynnag, roedd buddsoddiadau tymor penodol yn ystod yr hanner blwyddyn hyd at 30 Medi 2024 wedi cael eu trefnu cyn y gostyngiad hwn. Mae gan gyfrif galw'r Cyngor gyda The Bank of Scotland gyfradd llog newidiol a ostyngodd o 5.14% i 4.88% yn Awst 2024. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau'n is, disgwylir i'r llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn ar gyfer 2024/25 fod yn uwch na'r gyllideb. Rhagwelir y bydd Cronfa'r Cyngor yn derbyn cyfanswm o £833k o log ar y buddsoddiadau, sydd £163k yn uwch na'r gyllideb o £670k, disgwylir £304k o log ar gyfer y CRT, £119k ar gyfer ysgolion a £66k ar gyfer trydydd bartïon lle y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar ran eraill, yn cynnwys yr Ymddiriedolaethau y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr iddynt.

Tabl 4
Buddsoddiadau a ddelir rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 30 Medi 2024 £	Prifswm Buddsoddi ar 30 Medi 2024 £	Amcangyfrif o'r llog a enillir i 30 Medi 2024 £	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiad au hyn £
Cyfrif Galw NatWest – amcangyfrif ar gyfer y cyfnod Nationwide Building Society	01/04/2024	31/03/2025	Newidiol	11,758,959	11,758,959	266,374	426,038
	08/01/2024	08/04/2024	5.11%	5,000,000	-	5,600	5,600
Santander Uk Plc	09/02/2024	09/05/2024	5.19%	5,000,000	-	27,727	27,727
National Westminster	11/03/2024	11/06/2024	5.23%	5,000,000	-	51,584	51,584
Cyfrif Galw Bank of Scotland - Lloyds	01/04/2024	31/03/2025	Newidiol	7,692,214	7,692,214	198,489	352,676
Goldmansachs International Bank	08/04/2024	08/10/2024	5.29%	5,000,000	5,000,000	127,540	133,337
Santander	09/05/2024	08/11/2024	5.07%	5,000,000	5,000,000	100,705	127,792
National Westminster Penodol	09/05/2024	09/08/2024	5.14%	5,000,000	5,000,000	65,482	65,482
National Westminster Penodol	11/06/2024	11/12/2024	5.23%	5,000,000	5,000,000	80,241	131,825
Cyfanswm					39,451,173	923,743	1,322,060

5.7 Terfynau Awdurdodedig – Gall swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdodedig o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024.

6. DANGOSYDD DARBODUS AR GYFER GWARIANT CYFALAF

6.1 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor

Mae Tabl 5 isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf yn chwarter 2:-

Tabl 5
Gwariant Cyfalaf

Gwariant Cyfalaf 2024/25	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant Rhagamcanol £'000	Rhagamcanwyd (Tan) / Gor Wariant Rhagamcanol £'000
Cronfa'r Cyngor	42,904	36,384	(6,520)
Tai - CRT	29,573	30,596	1,023
Cyfanswm	72,477	66,980	(5,497)

6.1.1 Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 yn chwarter 2 oedd £72.477m. Y gwariant rhagamcanol ar gyfer 2024/25 yw £66.980m. Rhagwelir tanwariant o £6.520m ar brosiectau'r Cyngor, fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26, ynghyd â'r cyllid. Rhagwelir gorwariant o £1.023m yn y CRT, a fydd yn cael ei gyllido gan y CRT.

6.2 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

6.2.1 Mae rhai newidiadau i'r modd y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Nhabl 6 isod, yn deillio o'r newidiadau i'r gyllideb gyfalaf a nodwyd yn 6.1.1.

6.2.2. Mae Tabl 6 isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategol y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwylidig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthycy'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau referiw ar gyfer ad-dalu dyledion (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI). Gallai ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau hefyd newid ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i liniaru pwysau cyllido cyfalaf. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gynigion diweddarach o gyllid grant allanol lle gofynnir i'r Cyngor ddisodli'r cyllid yn y flwyddyn, ond i sicrhau bod cyllid yn y flwyddyn nesaf i gyflawni amodau'r grant sy'n cael ei gynnig.

Tabl 6
Amcangyfrif o Gyllid Gwariant Cyfalaf

Cyllid Cyfalaf	2024/25 Cyllideb Flynyddol £'000	2024/25 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
Grantiau Cyfalaf	43,171	38,638
Derbyniadau Cyfalaf	1,032	931
Cronfeydd wrth Gefn	1,205	1,002
Cyfraniad Refeniw	15,381	15,017
Benthycy â Chefnogaeth	5,867	5,925
Benthycy Digefnogaeth	5,805	5,451
Benthyciad	16	16
Cyfanswm	72,477	66,980

6.3. Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

6.3.1 Mae Tabl 7 isod yn dangos y GCC, sef yr angen sylfaenol i fenthycha er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Disgwylir i'r GCC fod £15.534m yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol a ddarparwyd yn DSRhT 2024/25. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r CRT. Disgwylir newidiadau wrth i'r DSRhT gael ei baratoi cyn i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gael ei chwblhau. Gall prosiectau cyfalaf hefyd lithro am amryw o resymau neu deuir o hyd i gyllid arall i leihau'r swm benthycha sydd ei angen.

Tabl 7
Newid yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf 2024/25 ar 30 Medi 2024

Dangosydd Darbodus - CCG	2024/25 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000	2024/25 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
GCC – Cronfa'r Cyngor	116,485	115,695
GCC – CRT	55,506	40,762
Cyfanswm GCC	171,991	156,457
Symud Net yn GCC	-	(15,534)

6.3.2 Dadansoddiad o fenthycha

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r GCC diwygiedig a ragwelir ar gyfer 2024/25 yw £156.457m. Y gwahaniaeth rhwng y GCC, sef faint o wariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthycha, a'r benthycha allanol / gwirioneddol a wneir, yw'r benthycha mewnol. Dyma lle mae'r Cyngor wedi defnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn gohirio'r benthycha gwirioneddol cyhyd ag y bo modd, i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae hyn yn unol â DSRhT 2024/25, a dyma'r dull a argymhellir gan MUFG Corporate Markets Treasury Limited, ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys y Cyngor, oherwydd effaith yr economi ar gyfraddau llog a giltiau y mae cyfraddau llog BBGC yn seiliedig arnynt. Pan fydd balansau arian parod yn mynd yn rhy isel, bydd y benthychiad hwn yn cael ei allanoli trwy gymryd benthychiadau newydd gan y BBGC. Er mwyn lleihau'r taliadau cyllido cyfalaf, mae'n debygol y byddai benthychiadau tymor byrrach yn cael eu trefnu, gan fod disgwyl i chwyddiant ostwng yn y dyfodol ynghyd â chwyddiant.

Mae Tabl 8 isod yn dangos bod y balansau benthycha allanol a benthycha mewnol yn debygol o newid yn ystod y chwarter olaf, gyda benthycha BBGC o £2.751m yn ddisgwyliedig ar gyfer y CRT. Bydd hyn ar gyfradd is ar gyfer Cyfrifon Refeniw Tai.

Tabl 8
Proffil benthycha rhwng benthycha allanol a benthycha mewnol
(defnyddio balansau arian parod)

	Y Sefyllfa Bresennol ar 30 Medi 2024 £'000	Amcangyfrif o'r GCC Diwygiedig ar 31 Mawrth 2025 £'000
Benthycha allanol	122,270	125,021
Benthycha mewnol	34,187	31,436
Ymrwymadau tymor hir eraill	-	-
Sefyllfa diwedd blwyddyn	156,457	156,457

7. DANGOSYDDION DARBODUS

- 7.1** Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn nodi nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd yn erbyn pob dangosydd perthnasol i'w gweld yn Nhabl 9 isod:-

Tabl 9
Dangosyddion darbodus 2024/25 ar ddiwedd Chwarter 2

DANGOSYDDION DARBODUS			
Grŵp Dangosydd	Disgrifiad	SRhT 2024/25	Sefyllfa Amcangyfrifedig ar Ddiwedd Ch2
Fforddiadwyedd	Cymhareb Costau Cyllido a Ffrwd Refeniw Net – Cronfa Gyffredinol	3.12%	3.01%
	Cymhareb Costau Cyllido a Ffrwd Refeniw Net – Cyfrif Refeniw Tai	10.38%	6.04%
Gofyniad Cyllido Cyfalaf	Cronfa'r Cyngor a'r CRT	£171.991m	156,457m
TERFYNAU AWDURDODEDIG			
Darbodrwydd	Rhaid i ddyled gros fod yn is na'r GCC plws unrhyw GCC ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf	<198.521m	122.270m
Dyled Allanol	Terfyn Awdurdodedig	< £198.521m	£122.270m
	Ffin Weithredol	< £193.521m	£122.270m
Aeddfedrwydd Dyled		Llai na 12 mis	0.178m - 0.15%
		12 mis ac o fewn 24 mis	1.105m - 0.9%
		24 mis ac o fewn 5 ml	5.595m – 4.58%
		5 ml ac o fewn 10 m	6.722m - 5.50%
		10 ml a throsodd	108.674m - 88%
	Cyfanswm Benthycia		122.270m - 100%

- 7.2** Mae'r tabl uchod yn dangos bod y dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â fforddiawydd a lefel y GCC yn well na'r rhagolygon gwreiddiol a bod pob un o fewn y terfynau awdurdodedig. Mae'r gymhareb costau cyllido a llif refeniw net ar gyfer Cronfa'r Cyngor yn llai na'r hyn a gynigwyd yn DSRhT 2024/25, sef 3.00%, yn yr un modd mae'r costau cyllido cyfalaf ar gyfer y CRT hefyd yn is o lawer, sef 6.04%. Yn achos Gronfa'r Cyngor, mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi defnyddio benthycia mewnol cyhyd ag y bo modd i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae'r CRT wedi bod yn defnyddio incwm dros ben a chronfa wrth gefn y CRT i gyllido ei raglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae'r balansau hyn yn rhy isel erbyn hyn ac, yn fwy na thebyg, bydd rhaid i'r CRT gymryd benthyciad tymor byr yn fuan iawn oherwydd llwyddiant ei ddatblygiadau CRT, y tai a brynwyd a'r gwaith sydd angen ei wneud i gartrefi presennol i sicrhau eu bod yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC).
- 7.3** Oherwydd y lefelau llog presennol, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei falansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf, yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol, fel y trafodwyd uchod. Fodd bynnag, wrth i falensau arian parod leihau, bydd yn rhaid benthycia tua diwedd blwyddyn ariannol 2024/25 neu'n gynnar yn 2025/26. Mae'r wybodaeth ynglŷn â Dyledion Allanol yn Nhabl 9 uchod yn dangos bod rhain yn is o lawer na'r terfyn fforddiadwy, sydd yr un fath â'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol.

8. AILDREFNU DYLEDION

- 8.1** Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod presennol, gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi'n sylweddol. Cwblhawyd ymarfer, a oedd yn dangos y byddai newid benthyciadau presennol am fenthyciadau newydd yn denu disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch, byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau refeniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

9. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU TRYSORLYS A DARBODUS

- 9.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthycia fforddiadwy. Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25. Dywed y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.
- 9.2** Mae'r holl weithrediadau rheoli'r trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.

10. CASGLIAD

- 10.1** Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i adneuo balansau arian dros ben mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa o gyfradd llog ffafriol yn ystod y cyfnod gyda £924k mewn llog i'w dderbyn ar yr adneuo hyn. Rhagwelir y bydd y llog a amcangyfrifir y gellir ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn gyfan ar y buddsoddiadau sy'n weithredol yn ystod y cyfnod yn £1.322m. Bydd y CRT, yr ysgolion a'r sefydliadau y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar eu rhan yn derbyn cyfran o'r llog a dderbynnir yn seiliedig ar eu balansau ar 31 Mawrth 2025, ar gyfradd llog gyfartalog o'r holl adneuo. Dylid nodi hefyd, bod balansau arian y Cyngor yn lleihau, ynghyd a chyfraddau llog, felly, efallai na fydd y llog a geir yn y dyfodol yn cyrraedd y lefelau yn 2023/24 neu 2024/25.
- 10.2** Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cais am unrhyw fenthyciadau BBGC yn ystod y cyfnod i leihau llog sy'n daladwy a gohirio'r benthycia a nodwyd ar gyfer cyllido prosiectau cyfalaf penodol hyd nes y bydd angen. Mae'r Cyngor wedi benthyg benthyciadau di-log gan Salix ar gyfer prosiectau cyfalaf effeithlonrwydd ynni / carbon isel.
- 10.3** I grynhoi, mae safbwynt Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn parhau'n sefydlog, gyda gwell adenillon ar fuddsoddiadau na ragwelwyd a'r holl ddangosyddion darbodus yn parhau o fewn y ffiniau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25. Nid oes unrhyw fenthycia allanol newydd wedi digwydd, wrth i strategaeth y Cyngor barhau i fod i ddefnyddio benthycia mewnol i gyllido gwariant cyfalaf, ond, wrth i arian wrth gefn gael ei ddefnyddio (cydbwyso'r gyllideb, lleihau balansau ysgolion, defnydd o arian wrth gefn y CRT er mwyn cyllido gwariant cyfalaf), mae lefel yr arian parod sydd ar gael yn lleihau sydd, o ganlyniad, wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi a'r lefel o fenthycia mewnol y gellir ei gefnogi. Bydd hyn yn gofyn am newid strategaeth yn y dyfodol gan y bydd angen ymgymryd â benthycia allanol ychwanegol.

AD-DALIADAU BENTHYCIADAU BBGC

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Ad-dalu'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2026/27	01/04/2026	3.67	527,601
	30/09/2026	8.63	853,800
2026/27 Cyfanswm			1,381,401
2027/28	01/04/2027	3.73	490,601
	19/08/2027	5.20	1,000,000
	30/09/2027	7.00	674,502
2027/28 Cyfanswm			2,165,103
2028/29	01/04/2028	3.80	262,440
	01/03/2029	9.50	17,135
2028/29 Cyfanswm			279,575
2029/30	01/04/2029	3.85	684,697
	09/05/2029	9.25	3,652
	06/06/2029	9.38	12,087
	01/09/2029	9.25	6,210
	30/09/2029	8.63	853,800
	06/12/2029	9.25	11,782
2029/30 Cyfanswm			1,572,228
2030/31	01/04/2030	3.91	450,706
	09/05/2030	9.38	8,462
	01/09/2030	9.75	12,901
	09/11/2030	9.75	4,628
	06/12/2030	9.75	9,622
	01/03/2031	9.25	7,140
2030/31 Cyfanswm			493,459
2031/32	01/04/2031	3.96	660,449
	30/09/2031	8.63	1,280,700
2031/32 Cyfanswm			1,941,149
2032/33	01/04/2032	4.01	314,886
	06/06/2032	9.25	25,858
	06/12/2032	9.50	32,229
	01/03/2033	9.88	1,168
2032/33 Cyfanswm			374,140
2033/34	01/04/2033	4.05	636,565
2033/34 Cyfanswm			636,565
2034/35	01/04/2034	4.09	623,834
2034/35 Cyfanswm			623,834
2035/36	01/04/2035	4.13	611,357
2035/36 Cyfanswm			611,357
2036/37	01/04/2036	4.16	599,130
2036/37 Cyfanswm			599,130
2037/38	01/04/2037	4.18	587,147
2037/38 Cyfanswm			587,147
2038/39	01/04/2038	4.20	225,467
2038/39 Cyfanswm			225,467
2039/40	15/04/2039	4.95	5,000,000
2039/40 Cyfanswm			5,000,000
2040/41	15/04/2040	4.95	3,500,000
2040/41 Cyfanswm			3,500,000

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Ad-dalu'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2042/43	01/04/2042	4.25	999,781
2042/43 Cyfanswm			999,781
2043/44	01/04/2043	4.25	1,020,120
2043/44 Cyfanswm			1,020,120
2044/45	01/04/2044	4.25	1,009,718
2044/45 Cyfanswm			1,009,718
2045/46	01/04/2045	4.25	11,464,215
2045/46 Cyfanswm			11,464,215
2050/51	16/01/2051	4.15	2,000,000
2050/51 Cyfanswm			2,000,000
2052/53	19/05/2052	4.05	5,000,000
	12/10/2052	4.55	4,300,000
	09/11/2052	4.55	6,138,400
	20/11/2052	4.20	6,800,000
	11/12/2052	4.25	6,000,000
2052/53 Cyfanswm			28,238,400
2054/55	06/05/2054	8.38	3,000,000
2054/55 Cyfanswm			3,000,000
2055/56	15/11/2055	8.00	1,500,000
	15/12/2055	7.88	2,000,000
2055/56 Cyfanswm			3,500,000
2056/57	15/04/2056	7.13	3,000,000
	10/10/2056	7.88	2,000,000
2056/57 Cyfanswm			5,000,000
2057/58	15/04/2057	7.13	6,000,000
	15/10/2057	6.50	2,512,854
2057/58 Cyfanswm			8,512,854
2059/60	22/06/2059	4.25	1,763,308
2059/60 Cyfanswm			1,763,308
2064/65	25/03/2065	2.24	10,000,000
2064/65 Cyfanswm			10,000,000
2066/67	30/03/2067	2.20	6,200,000
2066/67 Cyfanswm			6,200,000
2068/69	16/01/2069	2.49	15,000,000
2068/69 Cyfanswm			15,000,000
Cyfanswm			117,698,952

AD-DALIADAU BENTHYCIADAU SALIX

Blwyddyn ariannol	Ad-daliadau Benthyciadau Salix £000
2024/25	178
2025/26	577
2026/27	531
2027/28	531
2028/29	531
2029/30	455
2030/31	441
2031/32	441
2032/33	221
2033/34	221
2034/35	221
2035/36	221
Cyfanswm	4,571

Economic Update & Forecasts – produced by Link Group

- The second quarter of 2024 (July to September) saw:
 - GDP growth stagnating in July following downwardly revised Q2 figures (0.5% q/q)
 - A further easing in wage growth as the headline 3myy rate (including bonuses) fell from 4.6% in June to 4.0% in July;
 - CPI inflation hitting its target in June before edging above it to 2.2% in July and August;
 - Core CPI inflation increasing from 3.3% in July to 3.6% in August;
 - The Bank of England initiating its easing cycle by lowering interest rates from 5.25% to 5.0% in August and holding them steady in its September meeting;
 - 10-year gilt yields falling to 4.0% in September.
- The economy's stagnation in June and July points more to a mild slowdown in GDP growth than a sudden drop back into a recession. Moreover, the drop in September's composite activity Purchasing Managers Index, from 53.8 in August to 52.9, was still consistent with GDP growth of 0.3%-0.4% for the summer months. This is in line with the Bank of England's view, and it was encouraging that an improvement in manufacturing output growth could be detected, whilst the services PMI balance suggests non-retail services output grew by 0.5% q/q in Q3. Additionally, the services PMI future activity balance showed an uptick in September, although readings after the Chancellor's announcements at the Budget on 30th October will be more meaningful.
- The 1.0% m/m jump in retail sales in August was stronger than the consensus forecast for a 0.4% m/m increase. The rise was reasonably broad based, with six of the seven main sub sectors recording monthly increases, though the biggest gains came from clothing stores and supermarkets, which the ONS reported was driven by the warmer-than-usual weather and end of season sales. As a result, some of that strength is probably temporary.
- The government's plans to raise public spending by around £16bn a year (0.6% GDP) have caused concerns that a big rise in taxes will be announced in the Budget, which could weaken GDP growth in the medium-term. However, if taxes are raised in line with spending (i.e., by £16bn) that would mean the overall stance of fiscal policy would be similar to the previous government's plan to reduce the budget deficit. Additionally, rises in public spending tend to boost GDP by more than increases in taxes reduce it. Our colleagues at Capital Economics suggest GDP growth will hit 1.2% in 2024 before reaching 1.5% for both 2025 and 2026.
- The further easing in wage growth will be welcomed by the Bank of England as a sign that labour market conditions are continuing to cool. The 3myy growth rate of average earnings fell from 4.6% in June to 4.0% in July. On a three-month annualised basis, average earnings growth eased from 3.0% to 1.8%, its lowest rate since December 2023. Excluding bonuses, the 3myy rate fell from 5.4% to 5.1%.
- Other labour market indicators also point to a further loosening in the labour market. The 59,000 fall in the alternative PAYE measure of the number of employees in August marked the fourth fall in the past five months. And the 77,000 decline in the three months to August was the biggest drop since November 2020. Moreover, the number of workforce jobs fell by 28,000 in Q2. The downward trend in job vacancies continued too. The number of job vacancies fell from 872,000 in the three months to July to 857,000 in the three months to August. That leaves it 34% below its peak in May 2022, and just 5% above its pre-pandemic level. Nonetheless, the Bank of England is still more concerned about the inflationary influence of the labour market rather than the risk of a major slowdown in labour market activity.
- CPI inflation stayed at 2.2% in August, but services inflation rose from a two-year low of 5.2% in July to 5.6%, significantly above its long-run average of 3.5%. Food and fuel price inflation exerted some downward pressure on CPI inflation, but these were offset by the upward effects from rising furniture/household equipment inflation, recreation/culture inflation and a surprisingly large rise in airfares inflation from -10.4% in July to +11.9% in August. As a result, core inflation crept back up from 3.3% to 3.6%. CPI inflation is also expected to rise in the coming months, potentially reaching 2.9% in November, before declining to around 2.0% by mid-2025.

- The Bank initiated its loosening cycle in August with a 25bps rate cut, lowering rates from 5.25% to 5.0%. In its September meeting, the Bank, resembling the ECB more than the Fed, opted to hold rates steady at 5.0%, signalling a preference for a more gradual approach to rate cuts. Notably, one Monetary Policy Committee (MPC) member (Swati Dhingra) voted for a consecutive 25bps cut, while four members swung back to voting to leave rates unchanged. That meant the slim 5-4 vote in favour of a cut in August shifted to a solid 8-1 vote in favour of no change.
- Looking ahead, CPI inflation will likely rise in the coming months before it falls back to its target of 2.0% in mid-2025. The increasing uncertainties of the Middle East may also exert an upward pressure on inflation, with oil prices rising in the aftermath of Iran's missile attack on Israel on 1 October. China's recent outpouring of new fiscal support measures in the latter stages of September has also added to the upshift in broader commodity prices, which, in turn, may impact on global inflation levels and thus monetary policy decisions. Despite these recent developments, our central forecast is still for rates to fall to 4.5% by the end of 2024 with further cuts likely throughout 2025. This is in line with market expectations, however, although a November rate cut still looks likely, December may be more problematic for the Bank if CPI inflation spikes towards 3%. In the second half of 2025, though, we think a more marked easing in inflation will prompt the Bank to speed up, resulting in rates eventually reaching 3.0%, rather than the 3.25-3.50% currently priced in by financial markets.
- Our forecast is next due to be updated around mid-November following the 30 October Budget, 5 November US presidential election and the 7 November MPC meeting and the release of the Bank of England Quarterly Monetary Policy Report.
- Looking at gilt movements in the first half of 2024/25, and you will note the 10-year gilt yield declined from 4.32% in May to 4.02% in August as the Bank's August rate cut signalled the start of its loosening cycle. Following the decision to hold the Bank Rate at 5.0% in September, the market response was muted, with the 10-year yield rising by only 5bps after the announcement. This likely reflected the fact that money markets had priced in a 25% chance of a rate cut prior to the meeting. The yield had already increased by about 10bps in the days leading up to the meeting, driven in part by the Fed's "hawkish cut" on 18 September. There is a possibility that gilt yields will rise near-term as UK policymakers remain cautious due to persistent inflation concerns, before declining in the longer term as rates fall to 3.0%.
- The FTSE 100 reached a peak of 8,380 in the third quarter of 2024, but its performance is firmly in the shade of the US S&P500, which has breached the 5,700 threshold on several occasions recently. Its progress, however, may pause for the time being whilst investors wait to see who is elected the next US President, and how events in the Middle East (and Ukraine) unfold. The catalyst for any further rally (or not) is likely to be the degree of investors' faith in AI.

MPC meetings: 9 May, 20 June, 1 August, 19 September 2024

- On 9 May, the Bank of England's Monetary Policy Committee (MPC) voted 7-2 to keep Bank Rate at 5.25%. This outcome was repeated on 20th June.
- However, by the time of the August meeting, there was a 5-4 vote in place for rates to be cut by 25bps to 5%. However, subsequent speeches from MPC members have supported Governor Bailey's tone with its emphasis on "gradual" reductions over time.
- Markets thought there may be an outside chance of a further Bank Rate reduction in September, following the 50bps cut by the FOMC, but this came to nothing.
- Nonetheless, November still looks most likely to be the next month to see a rate cut to 4.75% but, thereafter, inflation and employment data releases, as well as geo-political events, are likely to be the determinant for what happens in the remainder of 2024/25 and into 2025/26.


INTEREST RATE FORECASTS AND PWLB RATES – PRODUCED BY LINK GROUP


The Authority has appointed Link Group as its treasury advisors and part of their service is to assist the Authority to formulate a view on interest rates. The PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1 November 2012.

Our latest forecast on 28 May sets out a view that short, medium and long-dated interest rates will fall back over the next year or two, although there are upside risks in respect of the stickiness of inflation and a continuing tight labour market, as well as the size of gilt issuance.

Our PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps, calculated as gilts plus 80bps) which has been accessible to most authorities since 1 November 2012.

Link Group Interest Rate View	28.05.24									
	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27
BANK RATE	4.50	4.00	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25	3.00	3.00	3.00
3 month ave earnings	4.50	4.00	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.00	3.00	3.00
6 month ave earnings	4.40	3.90	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.10	3.10	3.20
12 month ave earnings	4.30	3.80	3.50	3.40	3.40	3.40	3.40	3.20	3.30	3.40
5 yr PWLB	4.50	4.30	4.10	4.00	3.90	3.90	3.90	3.90	3.90	3.80
10 yr PWLB	4.60	4.40	4.30	4.10	4.10	4.10	4.00	4.00	4.00	3.90
25 yr PWLB	5.00	4.80	4.70	4.50	4.50	4.40	4.40	4.40	4.30	4.30
50 yr PWLB	4.80	4.60	4.50	4.30	4.30	4.20	4.20	4.20	4.10	4.10





HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 02.04.24 – 30.09.24

	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
02/04/2024	5.39%	4.72%	4.80%	5.28%	5.07%
30/09/2024	4.95%	4.55%	4.79%	5.33%	5.13%
Low	4.78%	4.31%	4.52%	5.08%	4.88%
Low date	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024
High	5.61%	5.14%	5.18%	5.61%	5.40%
High date	29/05/2024	01/05/2024	01/05/2024	01/05/2024	01/05/2024
Average	5.21%	4.76%	4.88%	5.35%	5.14%
Spread	0.83%	0.83%	0.66%	0.53%	0.52%

- The current PWLB rates are set as margins over gilt yields as follows: -
 - PWLB Standard Rate** is gilt plus 100 basis points (G+100bps)
 - PWLB Certainty Rate (GF)** is gilt plus 80 basis points (G+80bps)
 - PWLB Local Infrastructure Rate** is gilt plus 60 basis points (G+60bps)
 - PWLB Certainty Rate (HRA)** is gilt plus 40bps (G+40bps)
- The **UK Infrastructure Bank** will lend to local authorities that meet its scheme criteria at a rate currently set at gilt plus 40bps (G+40bps).

This page is intentionally left blank


CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
Dyddiad:	11 CHWEFROR 2025
Pwnc / Testun:	DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26
Deilydd Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
Ffôn:	
E-bost:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
- Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i Gôd Darbodus CIPFA a Chodau Rheoli Trysorlys CIPFA, y cyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ohonynt yn 2021. - Mae'r DSRhT hwn yn cydymffurfio â'r gofynion yn y ddau gôd ac yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli'r trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r DSRhT, fel sy'n ofynnol gan y codau, hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy. - Cyflwynodd Côt Darbodus CIPFA, 2021 (A29), adroddiadau monitro yn amlach ar waith rheoli'r trysorlys. Mae'r Cyngor bellach yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar reoli'r trysorlys sy'n arwain at adroddiad alldro rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn. - Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fonitro ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol ac a nodir yn yr atodiadau yn y DSRhT. Mae'r adroddiadau chwarterol amlygu unrhyw amrywiadau sylweddol o'r dangosyddion cymeradwy ac yn cynnwys rhagolygon ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Argymhellion - Adolygu Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 a chyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol	
C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Mae'n ofyniad o'r Côt fod y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Amherthnasol		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol i hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion tymor hir yr Ynys, gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido'r gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael rŵan ac yn y dyfodol. Rhaid i gynlluniau'r Trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canolog.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Rhaid i strategaeth a gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy i liniaru'r effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy-	Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn aml yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion / estyniadau newydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u cyllido / yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorir â Dinasyddion Môn bob blwyddyn am y rhaglen gyfalaf flynyddol, y mae rhywfaint ohoni'n dibynnu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Ymgynghorir yn fanylach ar rai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion.
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd eu hadeiladu a gyllidir drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac adnewyddu blynyddol hefyd yn helpu i gynyddu hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae'r DSRhT yn ofynnol bob blwyddyn.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir trwy fenthyca yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a chynnydd ynddi, megis yr ysgolion cyfrwng Gymraeg a adeiladwyd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151(gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 ydi hwn
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
F - Atodiadau:		
1. Egwyddorion Allweddol Rheoli'r Trysorlys 2. Cefndir economaidd 3. Rhagolygon graddfeydd llog 4. Proffil benthyciadau'n aeddfedu 5. Datganiad Polisi DRI 6. Buddsoddiadau penodol ac amhenodol 7. Meini prawf gwrthbartïon 8. Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau 9. Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli'r Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151 10. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 11. Eglurhad o Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys 12. Geirfa o ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys, a gwybodaeth amdanynt		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):		
• Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024 • Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 22 Hydref 2024 • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2024 • Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd 2024 • Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 11 Chwefror 2025 • Strategaeth Gyfalaf 2025/29 – Cyngor Sir Ynys Môn, 6 Mawrth 2025		

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26****1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2025/26 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau mewn perthynas â Chôd Darbodus CIPFA 2021 a Chôd Trysorlys CIPFA 2021.
- 1.2** Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor isod yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol, gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.



2. CEFNDIR

2.1 Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

2.2 Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd, yn unol â'r Côt, ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw, mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor i sicrhau nad yw costau benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau referniw benthycia yn fforddiadwy.

2.3 Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Cyngor yn hollbwysig, gan fod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer referniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuron ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi, oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddiwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS YNYS MÔN

3.1 Yn ogystal â'r polisiâu risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus o ddifri a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-

3.1.1 Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o arian i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.

3.1.2 Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuron banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.

3.1.3 Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

3.1.4 Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.

3.1.5 Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.

3.1.6 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.

3.1.7 Bydd y Cyngor yn benthycia'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn leihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.

- 3.1.8** Os oes angen benthycha at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthychiadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthychiadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r canolig, a dylid ystyried benthychiadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- 3.1.9** Mae gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthycha yn seiliedig ar ofynion Strategaeth Gyfalaf 2024/28 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- 3.1.10** Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd, gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthycha a chryfder ariannol gwrthbartion.

4. CYD-DESTUN ALLANOL

- 4.1** Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn Atodiad 2. Mae Tabl 1 isod yn dangos rhagolygon cyfradd sylfaenol diweddar Banc Lloegr, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthycha Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan MUFG Corporate Markets Treasury Limited (MUFG).

Tabl 1
Rhagolwg o Gyfradd Sylfaenol y Banc, Chwyddiant a Chyfraddau BBGC Mawrth 2025 i Ragfyr 2026

	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr
	2025	2025	2025	2025	2026	2026	2026	2026
Cyfradd Banc (%)	4.50%	4.25%	4.00%	4.00%	3.75%	3.75%	3.75%	3.50%
Chwyddiant (OBR Hydref 2024)	2.60%	2.60%	2.60%	2.60%	2.30%	2.30%	2.30%	2.30%
Cyfradd 5 mlynedd BBGC (%)	.4.90%	4.80%	4.60%	4.50%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%
Cyfradd 10 mlynedd BBGC (%)	5.10%	5.00%	4.80%	4.80%	4.70%	4.50%	4.50%	4.40%
Cyfradd 25 mlynedd BBGC (%)	5.50%	5.40%	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%
Cyfradd 50 mlynedd BBGC (%)	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%	4.70%	4.60%

- 4.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd chwarter cyntaf 2023/24. Yn 2024/25, mae chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol, i darged Banc Lloegr o 2%, a gyflawnwyd ym mis Mehefin 2024. /Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter ac roedd yr MPD yn 1.7% ar 30 Medi 2023. Er bod rhagolygon chwyddiant yr MPD ar gyfer 2025 a 2026 yn uwch na'r targed o 2% (gweler rhagolygon Chwyddiant OBR, Hydref 2024 yn Nhabl 1 uchod), mae'r cyfraddau hyn yn well o lawer nac yn 2022 a 2023.

- 4.3** Ar ddechrau'r pandemig, gostyngwyd y gyfradd sylfaenol i'w phwynt isaf ar 0.1% i gefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25%, ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (yr MPC) rhwng 0.25% i 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Ym mis Awst 2023, cynyddodd yr MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%. Ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% tan 1 Awst 2024, pan gafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng am y tro cyntaf ers 2020, i 5%, ac roedd y gyfradd yr un fath ar 30 Medi 2024. Ers hynny, mae'r gyfradd sylfaenol wedi gostwng i 4.75%, ac mae'r marchnadoedd yn disgwyl gostyngiad pellach, i 4.5%, ar 6 Chwefror 2025.
- 4.4** Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, sydd wedi helpu'r Cyngor i ennill mwy na £1m mewn llog derbyniadwy. Ond mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Felly, mae benthycia allanol yn cael ei ohirio hyd nes na all balansau arian barhau i gynnal y defnydd o falansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol).

5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

- 5.1** Benthycia gan y BBGC – ar 31 Rhagfyr 2024, roedd portffolio benthyciadau'r Cyngor gan y BBGC yn £117.693m, fel y gwelir yn Nhabl 2 isod. Y gyfradd gyfartalog ar gyfer benthyciadau aeddfedu a blwydd-daliadau yw 4.48%. Mae'r mwyafrif sylweddol o'r benthyciadau yn fenthyciadau aeddfedu sy'n cael eu had-dalu ar ddiwedd y cyfnod benthycia. Mae Atodiad 3 yn dangos y dyddiadau ad-dalu ar gyfer y benthyciadau BBGC. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau BBGC newydd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2024. Mae hyn oherwydd yr angen i osgoi benthycia tra bod cyfraddau llog yn cynyddu. Yn lle hynny, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor MUFG ar fenthycia yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Cost cyfle hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi, fodd bynnag, mae costau benthycia'n uwch nag enillion buddsoddi. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i dalu credydwyr a chyflogau, rhaid i ddigon o arian parod aros mewn cyfrifon galwadau ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y rhain yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn dal i allu gwneud arbedion rhesymol ar y llog taladwy tra'n defnyddio balansau arian parod.

Tabl 2
Bwrdd Benthyciadau'r Gwaith Cyhoeddus (BBGC)

Benthyciadau'r BBGC ar 31 Rhagfyr 2024			
	BBGC Aeddfedu	EIP y BBGC/ Blwydd-daliadau	Cyfanswm Benthyciadau'r BBGC ar 31 Rhagfyr 2024
	£'000	£'000	
Benthyciad sy'n weddill	117,546	147	117,693
Oes gyfartalog benthyciadau sy'n weddill (blynyddoedd)	28.64	3.77	28.61
Cyfradd gyfartalog	4.47%	9.42%	4.48%

- 5.2** Benthycia gan Salix – sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd gan y Cyngor £4.393m o fenthyciadau di-log gyda Salix ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn, fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill. Dangosir yn Atodiad 4 y taliadau sy'n ddyledus ar gyfer pob blwyddyn ariannol berthnasol.

Tabl 3
Benthyciadau Salix ar 31 Rhagfyr 2024

	Benth. Salix 2 £'000	Benth. Salix 3 £'000	Benth. Salix 4 £'000	Benth. Salix 5 £'000	Benth. Salix 6 £'000	CYFANSWM £'000
Swm sy'n weddill	46.0	254	119	1,543	2,431	4,393
Dyddiad Ad-dalu	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
% y gyfradd llog	-	-	-	-	-	-

6. BALANSAU BUDDSODDI'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2024

- 6.1** Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £22.541m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Rhagfyr 2024 oedd £1.207m, a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm y llog derbyniadwy ar y buddsoddiadau a restrir isod yn £1.552m ar gyfer 2024/25. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd hi'n hyfyw i adnewyddu'r holl fuddsoddiadau hyn pan fyddant yn aeddfedu. Bydd y llog derbyniadwy yn cael ei rannu'n briodol rhwng Cronfa'r Cyngor, y CRT, ysgolion a chyrff allanol y mae'r Cyngor yn dal arian ar eu rhan yn cynnwys Ymddiriedolaethau.

Tabl 4
Buddsoddiadau 1 Ebrill 2024 i 31 Rhagfyr 2024

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2024 £	Prifswm Buddsoddi ar 31 Rhagfyr 2024 £	Amcangyfrif o'r llog a enillir i 31 Rhagfyr 2024 £	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog 2024/25 ar y buddsoddiadau hyn £
Natwest Call Account	01/04/2024	31/03/2025	Newidiol	11,758,959	6,659,695	266,374	422,199
Nationwide Building Society	08/01/2024	08/04/2024	5.11%	5,000,000	-	63,700	63,700
Santander Uk Plc	09/02/2024	09/05/2024	5.19%	5,000,000	-	63,986	63,986
National Westminster	11/03/2024	11/06/2024	5.23%	5,000,000	-	65,912	65,912
Cyfrif Galw Bank of Scotland - Lloyds	01/04/2024	31/03/2025	Newidiol	7,692,214	3,881,375	198,489	352,676
Goldmansachs International Bank	08/04/2024	08/10/2024	5.29%	5,000,000	-	132,612	132,612
Santander	09/05/2024	08/11/2024	5.07%	5,000,000	-	127,097	127,097
National Westminster	09/05/2024	09/08/2024	5.14%	5,000,000	-	64,778	64,778
National Westminster	11/06/2024	11/12/2024	5.23%	5,000,000	-	131,108	131,108
Santander Uk Plc	08/11/2024	10/02/2025	4.68%	5,000,000	5,000,000	33,978	60,263
Goldmansachs International Bank	08/10/2024	08/01/2025	4.78%	5,000,000	5,000,000	55,003	60,241
Cyfrif Galw Bank of Scotland - Lloyds	16/12/2024	15/01/2025	4.75%	2,000,000	2,000,000	3,904	7,808
Cyfanswm					22,541,071	1,206,943	1,552,381

7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

- 7.1 Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol o fenthyciadau, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2025/26 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd ei angen ar asedau'r Cyngor neu a fydd angen asedau amnewid. Cyflwynir y tri opsiwn fel y senarios sylfaenol, uchelgeisiol a delfrydol, a'r gofyniad delfrydol yw'r symiau i ddod â holl asedau'r Cyngor i safon uchel neu ased newydd lle mae angen amnewidiadau. Mae'r gwariant cyfalaf yn y strategaeth hon yn defnyddio'r senario cyntaf – yr achos sylfaenol, oherwydd y diffyg cyllid sylweddol ar gyfer 2025/26 ac, o bosibl, ar gyfer y blynyddoedd ar ôl hynny.
- 7.2 Mae Tabl 5 isod yn dangos gwariant amcangyfrifedig a chyllid ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2028/09. O 2025/26 ymlaen, dyma'r buddsoddiad cyfalaf isaf oherwydd materion cyllido sylweddol.

Tabl 5
Cyllid a Gwariant Cyfalaf Amcangyfrifedig 2023/24 i 2028/29

	Gwirioneddol 2023/24 £'000	Amcangyfrifedig 2024/25 £'000	Amcangyfrifedig 2025/26 £'000	Amcangyfrifedig 2026/27 £'000	Amcangyfrifedig 2027/28 £'000	Amcangyfrifedig 2028/29 £'000
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	27,924	39,162	22,207	8,315	7,196	7,061
CRT	19,806	27,841	25,438	26,266	11,368	10,969
Eiddo Buddsoddi	2,844	0	0	0	0	0
Cyfanswm Gwariant	50,574	67,003	47,645	34,581	18,564	18,030
Grantiau Cyfalaf	29,936	41,670	29,677	14,543	5,351	5,351
Derbyniadau Cyfalaf	98	940	500	0	0	0
Arian wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	16,376	16,573	7,893	8,983	7,962	8,337
Benthyca a Chefnogaeth	3,991	5,027	3,163	2,126	2,126	2,126
Benthyca Digefnogaeth	38	2,777	6,412	8,929	3,125	2,216
Benthyciadau Salix	135	16	0	0	0	0
Cyfanswm Cyllido	50,574	67,003	47,645	34,581	18,564	18,030

- 7.3 Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthyca mewnol yn arbed costau llog taladwy i'r Cyngor, codir y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthyca (y GCC) nid y benthyciad gwirioneddol. Mae Tabl 6 yn dangos y GCC ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r CRT, wedi i'r DRI gael ei ddidynnu. Mae Tabl 7 yn dangos y benthyciadau gwirioneddol a gymerwyd gan yr Awdurdod. Y gwahaniaeth rhwng y GCC a'r benthyca gwirioneddol yw'r benthyca mewnol. Gwelir hyn yn Nhabl 7 yn ogystal.

Tabl 6
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

	Gwirioneddol 2023/24 £'000	Amcangyfrifedig 2024/25 £'000	Amcangyfrifedig 2025/26 £'000	Amcangyfrifedig 2026/27 £'000	Amcangyfrifedig 2027/28 £'000	Amcangyfrifedig 2028/29 £'000
GCC - Cronfa'r Cyngor	108,542	111,141	117,333	119,949	121,352	122,725
GCC - CRT	38,151	38,083	37,057	42,118	49,718	51,409
Cyfanswm GCC	146,693	149,224	154,390	162,067	171,070	174,134
Symudiadau Net yn GCC	2,583	2,530	5,166	7,677	9,003	3,064

Tabl 7
Benthycha Gwirioneddol a Benthycha Mewnol (Defnyddio Arian parod)

	Gwirioneddol 2023/24	Amcan- gyfrifedig 2024/25	Amcan- gyfrifedig 2025/26	Amcan- gyfrifedig 2026/27	Amcan- gyfrifedig 2027/28	Amcan- gyfrifedig 2028/29
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthycha Allanol	122,410	122,163	124,705	132,899	141,789	146,756
Benthycha Mewnol	24,283	27,061	29,685	29,168	29,281	27,378
Cyfanswm GCC	146,693	149,224	154,390	162,067	171,070	174,134

- 7.4** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y DRI sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i fenthyciadau na all eu fforddio.
- 7.5** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion pan ddaw'n ddyledus, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r DRI. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 5. Cafodd polisi DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ac unwaith eto ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2022. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau arian parod y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r benthyciadau mewnol.
- 7.6** Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DRI hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod i ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Rhagfyr 2024, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £216k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

8. STRATEGAETH FENTHYCA

- 8.1** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthycha. Mae hyn yn golygu n ad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthycha gan ddefnyddio arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthycha tymor canolig a thymor hir ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2025/26. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- Oos teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthycha, yna bydd benthyciadau'n cael eu gohirio.
- Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthycha nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Rhagolwg tymor hir MUFG Corporate Markets Treasury Limited (y tu hwnt i 10 mlynedd) yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod cyfraddau'r banc yn gostwng.

8.2 Benthycia Mewnol yn erbyn Benthycia Allanol

- 8.2.1** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthycia mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau i allanoli benthycia. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthycia a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.
- 8.2.2** O blaid mewnnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.
- 8.2.3** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2025/26, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch nawr. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol.

8.3 Benthycia Ymlaen Llaw i Gwrdd ag Anghenion

- 8.3.1** Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon GCC a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

8.4 Aildrefnu Dyledion

- 8.4.1** Gall ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu ail-gydbwysu'r portffolio i roi mwy o sicrwydd a ystyrir yn briodol.
- 8.4.2** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyledion yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddo weithredu.

8.5 Benthycia gan Sefydliadau Ariannol Arall

- 8.5.1** Y BBGC yw prif ffynhonnell benthycia'r Cyngor, gyda rhai benthyciadau gan y sefydliad sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, Salix, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giliau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthycia gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthyciadau cyfun;
- Bondiau Corfforaethol;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

9. PROFFIL DYLEDION

9.1 Yn Atodiad 4, gwelir gwybodaeth aeddfedu benthyciadau'r Cyngor. Bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

Tabl 8
Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC a Salix, 31 Rhagfyr I 2024

Nifer o flynyddoedd tan fydd y benthyciad yn Aeddfedu	Prifswm £'000
<1	577
1 to 3	5,403
4 to 6	5,359
7 to 10	3,128
11 to 14	6,411
15 to 22	17,994
23 to 33	50,251
34 to 50	32,963
CYFANSWM	122,086

10. STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI TEILYNGDOD CREDYD

10.1 Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r Cyngor yn anelu at gael strategaeth fuddsoddi hyblyg i fanteisio i'r eithaf ar enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau arian parod y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

10.2 Rheoli Risg

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Mae'n cael yr ail setliad isaf gan Lywodraeth Cymru, gyda Merthyr Tudful yn cael yr isaf. Nid oes gan y Cyngor y balansau cyngor mawr sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy gyda balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

10.2.1 Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

10.2.2 Defnyddir isafswm **meini prawf credyd derbyniol** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

10.2.3 Gwybodaeth arall: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro, ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.

- 10.2.4** Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 7 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, mewn buddsoddiadau penodol yn unig y bydd y Cyngor yn buddsoddi.
- Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
 - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd, gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.
- 10.2.5** Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrices fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.
- 10.2.6** Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).
- 10.2.7** Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y raddfa credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis peryglu teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).
- 10.2.8** Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyledig y balansau arian parod a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.
- 10.2.9.** Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

10.3 Polisi Teilyngdod Credyd

- 10.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-
- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.
 - Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt graddfa credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.
- 10.3.2** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf graddfa credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan MUFG.
- 10.3.3** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd MUFG yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.
- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnyddio o wasanaeth teilyngdod credyd MUFG. Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

10.3.4 Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

10.4 Cyfyngiadau Gwledydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar Gwrthbartïon.

11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

11.1 Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

11.2 Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

11.3.1 Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

11.3.2 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

11.3.3 Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd Rheoli Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgrwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

11.3.4 Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

11.3.5 Bydd y Tîm Perfformiad Adnoddau yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a gaiff Aelodau hefyd yn cael ei gadw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd.

11.3.6 Mae Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

12. CYNGOR AR REOLI'R TRYSORLYS

12.1 Mae'r Cyngor yn defnyddio MUFG Corporate Markets Treasury Limited (MUFG) (Link Group gynt) yn ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2025 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd, Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.

12.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgyngorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

13.1 Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

14. ADRODD

14.1 Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisiau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol.

- Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych at y dyfodol ac yn ymwneud â'r isod:-
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys (diffiniad o bolisiau ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

14.2 Adroddiadau Monitro Chwarterol Rheoli'r Trysorlys – bydd rhain yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisiau.

14.3 Adroddiad Blyneddol diwedd blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn rhoi manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau gwirioneddol y trysorlys o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

14.4 Mae angen craffu digonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Cyngor. Cyflawnir y rôl hon gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn craffu ar adroddiadau chwarter 1 a chwarter 3, a gyflwynwyd gan Gôd Darbodus 2021.

15. CASGLIAD

15.1 I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 yn parhau'r strategaeth o ddull ddarbodus o fenthycu, er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch a hylifedd adneuon dros elw.

15.2 Dros oes y strategaeth, rhagwelir byddai balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol pe parheir i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu i gyllido'r gyllideb refeniw a pharheir i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i gyllido gwariant cyfalaf. Bydd rhaid ymgymryd â lefel uwch o fenthycu er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n dal i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Côd Ymarfer CIPFA: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus – darparwyd gan MUFG Corporate Markets Treasury Limited (Link Group gynt)

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

Egwyddor Allweddol 1:

Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys mewn modd effeithiol.

Egwyddor Allweddol 2:

Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarvoudus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi cyllid rheoli'r trysorlys.

Egwyddor Allweddol 3:

Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli'r trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli'r trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

“Wrth lunio'r argymhellion hyn, mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes yma o reoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf”.

“Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus.”

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel congffeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; ac
- arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.
3. Y Cyngor Sir / Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisiâu ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod a'r ARhT ac, os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli'r Trysorlys.
4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaethau a pholisïau rheoli'r trysorlys.

Economics and Interest Rate update - produced by MUFG Corporate Markets Treasury Limited (formerly Link Group)

- The third quarter of 2024/25 (October to December) saw:
 - GDP growth contracting by 0.1% m/m in October following no growth in the quarter ending September;
 - The 3myy rate of average earnings growth increase from 4.4% in September to 5.2% in October;
 - CPI inflation increase to 2.6% in November;
 - Core CPI inflation increase from 3.3% in October to 3.5% in November;
 - The Bank of England cut interest rates from 5.0% to 4.75% in November and hold them steady in December.
 - 10-year gilt yields starting October at 3.94% before finishing up at 4.57% at the end of December (peaking at 4.64%).

The 0.1% m/m fall in GDP in October was the second such decline in a row and meant that GDP would need to rise by 0.1% m/m or more in November and December, for the economy to grow in Q4 as a whole rather than contract. With on-going concern over the impact of the October budget and drags from higher interest rates and weak activity in the euro zone, our colleagues at Capital Economics have revised down their forecast for GDP growth in 2025 to 1.3% (it was initially 1.8% in the immediate wake of the Budget.)

This quarter saw the composite activity Purchasing Manager Index (PMI) dip below the level of 50 that separates expansion from contraction for the first time since October 2023. Although December's composite PMI came in above this level, at 50.5, this was still consistent with the 0% rise in real GDP in Q3 being followed by a flat-lining, or potential contraction, in the final quarter of 2024. However, the economy is unlikely to be quite as weak as that given that the PMIs do not capture rises in government spending, but the data does underline the continued divergence in trends between the manufacturing and services sectors. The manufacturing PMI fell for its fourth consecutive month in December, from 48.0 in November to 47.3. That's consistent with manufacturing output falling by 1.5% q/q in the final quarter of 2024 after flatlining through the summer months. This weakness in the manufacturing sector was offset by a rebound in the services sector. The services PMI rose from 50.8 in November to 51.4 in December, which is consistent with non-retail services output growth increasing from +0.1% q/q to +0.3% for October - December. This suggests that more of the recent slowdown in GDP is being driven by the weakness in activity overseas rather than just domestic factors. Additionally, the services output prices balance rose for the third consecutive month, from 55.4 in November to 56.9, showing signs that price pressures are reaccelerating.

After rising by 1.4% q/q in July - September, the retail sector had a difficult final quarter of the year. Indeed, the bigger-than-expected 0.7% m/m fall in retail sales in October (consensus forecast -0.3% m/m) suggested that households' concerns about expected tax rises announced in the Budget on 30th October contributed to weaker retail spending at the start of the quarter. The monthly decline in retail sales volumes in October was reasonably broad based, with sales in five of the seven main sub sectors slipping. However, the potential for seasonally adjusted sales to rise in November - if October's figures were impacted by the timing of the school half term – combined with a rebound in consumer confidence and rising real incomes, points to some promise to the final quarter of 2024

The Government's October budget outlined plans for a significant £41.5bn (1.2% of GDP) increase in taxes by 2029/30, with £25bn derived from a 1.2% rise in employers' national insurance contributions. The taxes are more than offset by a £47bn (1.4% of GDP) rise in current (day-to-day) spending by 2029/30 and a £24.6bn (0.7% of GDP) rise in public investment, with the latter being more than funded by a £32.5bn (1.0% of GDP) rise in public borrowing. The result is that the Budget loosens fiscal policy relative to the previous government's plans - although fiscal policy is still being tightened over the next five years – and that GDP growth is somewhat stronger over the coming years than had previously been forecasted. By way of comparison, the Bank of England forecasts four-quarter GDP growth to pick up to almost 1¾% through 2025 (previously forecast to be 0.9%) before falling back to just over 1% in 2026.

December's pay data showed a rebound in wage growth that will likely add to the Bank of England's inflationary concerns. The 3myy rate of average earnings growth increased from 4.4% in September (revised up from 4.3%) to 5.2% in October (consensus forecast 4.6%) and was mainly due to a rebound in private sector pay growth from 4.6% to 5.4%. Excluding bonuses, public sector pay stagnated in October and the 3myy rate fell from 4.7% to 4.3%.

The number of job vacancies also fell again from 828,000 in the three months to October to 818,000 in the three months to November. This marks the first time it has dropped below its pre-pandemic February 2020 level of 819,000 since May 2021. Despite this, the Bank of England remains concerned about the inflationary influence of high wage settlements as well as the risk of a major slowdown in labour market activity.

CPI inflation has been on the rise this quarter, with the annual growth rate increasing from 1.7% in September to 2.3% in October, before rising further to 2.6% in November. Although services CPI inflation stayed at 5.0% in November, the Bank had expected a dip to 4.9%, while the timelier three-month annualised rate of services CPI rose from 5.0% to 5.1%. That shows that there currently isn't much downward momentum. Moreover, the wider measure of core CPI inflation rose from 3.3% to 3.5% in November. Both services and core inflation are currently at rates well above those consistent with the 2.0% target and are moving in the wrong direction. Capital Economics forecast that after dipping to 2.5% in December, CPI inflation will rise further in January, perhaps to 2.8%. Although CPI inflation is expected to be back at close to the 2.0% target by the end of 2025, given that a lot of the rise in inflation in the coming months will be due to base effects that won't persist, the potential for a broader set of tariffs to arise from the US as well as the constant threat of geo-political factors to impact energy and food prices suggest risks remain very much to the upside.

Throughout the quarter gilt yields have risen. The 10-year gilt yield increased from 3.94% at the start of October to 4.57% by the year end (and has subsequently risen to 4.64% early in 2025). As recently as mid-September 10-year gilt yields were at their low for the financial year, but since then, and specifically after the Budget at the end of October, yields have soared. Overall, the reaction to the UK Budget highlights how bond markets are both fragile and highly attentive to news about the fiscal outlook.

The FTSE 100 started off this quarter at 8,276, before finishing up at 8,121. In particular, UK markets have continued to fall further behind US equities, a trend which has accelerated since Trump's election victory in November, partly due to the UK stock market being less exposed to AI hype, and it being weighed down by its relatively large exposure to the energy and materials sectors.

MPC meetings: 7th November & 18th December 2024

- On 7 November, Bank Rate was cut by 0.25% to 4.75%. The vote was 8-1 in favour of the cut, but the language used by the MPC emphasised "gradual" reductions would be the way ahead with an emphasis on the inflation and employment data releases, as well as geo-political events.
- At the 18 December meeting, another split vote arose. Members voted 6-3 to keep Bank Rate on hold at 4.75%, but dissenters (Dhingra, Ramsden and Taylor) were keen for rates to be cut further as concerns over the slowing down of the UK economy took root, despite near-term inflation fears remaining.
- The MPC again stated that "a gradual approach" to rate cuts "remains appropriate" and that policy will "remain restrictive for sufficiently long".

2. Interest rate forecasts

The Council has appointed MUFG Corporate Markets (formerly Link Group) as its treasury advisors and part of their service is to assist the Council to formulate a view on interest rates. The PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012. For Housing Revenue Account authorities, the lower Housing Revenue Account (HRA) PWLB rate has also been available since 15 June 2023 (standard rate minus 60 bps) but is available for HRA borrowing only.

The latest forecast, updated on 11th November, sets out a view that both short and long-dated interest rates will start to fall once it is evident that the Bank of England has been successful in squeezing excess inflation out of the economy, despite a backdrop of stubborn inflationary factors and a tight labour market.

Following the 30th October Budget, the outcome of the US Presidential election on 6th November, and the 25bps Bank Rate cut undertaken by the Monetary Policy Committee (MPC) on 7th November, we significantly revised our central forecasts for the first time since May. In summary, our Bank Rate forecast is now 50bps – 75bps higher than was previously the case, whilst our PWLB forecasts have been materially lifted to not only reflect our increased concerns around the future path of inflation, but also the increased level of Government borrowing over the term of the current Parliament.

If we reflect on the 30th October Budget, our central case is that those policy announcements will be inflationary, at least in the near-term. The Office for Budgetary Responsibility and the Bank of England concur with that view. The latter have the CPI measure of inflation hitting 2.5% y/y by the end of 2024 and staying sticky until at least 2026. The Bank forecasts CPI to be 2.7% y/y (Q4 2025) and 2.2% (Q4 2026) before dropping back in 2027 to 1.8% y/y.

The anticipated major investment in the public sector, according to the Bank, is expected to lift UK real GDP to 1.7% in 2025 before growth moderates in 2026 and 2027. The debate around whether the Government's policies lead to a material uptick in growth primarily focus on the logistics of fast-tracking planning permissions, identifying sufficient skilled labour to undertake a resurgence in building, and an increase in the employee participation rate within the economy.

There are inherent risks to all the above. The worst-case scenario would see systemic blockages of planning permissions and the inability to identify and resource the additional workforce required to deliver large-scale IT, housing and infrastructure projects. This would lead to upside risks to inflation, an increased prospect of further Government borrowing & tax rises, and a tepid GDP performance.

Our central view is that monetary policy is sufficiently tight at present to cater for some further moderate loosening, the extent of which, however, will continue to be data dependent. We forecast the next reduction in Bank Rate to be made in February and for a pattern to evolve whereby rate cuts are made quarterly and in keeping with the release of the Bank's Quarterly Monetary Policy Reports (February, May, August and November). Any movement below a 4% Bank Rate will, nonetheless, be very much dependent on inflation data in the second half of 2025.

Regarding our PWLB forecast, the short to medium part of the curve is forecast to remain elevated over the course of 2025, and the degree to which rates moderate will be tied to the arguments for further Bank Rate loosening or otherwise. The longer part of the curve will also be impacted by inflation factors, but there is also the additional concern that with other major developed economies such as the US and France looking to run large budget deficits there could be a glut of government debt issuance that investors will only agree to digest if the interest rates paid provide sufficient reward for that scenario.

Moreover, Donald Trump's victory in the US President election paves the way for the introduction/extension of tariffs that could prove inflationary whilst the same could be said of any further tax cuts and an expansion of the current US budget deficit.

Invariably the direction of US Treasury yields in reaction to his core policies will, in all probability, impact UK gilt yields. So, there are domestic and international factors that could impact PWLB rates whilst, as a general comment, geo-political risks abound.


In summary, regarding PWLB rates, movement in the short-end of the curve is expected to reflect Link's Bank Rate expectations to a large degree, whilst medium to longer-dated PWLB rates will remain influenced not only by the outlook for inflation, domestically and globally, but also by the market's appetite for significant gilt issuance (£200bn+ for each of the next few years). As noted at the Link November Strategic Issues webinars, there is upside risk to that part of our forecast despite the Debt Management Office skewing its issuance to the shorter part of the curve.

Link Group Interest Rate View	11.11.24												
	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27	Jun-27	Sep-27	Dec-27
BANK RATE	4.75	4.50	4.25	4.00	4.00	3.75	3.75	3.75	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50
3 month ave earnings	4.70	4.50	4.30	4.00	4.00	4.00	3.80	3.80	3.80	3.50	3.50	3.50	3.50
6 month ave earnings	4.70	4.40	4.20	3.90	3.90	3.90	3.80	3.80	3.80	3.50	3.50	3.50	3.50
12 month ave earnings	4.70	4.40	4.20	3.90	3.90	3.90	3.80	3.80	3.80	3.50	3.50	3.50	3.50
5 yr PWLB	5.00	4.90	4.80	4.60	4.50	4.50	4.40	4.30	4.20	4.10	4.00	4.00	3.90
10 yr PWLB	5.30	5.10	5.00	4.80	4.80	4.70	4.50	4.50	4.40	4.30	4.20	4.20	4.10
25 yr PWLB	5.60	5.50	5.40	5.30	5.20	5.10	5.00	4.90	4.80	4.70	4.60	4.50	4.50
50 yr PWLB	5.40	5.30	5.20	5.10	5.00	4.90	4.80	4.70	4.60	4.50	4.40	4.30	4.30


- Money market yield forecasts are based on expected average earnings by local authorities for 3 to 12 months.
- The Link forecast for average earnings are averages i.e., rates offered by individual banks may differ significantly from these averages, reflecting their different needs for borrowing short-term cash at any one point in time.

In the chart below, the rise in gilt yields across the curve in the first half of 2023/24, and therein PWLB rates, is clear to see, prior to the end of year rally based on a mix of supportive domestic and international factors.

PWLB RATES 2.4.24 to 31.12.24



PWLB Certainty Rate Variations 2.4.24 to 31.12.24



HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 02.04.24 – 31.12.24

	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
02/04/2024	5.39%	4.72%	4.80%	5.28%	5.07%
31/12/2024	5.20%	5.12%	5.43%	5.91%	5.68%
Low	4.78%	4.31%	4.52%	5.08%	4.88%
Low date	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024
High	5.61%	5.16%	5.44%	5.92%	5.69%
High date	29/05/2024	19/12/2024	19/12/2024	19/12/2024	27/12/2024
Average	5.22%	4.80%	4.96%	5.43%	5.21%
Spread	0.83%	0.85%	0.92%	0.84%	0.81%

Dyddiadau Ad-dalu Benthyciadau BBGC ar 31 Rhagfyr 2024

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Aeddfedu'r'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2026/27	01/04/2026	3.67	527,601
	30/09/2026	8.63	853,800
2026/27 Cyfanswm			1,381,401
2027/28	01/04/2027	3.73	490,601
	19/08/2027	5.20	1,000,000
	30/09/2027	7.00	674,502
2027/28 Cyfanswm			2,165,103
2028/29	01/04/2028	3.80	262,440
	01/03/2029	9.50	17,135
2028/29 Cyfanswm			279,575
2029/30	01/04/2029	3.85	684,697
	09/05/2029	9.25	3,356
	06/06/2029	9.38	11,111
	01/09/2029	9.25	6,210
	30/09/2029	8.63	853,800
	06/12/2029	9.25	10,936
2029/30 Cyfanswm			1,570,110
2030/31	01/04/2030	3.91	450,706
	09/05/2030	9.38	7,919
	01/09/2030	9.75	12,901
	09/11/2030	9.75	4,365
	06/12/2030	9.75	9,074
	01/03/2031	9.25	7,140
2030/31 Cyfanswm			492,105
2031/32	01/04/2031	3.96	660,449
	30/09/2031	8.63	1,280,700
2031/32 Cyfanswm			1,941,149
2032/33	01/04/2032	4.01	314,886
	06/06/2032	9.25	24,731
	06/12/2032	9.50	30,954
	01/03/2033	9.88	1,168
2032/33 Cyfanswm			371,739
2033/34	01/04/2033	4.05	636,565
2033/34 Cyfanswm			636,565
2034/35	01/04/2034	4.09	623,834
2034/35 Cyfanswm			623,834
2035/36	01/04/2035	4.13	611,357
2035/36 Cyfanswm			611,357
2036/37	01/04/2036	4.16	599,130
2036/37 Cyfanswm			599,130
2037/38	01/04/2037	4.18	587,147
2037/38 Cyfanswm			587,147
2038/39	01/04/2038	4.20	225,467
2038/39 Cyfanswm			225,467

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Aeddfedu'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2039/40	15/04/2039	4.95	5,000,000
2039/40 Cyfanswm			5,000,000
2040/41	15/04/2040	4.95	3,500,000
2040/41 Cyfanswm			3,500,000
2042/43	01/04/2042	4.25	999,781
2042/43 Cyfanswm			999,781
2043/44	01/04/2043	4.25	1,020,120
2043/44 Cyfanswm			1,020,120
2044/45	01/04/2044	4.25	1,009,718
2044/45 Cyfanswm			1,009,718
2045/46	01/04/2045	4.25	11,464,215
2045/46 Cyfanswm			11,464,215
2050/51	16/01/2051	4.15	2,000,000
2050/51 Cyfanswm			2,000,000
2052/53	19/05/2052 12/10/2052 09/11/2052 20/11/2052 11/12/2052	4.05 4.55 4.55 4.20 4.25	5,000,000 4,300,000 6,138,400 6,800,000 6,000,000
2052/53 Cyfanswm			28,238,400
2054/55	06/05/2054	8.38	3,000,000
2054/55 Cyfanswm			3,000,000
2055/56	15/11/2055 15/12/2055	8.00 7.88	1,500,000 2,000,000
2055/56 Cyfanswm			3,500,000
2056/57	15/04/2056 10/10/2056	7.13 7.88	3,000,000 2,000,000
2056/57 Cyfanswm			5,000,000
2057/58	15/04/2057 15/10/2057	7.13 6.50	6,000,000 2,512,854
2057/58 Cyfanswm			8,512,854
2059/60	22/06/2059	4.25	1,763,308
2059/60 Cyfanswm			1,763,308
2064/65	25/03/2065	2.24	10,000,000
2064/65 Cyfanswm			10,000,000
2066/67	30/03/2067	2.20	6,200,000
2066/67 Cyfanswm			6,200,000
2068/69	16/01/2069	2.49	15,000,000
2068/69 Cyfanswm			15,000,000
Cyfanswm			117,693,078

Dyddiadau Ad-daliadau Benthyciadau Salix

Blwyddyn Ariannol	Ad-daliadau Benthyciadau Salix £
2025/26	577,033
2026/27	531,413
2027/28	531,413
2028/29	531,413
2029/30	454,613
2030/31	441,413
2031/32	441,413
2032/33	220,977
2033/34	220,977
2034/35	220,977
2035/36	220,977
Cyfanswm	4,392,618

Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer 2025/26

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cronedig cyfalaf y Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthycu bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf - DRI).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi DRI isod:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthycu â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir bob blwyddyn yn ddarostyngedig i dâl DRI tan y flwyddyn ariannol ganlynol neu, mewn rhai achosion, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, tan y flwyddyn wedi i'r ased ddod yn weithredol lle bo'r costau'n gysylltiedig â'r ased yn £5m neu uwch.

Bydd amcangyfrifo oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Gordaliadau DRI – O dan y canllawiau DRI, gellir gwneud taliadau sy'n uwch na'r DRI statudol, sef darpariaeth refeniw gwirfoddol (DRG).

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny ar gyfer Cronfa'r Cyngor a / neu'r CRT.

Gellir hawlio DRG yn ôl yn ddiweddarach os credir bod hynny'n angenrheidiol neu'n ddarbodus. Er mwyn gallu adennill y symiau hyn i'w defnyddio yn y gyllideb, mae'n rhaid i'r polisi hwn ddatgelu'r gordaliadau cronus a wneir bob blwyddyn.

Mae'r gordaliadau DRG cronus hyd yma yn £0.216m a £12.386m o'r gorddarpariaeth o DRI yn dilyn y newid ym Mholisi DRI yn 2018.

Asedau ar Brydles i'r Awdurdod

O 1 Ebrill 2024, bydd y DRI a godir mewn perthynas ag asedau hawl i'w defnyddio ar brydles i'r Cyngor neu MCP (Menter Cyllid Preifat) yn gyfartal i brif elfen yr ad-daliad blynyddol.

Cyfarwyddyd Cyfalafu

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r dull oes ased ar gyfer unrhyw wariant a gyfalafir o dan y Cyfarwyddyd Cyfalafu.

Benthyciadau i Drydydd Bartion

Digwyddiad eithriadol o brin lle bydd y Cyngor yn darparu benthyciad i drydydd parti. Ar gyfer gwariant cyfalaf ar fenthyciadau i drydydd bartion lle mae prif elfen y benthyciad yn cael ei ad -dalu mewn rhandaliadau blynyddol. Defnyddir y derbynebaw cyfalaf sy'n deillio o'r prif ad-daliadau benthyciad i leihau'r GCC yn lle DRI. Lle na wneir unrhyw brif ad-daliad mewn blwyddyn benodol, codir DRI ar gyfradd yn unol ag oes yr asedau a gyllidir gan y benthyciad.

Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

- (a) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a
- (b) nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a
- (c) nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a
- (ch) gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:-
 - (i) Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
 - (ii) awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn Adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
 - (iii) cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r 'Canllawiau' hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2025/26, nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfrandaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol, felly, yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategoriâu o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2025/26 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategoriâu o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac / neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi cysylltiedig.

Meini Prawf Gwrthbartion Buddsoddiadau

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AA A	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r DUg sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Banc y NatWest - Cyfrif busnes a rheolwr arian parod – pan ddelir symiau yn y NatWest fel rhan o fancio gweithredol. Bydd y symiau a'r terfynau canlynol yn berthnasol i sicrhau bod arian parod digonol ar gael i dalu biliau wrth iddynt ddod yn ddyledus	F1	P-1	A-1	A+	A1	A+	1) £20m i £25m	5 diwrnod gwaith
							2) £15m i £20m	1 mis
							3) £10m i £15m	2 fis
Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y DU **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AA A	AAA	AAA	£5m	6 mis

*fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

Nodiadau ac Eglurhad**(1) Terfyn Arian Parod**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

(2) Terfyn Amser

- (i) I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

(3) Gwledydd Tramor

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AAA (Fitch) neu raddfa credyd sofran gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwadr cyffredin lleiaf), a hyd at uchafswm o £5m fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y DU waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y DU oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y DU a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

(4) Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd, a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 25 Tachwedd 2024]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd MUFG.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA-

- y DU

Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**(i) Cyngor Sir**

- cymeradwyo'r Gyllideb;
- cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol, Strategaeth fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi DRI, Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynnyddol a diwygiadau iddynt;
- cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a / neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Pwyllgor Gwaith

- ystyried y gyllideb;
- cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli'r Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-
 - craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DRI Blynnyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynnyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynnyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynnyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion arall sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
 - derbyn a chraffu ar yr adroddiad Rheoli'r Trysorlys canol blwyddyn a'r Adroddiad Alldro Trysorlys, a'r adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli'r Trysorlys y Swyddog Adran 151**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn cynnwys:-**

- argymhell cymalau, polisi / arferion rheoli'r trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli'r trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli'r trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgyssylltu ag archwilwyr allanol;
- argymhell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi a cyllido, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli'r trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro rheolaeth barhaus o'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT) sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
 - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
 - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
 - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
 - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
 - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER 2023/24 – 2028/29

Dangosyddion Darbodus		2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Fforddiadwyedd		gwirioneddol	amcangyfrif	amcangyfrif	amcangyfrif	amcangyfrif	amcangyfrif
	Cronfa'r Cyngor	3.16%	3.01%	2.61%	2.59%	2.54%	2.53%
	Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys setliad)	5.09%	6.04%	4.74%	6.28%	8.24%	8.83%
	Cyfanswm	3.77%	3.62%	3.00%	3.43%	4.14%	4.41%
Bod yn ddarbodus							
3	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)						
	Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cwariant cyfalaf							
4,5	Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cronfa'r Cyngor	30,768	39,162	22,207	8,315	7,196	7,061
	Cyfrif Refeniw Tai	19,806	27,841	25,438	26,266	11,368	10,969
	Cyfanswm	50,574	67,003	47,645	34,581	18,564	18,030
6,7	Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu'r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cronfa'r Cyngor	108,542	111,141	117,333	119,949	121,352	122,725
	Cyfrif Refeniw Tai	38,151	38,083	37,057	42,118	49,718	51,409
	Cyfanswm	146,693	149,224	154,390	162,067	171,070	174,134
8	Terfyn Awdurdodedig	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Benthycu Cyffredinol	154,390	162,067	171,070	174,134	176,230	181,461
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	159,390	167,067	176,070	179,134	181,230	186,461

Dangosyddion Darbodus		2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
9	Terfyn gweithredol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Benthycu cyffredinol	144,390	152,067	161,070	164,134	166,230	171,461
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	149,390	157,067	166,070	169,134	171,230	176,461
10	Dyled Allanol Awirioneddol	122,410	122,163	124,705	132,899	141,789	146,756
Rheoli'r Trysorlys							
		alldro	amcangyfrif	arfaethedig	arfaethedig	arfaethedig	arfaethedig
11	Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
Tudalen 96	(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn)						
	Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog						
	• dan 12 mis	<20%					
	• 12 mis ac o fewn 24 mis	<20%					
	• 24 mis ac o fewn 5 mlynedd	<20%					
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	<30%					
	• 10 mlynedd a thrososdd	Dim terfyn uchaf					

Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys

DANGOSYDDION DARBODUS**A) Fforddiadwyedd****1 a 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

(B) Bod yn Ddarbodus**3 Dyled Gros a'r GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2025/26 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrrwr allweddol o ran gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo Aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2022/23 hyd at 2025/26, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26.

6 a 7 Anghenion Benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blyneddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac, felly, mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymïadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac, o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthycu, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthycu ac, o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthycu ar wahân ar gyfer y cynlluniau yma. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngoro £dim o'r fath yma o gynlluniau yn y GCC.

CH) Dyled Allanol

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthycu. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n ddymunol, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymïadau cyfredol, y cynlluniau presennol a'r cynigion sydd yn yr adroddiad ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC, ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthycu trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.
10. **Gwir ddyled allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthycu gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymïadau tymor hir eraill ac, felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

DANGOSYDDION TRYSORLYS

11. **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnwys er mwyn adennill cyllid. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.
12. **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.
13. **Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2025/26 yw'r Meincnod Rhwymedigaethau (MRh). Mae'n rhaid i'r Cyngor amcangyfrif a mesur y MRh ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ddilynol.

Mae'r MRh yn cynnwys pedair rhan:-

1. **Dyledion benthyciadau cyfredol sy'n ddyledus:** benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.

2. **GCC Benthyciadau:** mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côd Darbodus ac mae amcangyfrifon i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthycia darbodus a gymeradwywyd a DRI a gynlluniwyd.
3. **Gofyniad benthycia net:** bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor llai buddsoddiadau rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthycia darbodus a gymeradwywyd, DRI a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthycia gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthycia net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

Geirfa**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF

Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF

Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu.

RHAGLEN GFYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai'r Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycu arnynt ei hun.

GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

BENTHYCA Â CHEFNOGAETH

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA DIGEFNOGAETH

Gall y Cyngor fenthycu arian ychwanegol i'r benthycu a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn cyllido ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côt y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	11 Chwefror 2025
Pwnc:	Adroddiadau Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rhesymau dros Adrodd: Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gofyn yn benodol i'r Pwyllgor oruchwyllo archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith ar gyfer her fewnol ac atebolrwydd cyhoeddus. (3.4.8.1.3) Wrth wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau perthnasol yr archwilydd allanol (3.4.8.11.2), yn rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder eu gwaith, gan sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian, ac yn cadw golwg ar eu hargymhellion. (3.4.8.11.3)	

1. Cyflwyniad

1.1 Dros wanwyn a haf 2024, adolygodd Archwilio Cymru gynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 cyngor yng Nghymru. Roeddent yn canolbwyntio ar:

- y strategaethau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor cyngorau;
- dealltwriaeth cyngorau am eu sefyllfa ariannol; a
- trefniadau adrodd cyngorau i ategi goruchwyliaeth reolaidd ar eu cynaliadwyedd ariannol

1.2 Roedd canlyniad y gwaith hwn ar ffurf dau adroddiad, y ddau wedi'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024: adroddiad cenedlaethol, ac adroddiad lleol, a oedd yn canolbwyntio ar y gwaith a wnaed ym mhob cyngor.

1.3 Daeth adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru i'r casgliad bod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd cyllid llywodraeth leol sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig heb weithredu i'w lliniaru.

1.4 Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod hon yn neges anodd i'r sector ei derbyn ond ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad wedi helpu cyngorau, Llywodraeth Cymru a'r rhai sydd wedi ymrwymo i'r sector, i gofnodi llwybr at ddyfodol cynaliadwy.


- 1.5 Dywedodd Archwilio Cymru bod rhai cyngorau wedi dweud bod materion neu brosesau cenedlaethol yn gwneud cynllunio ariannol yn anoddach. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon yn ymwneud â'r fformiwla ariannu llywodraeth leol a'r setliad ariannu, a'r cyfrifoldebau cynyddol sy'n cael eu rhoi ar gyngorau.
- 1.6 Wrth gyhoeddi eu hadroddiad lleol, yn benodol o ran y gwaith a wnaed yng Nghyngor Sir Ynys Môn, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniant da ar y cyfan i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig ond nad yw wedi ffurfioli'r gwaith o gynllunio a goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol tymor hir. Maent yn nodi yn eu hadroddiad llawn pam eu bod wedi dod i'r casgliad hwn.
- 1.7 Gwnaeth Archwilio Cymru un argymhelliad ynghylch datblygu strategaeth ariannol hirdymor a fyddai'n cefnogi dealltwriaeth y Cyngor o'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol ac i lywio'i drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau. Ymatebodd y Cyngor fod ganddo strategaeth ariannol tair blynedd, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2024, ac mae'n datblygu nifer o gynlluniau strategol sy'n ehangu ar yr amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor a sut y bydd y strategaeth ariannol yn cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor.
- 1.8 Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, a gall Llywodraeth Cymru roi syniad tymor hir i'r Cyngor o gyllid yn y dyfodol, bydd y wybodaeth yma yn helpu llunio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) ddiwygiedig a fydd yn nodi sefyllfa gyllido hirdymor y Cyngor a sut mae'r Cyngor yn anelu at fynd i'r afael â'i faterion cyllido hirdymor. Mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Rhagfyr 2025.
- 1.9 Mae Archwilio Cymru hefyd wedi cyhoeddi diweddariad i'w [Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol](#) sy'n cynnwys data cymharol ar lefelau cyngorau o gronfeydd ariannol wrth gefn a benthyca.

2. Argymhelliad

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y ddau adroddiad ac yn derbyn sicrwydd o ymateb y Cyngor ei fod yn deall ei sefyllfa ariannol ac yn datblygu strategaeth ariannol tymor hir, yn amodol ar arwydd tymor hir o gyllid y dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol

Rhagfyr 2024



Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a nodd ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol	4
Crynodeb gweithredo	6
Ffeithiau allweddol	7
Negeseuon allweddol	8

Adroddiad manwl

Beth mae cynaliadwyedd ariannol yn ei olygu?	11
Ar y cyfan, canfuom fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ategu eu cynaliadwyedd ariannol byrdymor ond nad ydynt wedi datblygu eu cynlluniau tymor hwy yn llawn eto	13
Canfyddiadau cenedlaethol	17
Cyd-destun ehangach y DU	21
Beth mae hyn yn ei olygu i gynghorau yn y dyfodol?	27
Trosolwg o sefyllfaoedd ariannol a chyllid cynghorau	30
Cynaliadwyedd ariannol ar dudalen	49
Ein hadroddiadau lleol	50
Canfyddiadau adroddiadau lleol	51

Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio	63
--------------------------------	----



Adroddiad cryno

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

Mae sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn anghynaliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu

- 1 O'm safbwynt fel archwilydd cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, rwy'n gweld y gwasanaethau gwerthfawr y mae'r sector llywodraeth leol yn eu darparu'n ddyddiol i bobl Cymru – casgliadau gwastraff, llyfrgelloedd, iechyd yr amgylchedd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a llawer mwy. A hwythau'n hollbwysig i ddinasyddion, mae'r gwasanaethau hyn dan bwysau cynyddol o ganlyniad i bwysau ariannol, demograffig a chymdeithasol.
- 2 Hyd yma, yn wahanol i Loegr, mae holl gynghorau Cymru wedi gallu mantoli eu cyllidebau ac ni fu angen i'r un ohonynt gyflwyno adroddiad Adran 114.¹ Mae hynny'n tystio i ymrwymiad swyddogion a chynghorwyr ledled Cymru a'r penderfyniadau anodd a wnaed eisoes. Fodd bynnag, wrth i effaith gronns cyfyngiadau ariannol gynyddu, ni allwn dybio bod dyfodol y sector yn gynaliadwy. Mae'r sefyllfa'n fregus ac yn sensitif i'r ffactorau cymhleth, sy'n cystadlu â'i gilydd, sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol cynghorau.
- 3 Fy rôl i yw amlygu'r risgiau hyn a darparu sicrwydd ynghylch y trefniadau y mae cynghorau wedi'u gwneud. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi adolygu'r camau y mae cynghorau'n eu cymryd a'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i ategu eu cynaliadwyedd ariannol eu hunain.
- 4 Dengys ein gwaith, er bod cynghorau fel rheol yn gwybod beth yw maint y bylchau yn eu cyllid, nad oes ganddynt gynlluniau tymor hwy i fynd i'r afael â hwy. Mae hyn yn eu gadael dan fygythiad oherwydd penderfyniadau byrdymor nad ydynt o bosibl yn rhoi gwerth am arian nac er lles cymunedau lleol yn y tymor hwy. Mae hynny'n groes i ddisgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gwneud meddwl am yr hirdymor yn ganolog i gynllunio sefydliadol.

1 Cyhoeddir adroddiad Adran 114 i'r Cyngor Llawn lle mae Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) cyngor yn credu bod y cyngor wedi gwario (neu wedi ymrwymo i wario) mwy na chyfanswm yr adnoddau sydd ar gael iddo. Yna mae'n gosod terfynau gwariant ar y cyngor.

- 5 Mae ein harchwiliad hefyd yn amlygu pwysigrwydd llywodraethu da i gynaliadwyedd ariannol. Mae hynny'n golygu bod ag arweinyddiaeth strategol eglur, dealltwriaeth fanwl a gyflëir yn dda am y sefyllfa ariannol, a goruchwyliaeth a chydweithio effeithiol gan gynghorwyr etholedig. Mewn amgylchedd o'r fath, mae gwerth am arian yn fwy tebygol o fod yn ganolog i brosesau penderfynu. Rwy'n adleisio barn un o'm cymheiriaid, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU, y dylai hybu cynhyrchiant a gwneud i arian cyhoeddus weithio'n galetach fod yn ffocysau i'r sector cyhoeddus cyfan.²
- 6 Fe bwysleisiais yr holl faterion hyn yn fy natganiad yn gynharach yn y flwyddyn - O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Archwilio Cymru. Yn y datganiad hwnnw, fe ddisgrifiais themâu cyffredin yr wyf yn eu gweld dro ar ôl tro o'n gwaith ar draws y sector cyhoeddus. Pe byddid yn mynd i'r afael â hwy, gallai sefydliadau cyhoeddus gyflawni mwy â'r hyn y maent eisoes yn ei wario ac felly helpu i newid o ymdrin yn ddi-baid â heriau uniongyrchol heddiw wrth iddynt godi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- 7 Mae rhai cynghorau mewn sefyllfa well na'i gilydd i ddygymod â'r heriau ariannol sydd o'u blaenau. Ond, o ystyried maint y bylchau mewn cyllid a ragamcanir ar gyfer llywodraeth leol dros y blynyddoedd sydd i ddod, bydd angen i'r holl gynghorau barhau â chyflymder y newid neu ei gynyddu er mwyn iddynt ymateb i natur frys a maint yr her. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r sector i ymateb i'r her hon hefyd.
- 8 O'i fynegi'n syml, mae llywodraeth leol yn ariannol anghynaliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu, gan y rhai sy'n cefnogi'r sector ac yn rhyngweithio ag ef yn ogystal â chynghorau eu hunain. Er ei bod yn neges anodd, rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn helpu cynghorau, Llywodraeth Cymru a phawb sy'n ymrwymedig i'r sector, i osod llwybr at ddyfodol cynaliadwy.

2 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Here's how to make public money work harder, Medi 2024

Crynodeb gweithredol

Cyd-destun

- 9 Dros wanwyn a haf 2024, fe wnaethom fwrw golwg ar gynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Fe wnaethom ganolbwyntio ar:
 - y strategaethau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor cynghorau;
 - dealltwriaeth cynghorau am eu sefyllfa ariannol; a
 - threfniadau adrodd cynghorau i ategu goruchwyliaeth reolaidd ar eu cynaliadwyedd ariannol.
- 10 Mae'r adroddiad hwn yn darparu peth cyd-destun ar gyfer yr heriau ariannol a wynebwr gan gynghorau ac yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith hwn. Rydym hefyd wedi myfyrio ynghylch beth y mae hyn i gyd yn ei olygu ar gyfer cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol ac yn darparu rhai myfyrdodau ynglŷn â sut y gellid cryfhau cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol.



Ffeithiau allweddol

Isod ceir rhai ffeithiau allweddol sy'n dangos sut y mae'r pwysau ariannol ar sefyllfa ariannol cynghorau wedi tyfu dros amser

3.3% (£3 biliwn) – y twf mewn termau real yng ngwariant gros cynghorau rhwng 2008-09 a 2023-24.



94%, 27%, a 31% – y twf mewn termau real yng ngwariant cynghorau ar ofal cymdeithasol plant, oedolion, a phobl hŷn rhwng 2008-09 a 2023-24

-62% – y gostyngiad mewn termau real yng ngwariant cynghorau ar ddiogelwch cymunedol rhwng 2008-09 a 2022-23



-16.6% – y gostyngiad mewn termau real mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy nad ydynt wedi'u diogelu'n gyfreithiol rhwng 2022-23 a 2023-24³



79% – y cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan gynghorau Cymru rhwng 2003 a 2023



41% – y cynnydd yng ngwariant ysgolion ar Anghenion Dysgu Ychwanegol rhwng 2015-16 a 2022-23



-4.3% – y gostyngiad yn y cyllid mewn termau real ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru rhwng 2025-26 a 2027-28 a ragwelir gan Brifysgol Caerdydd

3 Cymhariaeth rhwng yr 19 o gynghorau a oedd wedi darparu cyfrifon drafft ar gyfer 2023-24 ar adeg drafftio'r adroddiad yw hyn. Nid yw'n cynnwys CBS Blaenau Gwent, CS Ddinbych a CBS Merthyr Tudful.



Negeseuon allweddol

Isod ceir crynodeb o'r negeseuon allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

Ceir risgiau sylweddol i gynaliadwyedd sefyllfa ariannol llywodraeth leol sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig heb gamau gweithredu i'w lliniaru

- 11 O ystyried maint y pwysau o ran cyllid sy'n wynebu llywodraeth leol, mae ar lawer o gynghorau angen newid sylweddol yn eu dull i symud y tu hwnt i bennu cyllideb a fantolir yn flynyddol i gyflawni gwerth am arian a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.

Mae'r sector cyhoeddus wedi wynebu cyfnod o bwysau ariannol digynsail ers 2008.

- 12 Mewn termau real fe ostyngodd gwariant gan gynghorau rhwng 2008 a 2020. Fe gododd ychydig yn ystod y pandemig ond mae'r twf ar y cyfan mewn cyllid ar gyfer cynghorau'n dal i fod ymhell islaw'r gyfradd twf cyn 2008. Mae hyn wedi golygu bod angen i gynghorau wneud dewisiadau anodd trwy gydol y cyfnod hwn.

Mae'r pwysau ar gyllid llywodraeth leol dros y cyfnod hwn wedi effeithio ar gynghorau a gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol

- 13 Mae rhai gwasanaethau wedi cael eu 'diogelu' rhag gostyngiadau mewn cyllidebau yn fwy na'i gilydd, ac i rai meysydd gwasanaeth mae hyn wedi amrywio ar draws cynghorau. Mae'n nodedig, serch hynny, bod rhai gostyngiadau sylweddol mewn gwariant wedi cael eu gweld ym meysydd rheoleiddiol ac ataliol gwariant cynghorau.

Ceir ffactorau sylweddol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth

- 14 Mae heriau cyd-destunol ehangach yn effeithio'n fawr ar y galw am wasanaethau a chostau i gynghorau. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, cynnydd mawr ac nas rhagwelwyd mewn chwyddiant oherwydd digwyddiadau byd-eang. I raddau amrywiol mae'r rhain y tu hwnt i reolaeth cynghorau. Mae hyn yn gwneud lliniaru eu heffaith yn anos.

Mae gan yr holl gynghorau yng Nghymru drefniadau i ddeall eu sefyllfaoedd ariannol yn y tymor byr a chanolig. Fel rheol, serch hynny, nid ydynt yn bwrw golwg tymor hwy ar gynaliadwyedd ariannol

- 15 Ychydig o gynghorau sydd â dealltwriaeth gynhwysfawr am sut y byddant yn cau'r bylchau rhagamcanol yn eu cyllidebau dros y tymor canolig a hir – y tu hwnt i'r ddwy flynedd nesaf. Er bod rhai cynghorau wedi adnabod rhai o'r arbedion sy'n ofynnol, ceir dibyniaeth barhaus ar gylchoedd arbedion blynyddol, yn hytrach na chynlluniau trawsnewid tymor hwy. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth ar arbedion byrdymor, a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr.
- 16 Mae hyn yn cynyddu'r risg dros amser na fydd bylchau yn y cyllid yn cael eu pontio, neu na fydd datrysiadau byrdymor yn helpu cynghorau i sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

Mae gan gynghorau drefniadau adrodd ariannol sy'n briodol fel rheol ar gyfer y tymor byr a chanolig ond mae asesu a monitro effaith penderfyniadau ariannol yn wendid

- 17 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i adrodd ar eu sefyllfa ariannol yn y tymor byr a chanolig. Mae hyn yn helpu i hwyluso goruchwyliaeth a chraffu ar sefyllfa ariannol cynghorau. Fodd bynnag, mae asesu ac adrodd ar effaith wirioneddol cynlluniau a phenderfyniadau ariannol unwaith y maent wedi cael eu rhoi ar waith yn wendid. Heb ddeall a monitro effaith penderfyniadau ariannol mae'n anodd i gynghorau ddeall i ba raddau y maent yn cyflawni gwerth am arian.

Enghreifftiau o arfer

- 18 Roedd ein hadolygiad yn amcanu at hyrwyddo enghreifftiau o arfer a allai helpu cynghorau i wella eu cynaliadwyedd ariannol. Rydym wedi tynnu ar rywfaint o'r hyn y gwnaethom arsylwi arno mewn cynghorau gwahanol yn ystod yr adolygiad ac wedi cynnwys rhestr wirio yn yr adroddiad i gynghorau ei hystyried yn erbyn eu trefniadau hwy eu hunain.

Mae llawer o'r heriau ariannol a wynebwr gan gynghorau Cymru'n gyffredin i'r rhai a wynebwr gan gynghorau yng ngweddill y DU

- 19 Mae profiad o bob rhan o'r DU yn cynnig potensial ar gyfer dysgu o ardaloedd eraill. Rydym wedi amlinellu rhai o'r gwersi hyn, gan gynnwys gwersi allweddol o'r adroddiadau Adran 114 a gyhoeddwyd yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd bod yn ymwybodol a derbyn heriau ariannol, cynnig arweinyddiaeth i ymateb iddynt, a bod â threfniadau llywodraethu priodol i oruchwylio'r ymateb.

Clywsom rai pryderon bod materion neu brosesau cenedlaethol yn gwneud cynllunio ariannol yn anos

20 Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch:

- y fformiwla gyllido a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol;
- amseriad y setliad cyllid llywodraeth leol, a'r diffyg setliadau 'amlflwyddyn' sy'n bresennol mewn meysydd gwariant eraill; a hefyd
- gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar gynghorau heb i gyllid cymesur fod ar gael.

21 Rydym wedi adrodd ar y rhain i ddarparu cyd-destun a chydbwysedd ond nid ydym wedi archwilio nac asesu'r materion hyn o fewn cwrmpas y gwaith hwn.

Ein hymagwedd archwilio

22 Caiff ein hymagwedd archwilio ei nodi yn yr atodiadau wrth yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â map sy'n darparu dolenni i'n hadroddiadau lleol. Mae'r gwaith hwn yn parhau â'n gwaith ar gynaliadwyedd ariannol, yn fwyaf diweddar yn 2021. Ateir ein gwaith hefyd gan ein hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol. Rydym wedi cyhoeddi'r diweddariad mwyaf diweddar i'r offeryn hwn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae'r diweddariad hwn wedi ychwanegu data ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24⁴, yn ogystal â dangosyddion newydd sy'n cwrmpasu lefelau benthychiadau cynghorau.

4 Daw'r data yn yr offeryn ar gyfer 2022-23 a 2023-24 o ddatganiadau ariannol drafft, anarchwiliedig.



Adroddiad manwl

Beth mae cynaliadwyedd ariannol yn ei olygu?

- 23 Nid oes diffiniad cyffredin o gynaliadwyedd ariannol yn y sector cyhoeddus. Caiff ein dealltwriaeth ni am sut y mae cynaliadwyedd ariannol yn edrych ei goleuo gan ein gwybodaeth a phrofiad archwilio cronrus, a gwaith cyrff allweddol fel y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Fe'i goleuir hefyd gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 24 Gallai cyngor fod yn gynaliadwy trwy ddarparu'r gwasanaethau lleiaf i'r safon isaf a ganiateir gan y gyfraith. Ond byddai hyn yn annhebygol o'i alluogi i gyflawni ei holl amcanion neu ddiwallu anghenion a chwrdd â dyheadau ei gymunedau. Yn yr un modd gallai cynlluniau ariannol cyngor fod yn anghynaliadwy am ei fod yn ceisio darparu gwasanaethau ymhell uwchlaw disgwyliadau rhesymol defnyddwyr gwasanaethau, neu am ei fod wedi cymryd risgiau masnachol diangen i ddarparu gwasanaethau.
- 25 Mae cynghorau'n annibynnol ar gyrff cyhoeddus eraill gyda'u pwerau codi trethi eu hunain ond maent yn dal i fod â chysylltiad sylfaenol â'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru'n gosod gofynion ar gynghorau, gan hefyd ddarparu'r rhan fwyaf o'u cyllid, fel a amlinellir isod. Gall camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus mewn sectorau eraill fel yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, a chyrrff iechyd, gael effaith ar wasanaethau a gwariant cynghorau hefyd. I fod yn ariannol gynaliadwy, mae angen i gyngor ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol ganddo, yn ôl y gyfraith a disgwyliadau, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo yn y tymor hir. Gall rhan o hyn gynnwys ailddiffinio beth allai disgwyliadau 'rhesymol' fod i ddefnyddwyr gwasanaethau wrth i bwysau'r galw, blaenoriaethau a'r sefyllfa o ran cyllid newid.
- 26 Rhaid i gyngor cynaliadwy hefyd ddarparu'r asedau a'r seilwaith i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau'n effeithiol. Mae hyn yn galw am daro cydbwysedd rhwng buddsoddi cyfalaf a'i ffynonellau, megis benthyca, yn ogystal â chynnal a chadw parhaus a rhwymedigaethau yn y dyfodol ar y naill law, ac effaith y penderfyniadau ariannol hyn ar wariant refeniw ar y llaw arall. Gall methu â buddsoddi yn y tymor byr achosi costau uwch yn y tymor canolig a hir.

- 27 Er y gall cyngorau roi trefniadau ar waith a gwneud penderfyniadau i wella eu cynaliadwyedd ariannol, mae rhai ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y lefelau cyllido a'r model cyllido a bennir i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a newidiadau yn yr economi ehangach. Er eu bod y tu hwnt i'w rheolaeth, mae'n dal yn wir bod angen i gyngorau lunio tybiaethau gwybodus ynglŷn â ffactorau o'r fath i oleuo eu prosesau cynllunio ariannol.

Ar y cyfan, canfuom fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ategu eu cynaliadwyedd ariannol byrdymor ond nad ydynt wedi datblygu eu cynlluniau tymor hwy yn llawn eto

Pa mor dda y mae cynghorau'n deall y sefyllfa ariannol?

- 28 Mae'r adroddiad cenedlaethol hwn yn adlewyrchu canfyddiadau o'r asesiadau yr ydym wedi'u cynnal ym mhob un o'r 22 o gynghorau. Ni fyddai'n synhwyrol nac o gymorth defnyddio'r canfyddiadau hyn i lunio 'tabl cynghrair' o gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae Atodiad 1 wrth yr adroddiad hwn yn dangos ein prif ganfyddiadau ar gyfer pob cyngor. Mae adroddiadau ar y cynghorau unigol wedi'u cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru.
- 29 Mae gan yr holl gynghorau drefniadau i'w galluogi i feintioli eu sefyllfa ariannol a deall eu pwysau ariannol yn y tymhorau byr a chanolig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn dal i ganolbwyntio ar y ddwy flynedd nesaf, ac ychydig ohonynt sy'n edrych y tu hwnt i'r tair blynedd nesaf. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r cyllidebau mantoledig blynyddol y mae'n ofynnol i gynghorau eu pennu yn ôl y gyfraith, a all hybu ffocws ar y tymor byr. Gall edrych tuag at gyfnod hwy helpu cynghorau i gael dealltwriaeth well am yr heriau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal ag ategu datrysiadau tymor hwy na ellir eu rhoi ar waith mewn cylch blynyddol.
- 30 Canfuom nad yw cronfeydd wrth gefn wastad yn cael eu defnyddio mewn modd strategol. Mae cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio, mewn rhai cynghorau, fel strategaethau 'pontio' i fantoli cyllidebau blynyddol yn hytrach na chefnogi trawsnewid tymor hwy. Gall cronfeydd wrth gefn fod yn offeryn pwysig i gyllido buddsoddiadau i ategu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy megis prosiectau 'buddsoddi i arbed' neu brosiectau trawsnewid. Mae cronfeydd wrth gefn hefyd i bob pwrpas yn gronfa argyfwng ar gyfer cynghorau y gellir ei defnyddio'n anfynych i gyllido pwysau ariannol annisgwyl. Mae eu defnyddio dim ond i gyllido pwysau yn ystod y flwyddyn heb eu defnyddio i ategu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy yn annhebygol o gyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, dan rai amgylchiadau, efallai nad oes modd osgoi hyn, yn enwedig o ystyried ar ba raddfa a chyflymder y mae pwysau ariannol wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

- 31 Heb strategaethau ariannol hirdymor eglur, a ategir gan gynlluniau manwl ar gyfer y tymor canolig, mae cyfeiriad strategol hirdymor cynghorau tuag at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn aneglur. Mae strategaethau a chynlluniau ariannol corfforaethol yn darparu fframwaith i gynghorwyr etholedig, yn ogystal â'r cyhoedd, ddeall penderfyniadau a chymau gweithredu. Lle nad oes gan gynghorau strategaethau ariannol tymor hwy, ni allwn fod wedi ein sicrhau bod gan gynghorau drefniadau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor ac felly gwerth am arian.
- 32 I helpu i wella eu cynaliadwyedd ariannol, mae rhai cynghorau wedi ceisio cyngor i ddeall eu sefyllfa ariannol yn well. Mae hyn wedi cynnwys meincnodi i ddeall gwariant y pen gyda chynghorau tebyg. Gall hyn helpu cynghorau i adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy ddysgu sut y mae cynghorau eraill yn darparu gwasanaethau a chostau eu darparu.

Pa mor ddatblygedig yw cynlluniau cynghorau i ymateb i'r her ariannol dros y tymor canolig?

- 33 Nid oes gan yr un cyngor ddealltwriaeth gynhwysfawr am sut y bydd yn pontio'r bylchau yn ei gyllid dros gyfnod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Er bod rhai wedi adnabod cyfran sylweddol o'r arbedion, mae'r mwyafrif yn dal i ganolbwyntio ar arbedion blynyddol. Yn y tymor hir, mae'n annhebygol y bydd y dull hanesyddol o wneud toriadau fesul tipyn ar draws ystod eang o wasanaethau'n ddigon o ystyried lefelau'r arbedion y mae cynghorau wedi eu gwneud ers 2008.
- 34 Mae cynghorau'n cydnabod bod angen rhywfaint o drawsnewid gwasanaethau i bontio'r bylchau yn eu cyllid; fodd bynnag, nid yw cynlluniau trawsnewid yn cael eu datblygu'n gyson. Mae rhai cynghorau wedi adnabod prosiectau trawsnewid, eu graddfeydd amser, a'u harbedion bwriadedig, sy'n helpu i hysbysu cynghorwyr ynghylch y datrysiadau posibl dros gyfnod hwy. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yng nghymau cynnar eu cynlluniau trawsnewid cyfredol, naill ai'n ffurfio trefniadau llywodraethu neu'n llunio rhestr o opsiynau posibl. Er nad yw'n anrffod y bydd yr holl drawsnewid yn arwain at arbedion, mae'n debygol y bydd angen cyflymu'r trawsnewid i helpu cynghorau i bontio'r bylchau yn eu cyllid dros y tymor canolig.

A oes gan gynghorau drefniadau llywodraethu cryf?

- 35 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i adrodd wrth gynghorwyr ar eu sefyllfa ariannol yn y tymor byr a chanolig. Mae hyn yn helpu i hwyluso goruchwyliaeth ar y sefyllfa ariannol ac i oleuo prosesau penderfynu.
- 36 Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ddeall ac asesu effaith penderfyniadau ariannol yn barhaus. Mae adrodd ar effaith penderfyniadau ar amcanion cynghorau a chymunedau lleol yn galluogi cynghorwyr i ddeall a yw effaith fwriadedig penderfyniadau ariannol wedi dod yn ffaith. Mae hyn yn ei dro'n helpu i adnabod a oes angen cymryd unrhyw gamau cywirol, yn ogystal â goleuo asesiadau o werth am arian penderfyniadau. Gall hefyd ddarparu gwersi i helpu i oleuo penderfyniadau ariannol yn y dyfodol.

Enghreiffiau o arfer

- 37 Rydym wedi tynnu ar beth o'r arfer y gwnaethom arsylwi arno mewn gwahanol gynghorau yn ystod yr adolygiad i ddatblygu rhestr wirio i gynghorau ei hystyried yn erbyn eu trefniadau hwy eu hunain:
- defnyddio cyngor allanol – mae rhai cynghorau wedi ceisio ategu eu dealltwriaeth am eu sefyllfa ariannol trwy gaffael data meincnodi manwl gan sefydliadau allanol. Mae hyn wedi helpu cynghorau i ddeall gwariant gwasanaethau yn berthynol i gynghorau tebyg, yn ogystal ag amrywiad posibl yn lefel y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gall hyn helpu cynghorau i gael gwybodaeth well am ble a sut y gallent wella gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
 - hybu dull cyfunol o wneud penderfyniadau ariannol – fe wnaeth nifer o gynghorau amlinellu sut y maent wedi cyfleu i gynghorau bod y gyllideb yn broses barhaus, yn hytrach na digwyddiad blynyddol. Fe arweiniodd hyn, er enghraifft, at weithdai a sesiynau ymgysylltu i drafod cynigion ariannol. Gall hyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth am benderfyniadau sydd weithiau'n anodd, ac felly cefnogaeth iddynt.
 - gwneud penderfyniadau'n hawdd i'w dychmygu – mae rhai cynghorau wedi adrodd wrth gynghorwyr am arbedion arfaethedig yn y gyllideb yn nhermau arian parod ac fel canran o'r Dreth Gyngor. Gall hyn helpu cynghorwyr i fod â dealltwriaeth well am effaith derbyn neu wrthod arbediad ar dalwyr lleol y dreth gyngor. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i wella tryloywder a dealltwriaeth am yr effaith ar gymunedau.
 - dadansoddi'r galw yn y dyfodol – mae ychydig o gynghorau wedi gwneud ymchwil i ddeall maint a natur galw rhagamcanol hirdymor am wasanaethau gan ddefnyddio data mewnol ac allanol. Gall hyn helpu cynghorau i ddatblygu dealltwriaeth fanwl am y bwlch yn eu cyllideb, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau â chynnydd rhagamcanol sylweddol yn y galw, megis gofal cymdeithasol oedolion.

- cysoni cynlluniau ariannol a thrawsnewid – mae ychydig o gynghorau wedi datblygu strategaethau trawsnewid sy'n cyd-fynd â'u Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig i amlinellu eu dull o gau'r bylchau yn eu cyllidebau dros y tymor byr, canolig a hir. Gall hyn helpu cynghorau i gyfleu eu dull bwriadedig i swyddogion, cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae hefyd yn helpu i ddarparu fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- bod ag offer eglur i dracio arbedion – mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n tracio'r modd y maent yn rhoi eu harbedion ar waith ac yn adrodd ar hyn wrth gynghorwyr er mwyn iddynt eu goruchwyllo. Mae rhai cynghorau'n rhoi sgoriau risg i arbedion unigol er mwyn rhoi arwydd eglur o'r tebygolrwydd o'u cyflawni. Gall rhoi sgoriau risg i arbedion wella craffu trwy ei gwneud yn glir lle nad yw arbedion ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni yn unol â'r targed a lle mae angen cymryd camau cywirol.
- deall yn glir beth yw effeithiau hirdymor a byrdymor prosesau penderfynu – mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n asesu effaith cynigion ar gyfer arbedion sylweddol. Mae rhai cynghorau'n asesu'r effaith ar gymunedau a chyflawni'r amcanion llesiant, rhai dros y tymor byr a hir. Gall hyn helpu i wella ansawdd prosesau penderfynu trwy ddarparu dealltwriaeth fanwl ar gyfer cynghorwyr am effaith bosibl penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol. Gall disgrifio opsiynau a ystyriwyd i liniaru unrhyw effaith negyddol hefyd helpu i hysbysu cynghorwyr wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynigion ar gyfer arbedion.
- deall a rhesymoli'r sylfaen asedau – mae cynghorau'n berchen ar ystod o adeiladau ac asedau eraill i ddarparu gwasanaethau ac yn buddsoddi ynddynt. Mae ganddynt gostau cynnal a chadw parhaus sy'n effeithio ar gynlluniau gwariant ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae deall cyflwr asedau y maent eisoes yn berchen arnynt, yn ogystal â deall yr hyn y mae ei angen yn y dyfodol, yn helpu i ddeall a chynllunio ar gyfer costau refeniw a chyfalaf adeiladau.

Canfyddiadau cenedlaethol

- 38 Mae ein hadroddiadau lleol wedi canolbwyntio ar y trefniadau sydd gan bob cyngor i ategu cynaliadwyedd ariannol. Fel a esbonnir uchod, darperir y rhan fwyaf o gyllid cyngorau gan Lywodraeth Cymru. Isod rydym yn crynhoi themâu a godwyd gan gynghorau yn ystod ein gwaith maes sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru.



Fformiwla gyllido

- 39 Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru, a adwaenir fel y setliad llywodraeth leol, yn cael ei bennu trwy gymhwyso fformiwla a adwaenir fel yr Asesiad o Wariant Safonol. Mae'r Asesiad o Wariant Safonol wedi'i fwriadu i adlewyrchu gwahanol gostau darparu gwasanaethau oherwydd demograffeg, daearyddiaeth, neu nodweddion economaidd-gymdeithasol. Dyrennir symiau tybiannol o gyllid i feysydd gwasanaeth penodol, er mai cynghorau unigol sydd wedyn yn penderfynu sut y dyrennir y cyllid hwn ar draws meysydd gwasanaeth.
- 40 Amlinellir proses yr Asesiad o Wariant Safonol mewn dogfennau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol.⁵ Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys y ffynonellau data, y dangosyddion a ddefnyddir, a'r asesiadau sy'n tynnu ar y data a dangosyddion. Adwaenir hwn fel y 'Llyfr Gwyrdd'. Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu'n annibynnol cyn setliad 2001-02 ac fe gwblhawyd adolygiadau â ffocws ar agweddau penodol ar y fformiwla wedi hynny, y cytunwyd arnynt yn dilyn trafodaethau trwy'r is-grŵp cyllid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cynghorau o blith cynghorwyr a swyddogion. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi papurau'n flynyddol sy'n darparu cyd-destun ac yn amlinellu'r broses flynyddol ar gyfer eu pennu.
- 41 Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwlâu wedi'u rhannu'n dri chategori:
- prif grwpiau cleientiaid – Dyma'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gost, megis poblogaeth neu niferoedd disgyblion. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 65% o'r dangosyddion.
 - amddifadedd – Dangosyddion sy'n adlewyrchu costau ychwanegol i gefnogi pobl â lefelau uwch o amddifadedd. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 28% o'r dangosyddion.
 - gwasgariad y boblogaeth – Dangosyddion sy'n adlewyrchu costau ychwanegol i gefnogi pobl mewn ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 6% o'r dangosyddion.

5 Er enghraifft, Setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: Gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2024-25

- 42 Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael, pennu sut y caiff hwn ei ddosbarthu, a darparu unrhyw 'arian atodol' i sicrhau bod yr holl gynghorau'n cael cynnydd sylfaenol mewn cyllid yn amlwg yn benderfyniadau gwleidyddol i Lywodraeth Cymru. Ceir hefyd elfennau o'r setliad sydd wedi'u nodi gan y gyfraith, megis dosbarthiad Ardrethi Annomestig, ac mae'r setliad hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Nid ydym wedi archwilio manylion y fformiwla, ei data gwreiddiol, na'i heffeithiolrwydd fel rhan o'r adolygiad hwn.
- 43 Mae'n anorod bod amrywiaeth o farn ledled Cymru ynglŷn â rhinweddau'r system hon sy'n aml yn cydberthyn â sut y dyrennir cyllid. Roedd gan y rhai sy'n cael lefelau cymesur fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru, fel rheol, lai i wneud sylw arno yn ystod ein gwaith maes.
- 44 Fodd bynnag, clywsom nifer o bryderon a oedd yn ymwneud â'r Asesiad o Wariant Sylfaenol trwy ein gwaith maes. Roedd y rhain yn cynnwys:
- mae'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn arwain at ormod o wahaniaeth rhwng cynghorau cyfagos;
 - mae'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn cynnwys pwyslais ar gyllid ar gyfer gwasanaethau i blant yn hytrach na phobl hŷn, er bod gwasanaethau i bobl hŷn yn aml yn arwain at gostau uwch oherwydd costau gofal cymdeithasol; ac
 - nad yw peth data a ddefnyddir yn yr Asesiad o Wariant Sylfaenol yn ddigon cyfoes.
- 45 Nid ydym wedi archwilio'r haeriadau hyn. Fodd bynnag, mae peth gwybodaeth berthnasol eisoes wedi cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd dogfennau'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn 2024-25 yn cydnabod bod peth data a oedd yn ymwneud ag anheddiad a gwasgariad yn seiliedig ar gyfrifiadau 1991 a 2001, tra bo eraill hefyd yn defnyddio data o 2001 a 2011. Mae rhai elfennau o'r data'n cael eu diweddarau'n fwy mynych. Nid ydym wedi adolygu'r effaith y gallai enghreifftiau o'r fath ei chael; fodd bynnag, mae'n amlwg yn bwysig bod gan Lywodraeth Cymru sicrwydd ynghylch dilysrwydd a chywirdeb data a ddefnyddir i oleuo penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau cyllid.



Hyd ac amseriad y setliad

- 46 Fe wnaeth swyddogion cynghorau amlinellu'r straen ar gapasiti ac unigolion y mae amseriad a hyd y setliad llywodraeth leol yn gallu ei chael. Lle mae cyllid yn wahanol i'r lefel ddisgwyliedig neu'n newid rhwng y dyraniad dros dro a therfynol, gall hyn olygu bod angen gwneud newidiadau sylweddol i gynlluniau lleol. Yn y tri setliad cyn cyhoeddi, roedd y newid cyfartalog yn y setliad yn gynnydd o 0.3%. Mae cyfnewidioldeb blynyddol mewn lefelau cyllid yn gallu ychwanegu ansicrwydd pellach at y newidiadau hyn.
- 47 Cyn y pandemig, arferai'r setliad dros dro gael ei gyhoeddi fel rheol ym mis Hydref gyda'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Roedd hyn yn rhoi amser i gynghorau oleuo eu proses o bennu'r gyllideb leol. Ers 2019, mae'r setliad dros dro wedi bod yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr a'r setliad terfynol ym mis Chwefror neu fis Mawrth. Mae hyn yn lleihau'r amser cynllunio i gynghorau ac wedi golygu bod cynghorau wedi bod yn penderfynu ar eu cyllidebau blynyddol cyn cael gwybod faint o gyllid y byddent yn ei gael. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu heb asesiad priodol o'i effaith, neu y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn ffordd heb ei chynllunio os yw'r cyllid yn is na'r lefel a gyllidebwyd. Mae'r ddau senario'n cynyddu'r risg na fydd cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gynlluniedig i sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.
- 48 Hefyd, teimlid fod amseriad grantiau penodol yn cynyddu'r pwysau ar swyddogion a chynllunio ariannol. Er enghraifft, pan geir ansicrwydd a fydd cyllid ychwanegol yn ariannu codiadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol neu newidiadau mewn cyfraddau cyfraniadau pensiwn, mae hyn yn gwneud y broses o lunio rhagolygon ariannol yn fwy o her.
- 49 Mewn rhai blynyddoedd blaenorol, rhoddodd Llywodraeth Cymru arwydd amlflwyddyn i gynghorau o gyllid cynghorau ar y cyfan. Nid yw hyn wedi bod yn cael ei roi'n gyson ac nis rhoddwyd yn y flwyddyn gyfredol. Mae rhai o'r cyfwelwyr wedi dweud bod diffyg eglurder ynghylch cyllid dangosol yn rhwystr i gynllunio ariannol effeithiol.
- 50 Rydym yn cydnabod bod rhai ffactorau sy'n dylanwadu ar amseriad setliad ariannol llywodraeth leol yn rhai sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae amserlen a phenderfyniadau digwyddiadau cyllidol yn Senedd y DU yn cael effaith sylweddol ar y broses o bennu'r gyllideb yng Nghymru. Gall hyn gyfyngu ar yr eglurder y mae Llywodraeth Cymru'n gallu ei roi ynghylch setliadau a grantiau yn y dyfodol a'u hamseriad.

- 51 Gall cyngorau dynnu ar wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i helpu i ragweld lefelau cyllido yn y dyfodol. Er enghraifft, fe wnaeth Canolfan Llywodraethiant Cymru ddarparu amcanestyniadau ar gyfer cyllidebau cyngorau hyd at 2027-28 ym mis Hydref 2023. Mae cyngorau hefyd yn defnyddio cymhariaeth rhwng rhagdybiaethau ariannol, megis codiadau cyflog disgwylidig, a luniwyd gan wahanol gynghorau trwy Gymdeithas Trysoryddion Cymru. Gwelsom fod pob cyngor yn defnyddio tystiolaeth fel hyn i raddau amrywiol. Gall rhagolygon fod yn ddefnyddiol i alluogi cyngorau i ddatblygu gwahanol opsiynau, fel eu bod yn barod i ymateb i bwysau ariannol unwaith y bydd lefelau cyllido'n cael eu cadarnhau neu ddigwyddiadau nas rhagwelwyd yn digwydd. Gall hyn helpu i liniaru ansicrwydd ynghylch sefyllfa'r gyllideb yn y dyfodol a helpu cyngorau i baratoi ar gyfer ystod o senarios.



Cyfrifoldebau ychwanegol

- 52 Roedd rhai cyfweleion yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol er gwaethaf y cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd ar gynghorau trwy ddeddfwriaeth newydd.
- 53 Fel a amlinellwyd uchod, mae gwasanaethau (neu lefelau gwasanaethau) a ddarperir gan gynghorau'n cael eu darparu naill ai am bod y cyngor yn dewis gwneud hynny (gwasanaeth 'dewisol') neu am ei bod yn ofynnol iddo gwneud hynny yn ôl y gyfraith (gwasanaeth 'statudol'). Mae dyletswyddau cyfreithiol wedi'u cynnwys mewn Deddfau a basiwyd gan Senedd Cymru neu Senedd y DU. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau statudol, mae gan Gynghorau'r opsiwn i siapio'r gwasanaethau hyn lle nad yw lefelau'r gwasanaethau wedi'u rhagnodi.⁶
- 54 Wrth i Ddeddfau newydd gael eu pasio gall olygu bod dyletswyddau newydd yn cael eu gosod ar gynghorau. Gall deddfwriaeth hefyd ddwyn canlyniadau anfwriadol sy'n arwain at gostau ychwanegol i gynghorau, er enghraifft pan fydd yn arwain at benderfyniad gan ddarparwyr gwasanaethau yn y sector preifat i roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth a bod rhaid i gynghorau gau bwlch yn y ddarpariaeth fel y 'darparwr sy'n ddewis olaf.' Roedd y maes a ddyfynnwyd fynychaf lle'r oedd y cyfwelwyr yn teimlo bod deddfwriaeth wedi arwain at gostau cynyddol yn ymwneud â gwasanaethau tai.

6 Er enghraifft, mae Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i feintiau dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd fod yn ddim mwy na 30 o ddisgyblion felly ni allai cyngor gynyddu maint dosbarthiadau uwchlaw hyn.

Cyd-destun ehangach y DU

Nid yw'r pwysau ar gyllid cyngorau yn unigryw i Gymru ac mae hyn yn cynnig mewnwledd i achosion a dangosyddion posibl lle mae cynaliadwyedd ariannol yn y cwestiwn

- 55 Pan fydd cyngor, ym marn y Prif Swyddog Cyllid⁷, wedi gwario (neu wedi ymrwymo i wario) mwy na chyfanswm yr adnoddau sydd ar gael iddo, rhaid i'r swyddog (mewn ymgynghoriad ag uwch swyddogion eraill) adrodd ar hyn wrth gynghorwyr ac wrth yr archwilydd (yr Archwilydd Cyffredinol, yng Ngymru). Gelwir hyn yn adroddiad Adran 114.⁸ Mae hyn wedyn yn cyfyngu ar unrhyw wariant newydd y gall y cyngor ei wneud. Hyd yma, nid oes unrhyw adroddiadau o'r fath wedi cael eu gwneud yng Nghymru.
- 56 Ers 2018, yn Lloegr mae 11 adroddiad wedi cael eu gwneud am nad yw cyngorau'n gallu mantoli'r gyllideb (**Arddangosyn 1**).

7 Cyfeirir yn gyffredin at hwn fel swyddog Adran 151 gan bod y rôl yn ofynnol gan a151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

8 a144 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw'r swyddog a151 yn credu y bydd cyngor yn ysgwyddo gwariant anghyfreithlon.

Arddangosyn 1: ardaloedd cyngorau yn Lloegr sydd wedi gwneud adroddiad Adran 114

Mae'r map hwn yn dangos yr wyth cyngor yn Lloegr sydd wedi gwneud adroddiad Adran 114.



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 57 Er bod dylanwadau lleol gwahanol ym mhob achos, adnabu'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) bedair thema gyffredin:

Arddangosyn 2: themâu cyffredin mewn adroddiadau Adran 114

Amharodrwydd i weld realiti'r sefyllfa	Anwybyddu'r rhybuddion am y sefyllfa ariannol, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn osgoi cydnabod nad oedd y cynllun cyfredol yn gweithio.
Diffyg arweinyddiaeth	Methu gwneud penderfyniadau anodd - gan swyddogion a chynghorwyr. Mae hyn yn golygu llai o ddatrys problemau a chraffu ar gynigion.
Prosesau llywodraethu annigonol	Diffyg goruchwyliaeth sylweddol gan gynghorwyr, yn enwedig gan bwyllgorau llywodraethu ac archwilio. Mae diffyg sgiliau'n cyfrannu at hyn.
Rheolaeth ariannol wan	Prosesau gwan ac annigonol sydd heb atebolrwydd, cynaliadwyedd a thryloywder. Arwydd posibl o hyn yw dirywiad sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn, sy'n cyfyngu ar ddatrysiadau i broblemau pan fyddant yn codi.

Ffynhonnell: [CIPFA](#)

- 58 Mae CIPFA wedi cynhyrchu adnoddau i gefnogi cynghorau, megis [Building Financial Resilience](#), yn ogystal ag amlinellu [map ffordd i osgoi Adran 114](#):

- dylai'r broses arbedion fod yn effeithiol ac yn ymgysylltiol, gyda deiliaid cyllidebau'n rhan o adnabod a chyflawni arbedion;
- rhaid i'r risgiau sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol gael eu deall yn glir, gyda goruchwyliaeth effeithiol ar gwmnïau y mae'r cyngor yn berchen arnynt;
- rhaid i gynghorwyr gael hyfforddiant ar faterion ariannol, gan wella eu dealltwriaeth am faterion cymhleth;
- dylai trefniadau llywodraethu gael eu cryfhau a chynnwys y gallu i ddweud y gwir wrth y rhai sydd â grym;
- dylai'r gwasanaeth archwilio mewdol adolygu effeithiolrwydd rheolau a phrosesau ariannol, a gwybodaeth am reoliadau ariannol a'r modd y cydymffurfir â hwy;
- dylid asesu ansawdd rheolaeth ariannol, yn enwedig ar gyfer sefydliadau mwy;
- gall sicrwydd annibynnol ynghylch y datganiad llywodraethu blynyddol sicrhau ei fod yn effeithiol; a
- gellir cael adolygiad o gydnerthedd ariannol.

- 59 Gellid defnyddio'r strwythur hwn fel sail i gynghorau adolygu eu sefyllfa eu hunain, ochr yn ochr â'n hadroddiadau lleol ni. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio'r themâu cyffredin a'r map ffordd i ddatblygu hunanasesiad i hysbysu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y risg y bydd adroddiad Adran 114 yn ofynnol. Mae'n bwriadu gwneud hwn yn asesiad blynyddol i ategu ei drefniadau a goruchwyliaeth gan gynghorwyr.
- 60 Mae cynghorwyr, trwy eu gweithgarwch craffu a gwneud penderfyniadau, yn rhan bwysig o fframwaith llywodraethu sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol. Gallai hyn gynnwys craffu ar gadernid cynlluniau ariannol neu benderfyniadau arfaethedig, yn ogystal â bod angen gwneud penderfyniadau anodd i ategu cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cydfynd â'r Egwyddorion ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus
- 61 Mae cynaliadwyedd ariannol a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â modelau cyllido wedi cael eu hadnabod fel mater o bwys gan archwilyr mewn rhannau eraill o'r DU.
- 62 Er enghraifft, yn Lloegr mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi adrodd⁹ ar effaith ansicrwydd a chydnerthedd ariannol ar allu cynghorau i gyflawni gwerth am arian. Mae canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn debyg iawn i'n canfyddiadau ni, gan gynnwys:
- cynghorwyr yn ymatal rhag gwneud penderfyniadau anodd yn y gobaith y byddai'r setliad yn fwy cadarnhaol na'r disgwyl;
 - diffyg amser i adolygu opsiynau ar gyfer arbedion i allu gwneud penderfyniadau da yn hytrach na chyflym;
 - tueddiad i fod yn or-ofalus a thorri gwasanaethau yn hytrach na chynllunio ar gyfer effeithlonrwydd dros y tymor canolog; a hefyd
 - y duedd i gronni cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn gan ddisgwyl y bydd eu hangen i fantoli'r gyllideb nesaf.
- 63 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi cynhyrchu canllaw arfer da ar gyfer arweinwyr a phenderfynwyr mewn amgylchedd ansicr i helpu i ystyried gwerth am arian, yn ogystal â chynllunio strategol a chyllidebu.
- 64 Mae Audit Scotland wedi dod i'r casgliad bod bylchau yng nghyllidebau cynghorau yn 2024-25 yn 'anghynaliadwy'.¹⁰ Fe wnaethant adrodd ar themâu tebyg i Gymru, megis yr amserlen sy'n gryn her ar gyfer pennu cyllidebau a phwysigrwydd eglurder mewn cynlluniau ariannol. Maent hefyd wedi nodi'r canlynol yn ddiweddar:¹¹ 'the unprecedented financial and service demand pressures mean there is an urgent need for the local government sector to transform how it operates if it is to sustainably maintain services'.

9 Er enghraifft, Local government finance in the pandemic, Mawrth 2021 a The local government finance system in England: overview and challenges, Tachwedd 2021

10 Audit Scotland, Local government budget 2024-25, Mai 2024

11 Audit Scotland, Transformation in councils, Hydref 2024

- 65 Mae Audit Scotland wedi datblygu egwyddorion trawsnewid allweddol (**Arddangosyn 3**), yn ogystal â nodi rhwystrau i drawsnewid, a strwythurau posibl i gefnogi hynny. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodweddion a allai fod yn berthnasol i Gymru, megis pwysleisio'r angen i gynnwys y gymuned, cydweithio ac atal. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd arloesi.

Arddangosyn 3: egwyddorion trawsnewid

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi egwyddorion ar gyfer trawsnewid cynghorau a gyhoeddwyd gan Audit Scotland.

Gweledigaeth	Bod â gweledigaeth glir sy'n nodi cyflwr terfynol arfaethedig unrhyw weithgarwch trawsnewid, sy'n canolbwyntio ar: • gyflawni arbedion cylchol ar raddfa fawr neu greu incwm i'r Cyngor, gan gyfrannu at ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy; • gwella canlyniadau i ddinasyddion yn unol â blaenoriaethau'r cyngor; • defnyddio dull system gyfan i weld a gwireddu cyfleoedd o fewn cynghorau ac yn ehangach; • diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a lleihau anghydraddoldebau; a • chanolbwyntio ar weithgarwch ataliol, lle y bo hynny'n berthnasol, i leihau'r galw am wasanaethau a'u gwneud yn gynaliadwy yn y tymor hwy.
Cynllunio	• Bod yn glir ynghylch maint y newid sy'n ofynnol a sicrhau bod cynlluniau trawsnewid yn ddigon uchelgeisiol i ymateb yn gredadwy i faint yr her. • Neilltuo staff â sgiliau, amser ac adnoddau priodol i sicrhau bod trawsnewidiad yn digwydd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol a bod digon o gapasiti i wreiddio'r newidiadau. • Bod yn glir ynghylch graddfeydd amser, costau, deilliannau ac effeithiau disgwylidiedig prosiectau trawsnewid. • Dangos brys a symud prosiectau yn eu blaenau'n gyflym heb beryglu trefniadau llywodraethu priodol ar brosiectau
Llywodraethu	• Bod â phroses glir ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd. • Sefydlu prosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio effeithiol fel bod y gweithgareddau trawsnewid yn cael eu rheoli'n dda yn eu rhinwedd eu hunain, ond hefyd yn gallu cael blaenoriaeth ochr yn ochr â gweithgareddau busnes-fel-arfer eraill

Cydwethio	• Datblygu perthnasoedd gweithio gwell â chymunedau a/neu bartneriaid i gyflawni model darparu gwasanaethau cynaliadwy. • Rhoi ystyriaeth weithredol i'r cyfleoedd a gynigir gan gydweithio rhanbarthol neu genedlaethol yn y sector, neu drwy integreiddio gwasanaethau'n lleol â phartneriaid, neu drwy gynorthwyo unigolion a chymunedau i gyflawni'r deilliannau a ddymunir yn lle gwasanaeth presennol. • Dysgu o arfer da ledled y wlad a'r tu hwnt.
Arloesi	• Gweithredu ffyrdd newydd o feddwl, gan gynnwys arloesi, creadigrwydd a dyhead, parodrwydd a gweithredu i newid a gwneud pethau mewn ffyrdd newydd a gwahanol sy'n cyflawni'r deilliannau y mae eu hangen. • Gwreiddio'r diwylliant a'r ymddygiadau cywir i reoli newid a helpu i gynyddu cyfraniad yr holl dîm i'r eithaf.

Ffynhonnell: [Audit Scotland](#)

Beth mae hyn yn ei olygu i gynghorau yn y dyfodol?

Ceir risgiau sylweddol i gynaliadwyedd sefyllfaoedd ariannol cynghorau sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu i'w lliniaru.

Bydd sicrhau gwerth am arian yn bwysicach byth i ategu cynaliadwyedd ariannol

- 66 Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn rydym yn dangos maint y pwysau o ran cyllid sy'n wynebu llywodraeth leol a sut y mae cynghorau'n ymateb i'r her hon. Rydym hefyd yn nodi rhai materion y gall Llywodraeth Cymru eu hystyried uchod.
- 67 O ystyried tueddiadau ariannol ac economaidd ehangach, efallai na fydd y sefyllfa o ran cyllid ar gyfer cynghorau'n gwella'n sylweddol dros y tymor canolig. Er enghraifft, roedd dadansoddiad gan Brifysgol Caerdydd ym mis Hydref 2023 yn rhagweld gostyngiad o 4.3% yn y cyllid mewn termau real ar gyfer llywodraeth leol rhwng 2025-26 a 2027-28. Mae CLILC wedi amcangyfrif bwlch cyllidebol o £559 miliwn ar gyfer 2025-26, y maent yn rhagweld y bydd yn codi'n sylweddol gydag £1 biliwn pellach o alw disgwylidig ychwanegol yn y ddwy flynedd ganlynol.
- 68 Os yw'r amcanestyniadau hyn yn profi'n gywir, mae'n cynyddu'r angen i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn eu prosesau cynllunio strategol ariannol ac ehangach. O ystyried y maint posibl, bydd hyn yn golygu newid sylweddol mewn dull ar gyfer rhai cynghorau a phwyslais mwy eglur o lawer ar symud y tu hwnt i bennu cyllideb fantoledig yn flynyddol i gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n darparu fframwaith i gefnogi cynllunio ariannol a strategol

- 69 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n darparu fframwaith y gall cynghorau ei ddefnyddio i ddatblygu eu cynlluniau a'u strategaethau ariannol. Gall hefyd ddarparu fframwaith ar gyfer asesu cynigion neu benderfyniadau unigol sydd wedi'u bwriadu i ategu cynaliadwyedd ariannol cyngor. Caiff rhai effeithiau posibl peidio â chymhwyso'r egwyddor eu nodi isod yn erbyn y pum ffordd o weithio (**Tabl 1**):

Tabl 1: enghreifftiau o effaith bosibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r tabl hwn yn nodi effeithiau posibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â phob un o'r pum ffordd o weithio.

Ffordd o weithio	Enghreifftiau o effaith bosibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy
Hirdymor	- Defnyddir cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr i fantoli cyllidebau blynyddol mewn ffordd sy'n eu hatal rhag cael eu defnyddio ar gyfer buddsoddiad tymor hwy a allai sicrhau gwerth gwell am arian. - Nid yw effeithiau hirdymor cynigion ar gyfer arbedion yn cael eu hystyried yn briodol, gan arwain o bosibl at gostau uwch a deilliannau is i ddefnyddwyr gwasanaethau dros y tymor hwy. - Nid yw gofynion buddsoddi dros y tymor canolig a hwy yn cael eu cyllido/blaenoriaethu yn y tymor byr, er enghraifft mewn perthynas â datblygu capasiti, sgiliau seilwaith-benodol.
Ataliad	Yn gysylltiedig â'r enghreifftiau uchod o dan 'hirdymor', mae peidio â buddsoddi mewn mentrau ataliol yn cynyddu'r galw am wasanaethau mwy aciwt a chost eu darparu. Mae hefyd yn arwain at ddeilliannau is i ddefnyddwyr gwasanaethau.
Integreiddio	Nid yw cynlluniau ariannol yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill cyngor na rhai ei bartneriaid. Neu beidio â deall y berthynas rhwng penderfyniadau ynghylch darparu adnoddau/arbedion ar draws gwahanol feysydd yn y busnes. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ymdrech a cholli cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog, a gall amharu ar gynnydd tuag at uchelgeisiau tymor hwy, fel y'u diffinnir yn yr Amcanion Llesiant.
Cynnwys	Nid yw'r rhai sydd â buddiant mewn cynlluniau ariannol neu benderfyniadau unigol yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cyngor yn gwneud penderfyniadau nad ydynt yn ystyried eu hanghenion ac felly nad yw'n sicrhau gwerth am arian.
Cydweithio	Nid yw cyfleoedd i gydweithio o fewn a rhwng cyngorau a phartneriaid eraill yn cael eu harchwilio. O ganlyniad, efallai y bydd cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy ddarbodion maint, mwy o gydnerthedd a deilliannau gwell yn cael eu colli.


- 70 Gallai gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gliriach mewn prosesau cynllunio ariannol helpu cynghorau i ddatblygu dull tymor hwy, mwy cyfannol o fynd ar drywydd cynaliadwyedd ariannol sy'n cael ei oleuo gan weithgarwch cynnwys parhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw maint yr heriau ariannol yn golygu bod angen newidiadau mwy sylfaenol i'r modd y darperir gwasanaethau trwy, er enghraifft, fwy o gydweithio, trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol neu roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau'n gyfan gwbl.

Dull tymor hwy o wneud gwaith cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau

- 71 Yn ein hadolygiad, rydym wedi mabwysiadu diffiniadau CIPFA o raddfeydd amser ym maes cynllunio ariannol. Disgwylir i gynlluniau ariannol tymor canolig osod y cyfeiriad dros o leiaf dair blynedd, gan adeiladu ar y broses ar gyfer pennu cyllideb flynyddol. Mae hyn o fewn cynllun strategol tymor hwy sy'n adeiladu ar yr olwg tair blynedd hyd at ddegawd o leiaf (**Arddangosyn 4**). Yn gyffredinol, canfuom nad yw cynghorau yng Nghymru'n defnyddio'r dull tymor hwy hwn.

Arddangosyn 4: graddfeydd amser ym maes cynllunio ariannol

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y graddfeydd amser y dylai gwahanol fathau o gynlluniau ariannol eu cwmpasu a'r graddfeydd amser awgrymedig y gallent eu cwmpasu ym marn CIPFA.



Ffynhonnell: [CIPFA](#)

- 72 Mae'r graddfeydd amser a nodir gan CIPFA yn mynd y tu hwnt i gylchoedd etholiadol a phroses flynyddol y gyllideb. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chymhwyso graddfeydd amser o'r fath i wneud penderfyniadau; fodd bynnag, mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

Trosolwg o sefyllfaoedd ariannol a chyllid cyngorau


- 73 Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cyd-destun ariannol diweddar y mae cyngorau'n gweithredu ynddo a sut y mae hyn wedi effeithio ar gyllid ar gyfer gwasanaethau.
- 74 Llywodraeth Cymru yw cyllidwr mwyaf cyngorau Cymru. Er bod y ganran yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ers 1999-2000, mae tua 72% o gyllid cyngorau wedi bod yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru, gydag ardrethi busnes a'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am tua 12% ac 16% yn y drefn honno.¹²
- 75 Ar ôl argyfwng ariannol byd-eang 2008, fe wnaeth gallu llywodraeth leol i wario wastatau ac yna gostwng. Dibynnodd cyngorau ar ystod o fesurau i reoli eu sefyllfa ariannol, gan gynnwys cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor, defnyddio cronfeydd wrth gefn, a gostyngiadau mewn gwariant. Yn ôl y gyfraith, rhaid i gyngorau bennu cyllideb flynyddol fantoledig.
- 76 Yn ystod pandemig Covid-19¹³, fe drefnwyd fod cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi cyngorau. Roedd hyn yn cynnwys grantiau penodol ar gyfer digartrefedd, gwrthbwysu gostyngiadau mewn ardrethi busnes, a chyllid cymorth cyffredinol. Helpodd y cyllid hwn gyngorau i gynnal ac addasu gwasanaethau yn ystod y pandemig, ac fe wnaeth hefyd helpu cyngorau i gynyddu lefelau eu cronfeydd wrth gefn i raddau amrywiol.
- 77 Rhwng 2005-06 (y flwyddyn gynharaf y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer) a 2022-23, fe wnaeth gwariant mewn termau real gan gyngorau gynyddu 11% (**Arddangosyn 5**). Mewn cymhariaeth, dros yr un cyfnod tyfodd cyllideb rhaglen GIG Cymru 60% mewn termau real.¹⁴

12 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau [Data alldro referniw cyngorau](#), gan Lywodraeth Cymru

13 Yn ystod y pandemig, fe wnaethom sylwadau ar yr effaith ariannol ar gyngorau ddwywaith ym mis [Hydref 2020](#) a mis [Medi 2021](#). Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Darlun o Lywodraeth Leol ym mis [Medi 2021](#).

14 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau gwariant y GIG, [data cyn 2010](#) a [data ar ôl 2010](#), gan Lywodraeth Cymru

Arddangosyn 5: gwariant refeniw gros gan bob cyngor mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2022-23 (prisiau Mehefin 2024) (£biliynau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o [ddata alldro refeniw cyngorau Llywodraeth Cymru](#)

- 78 Mae lefelau'r Dreth Gyngor yn cael eu pennu gan bob cyngor. Wrth bennu lefelau'r Dreth Cyngor, rhaid i gynghorau ystyried ystod o ffactorau, er enghraifft yr effaith ariannol ar drigolion, sefyllfa ariannol y cyngor, ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2023-24 fe wnaeth lefelau Treth Gyngor Band D cyfartalog yng Nghymru gynyddu 66% neu £812.¹⁵ Mae'r gyfran o wariant cynghorau a gyllidir gan y Dreth Gyngor wedi aros yn weddol debyg dros amser. Yn 1999-2000, roedd y Dreth Gyngor yn cyllido tuag 16% o wariant gros gan gynghorau yn genedlaethol o'i gymharu â rhyw 18% yn 2023-24.¹⁶
- 79 Mae Tabl 2 yn dangos sut y mae cyllid y pen o'r boblogaeth yn amrywio rhwng cynghorau a phob math o ffynhonnell gyllido. Cynhwysir hyn er mwyn rhoi gwybodaeth gyd-destunol yn hytrach na chasgliad ynghylch yr amgylchiadau neu'r penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw gyngor unigol.

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [Treth gyngor band D gyfartalog](#)

¹⁶ Mae cyfran y gwariant lleol a gyllidir gan y Dreth Gyngor yn amrywio rhwng cynghorau.

Tabl 2: y dreth gyngor sy'n ofynnol, Grant Cynnal Refeniw (RSG), ac Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu (RNDR) y pen o'r boblogaeth fesul cyngor, 2023-24 (Punnoedd)

Cyngor	Y Dreth Gyngor sy'n ofynnol	RSG a Chyllid atodol	Ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu	Cyfanswm
Gwynedd	£780	£1,585	£329	£2,693
Blaenau Gwent	£574	£1,747	£327	£2,648
Sir Ddinbych	£672	£1,612	£324	£2,607
Merthyr Tudful	£582	£1,700	£325	£2,606
Castell-nedd Port Talbot	£611	£1,609	£327	£2,547
Ynys Môn	£707	£1,455	£329	£2,492
Rhondda Cynon Taf	£533	£1,634	£320	£2,487
Ceredigion	£716	£1,432	£337	£2,484
Conwy	£732	£1,399	£337	£2,468
Powys	£765	£1,366	£335	£2,466
Sir Gâr	£630	£1,454	£326	£2,411
Torfaen	£560	£1,525	£321	£2,405
Caerffili	£474	£1,603	£324	£2,401
Sir Benfro	£662	£1,374	£327	£2,364

Cyngor	Y Dreth Gyngor sy'n ofynnol	RSG a Chyllid atodol	Ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu	Cyfanswm
Pen-y-bont ar Ogwr	£648	£1,380	£325	£2,353
Casnewydd	£517	£1,459	£310	£2,287
Sir y Fflint	£665	£1,291	£326	£2,282
Abertawe	£582	£1,375	£320	£2,277
Wrecsam	£597	£1,329	£323	£2,248
Bro Morgannwg	£703	£1,188	£318	£2,208
Sir Fynwy	£826	£967	£330	£2,123
Caerdydd	£546	£1,239	£308	£2,094
Cymru	£620	£1,422	£323	£2,365

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru, [amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn](#), [Treth Gyngor](#), a [chymorth llywodraeth](#)

Nodiadau: Er bod cynghorau'n casglu ardrethi annomestig yn lleol, maent yn cael eu hailddosbarthu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad cyllido blynyddol. O ganlyniad, mae rhai cynghorau'n fuddiolwyr net neu'n gyfranwyr net i'r 'gronfa' gyllid.

Mae cyllid atodol yn gyllid ychwanegol a ddarperir i sicrhau bod cynghorau'n cael isafswm cynnydd canrannol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.


Mae'r gofyniad o ran y dreth y cyngor yn cynnwys praeceptau'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Heddlu sydd y tu hwnt i reolaeth Prif Gyngorau.

80 Mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2023-24 cododd lefelau Treth Gyngor band D cyfartalog 66% neu £812.¹⁷

81 Mae'r gyfran o wariant y cyngor a gyllidir gan y Dreth Gyngor wedi aros yn weddol debyg dros amser. Yn 1999-2000, roedd y Dreth Gyngor yn cyllido tuag 16% o wariant gros gan gynghorau o'i gymharu â rhyw 18% yn 2023-24.

17 Llywodraeth Cymru, [Treth gyngor band D gyfartalog](#)

Arddangosyn 6: y dreth gyngor, RSG, ac RNDR y pen mewn termau real yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, rhwng 1999-2000 a 2023-24 (Punnoedd)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru [amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn](#), [Treth Gyngor](#), a [chymorth llywodraeth](#)

82 Gall cyngorau fantoli eu gwariant trwy ddefnyddio gwahanol fathau o gronfeydd wrth gefn. Mae tri phrif fath o gronfa wrth gefn:

- cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy a chyffredinol – mae hon yn gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio fel y dymuna cyngor ac nad yw wedi'i neilltuo at ddiben penodol.
- cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy ac wedi'i chlustnodi – mae hon yn gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio fel y dymuna cyngor ond sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol, megis costau ased yn y dyfodol. Yn ymarferol gall defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i ategu gwariant refeniw fod yn broblem os na chânt eu defnyddio at eu diben gwreiddiol.
- cronfa wrth gefn annefnyddiadwy – mae hon yn fath o gronfa wrth gefn nad yw wedi'i hategu gan arian parod ac felly na ellir ei defnyddio'n rhydd, naill ai oherwydd y gyfraith neu ei sail gyfrifyddu, megis cronfa wrth gefn ailbrizio. Gall hyn fod yn un o ofynion safonau cyfrifyddu rhyngwladol neu'r gyfraith.

- 83 Dim ond unwaith y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ac maent yn adnodd y mae pen draw iddo. Am y rheswm hwn, maent yn aml yn cael eu hystyried yn ddewis olaf neu'n fath o yswiriant ar gyfer cynghorau. Mae hyn yn gwneud defnyddio ac ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn mewn modd cynaliadwy'n ddangosydd allweddol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.
- 84 Dengys ein dadansoddiad ni fod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol¹⁸ wedi bod yn gyson i raddau helaeth dros amser cyn cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig (**Arddangosyn 7**). Ar gyfer Cymru ar y cyfan, cynyddodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol o oddeutu £1.1 biliwn yn 2019-20 i fwy na £2.1 biliwn yn 2021-22. Er iddynt leihau yn 2022-23, roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dal i fod yn fwy na £2 biliwn neu 27% o gyfanswm cost gwasanaethau. Mae hwn yn adnodd arwyddocaol i dynnu arno. Fodd bynnag, mae sefyllfa cynghorau unigol, ac i ba raddau y gall y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gael eu hailbwrpasu'n hawdd, yn amrywio'n sylweddol. Yn 2022-23, roedd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'n rhoi cyfrif am 87% o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol a oedd gan gynghorau.

Arddangosyn 7: cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio heb gyfyngiadau cyfreithiol a ddelir gan gynghorau Cymru, rhwng 2015-16 a 2022-23 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon cynghorau

18 Rydym yn diffinio hyn fel 'y cronfeydd wrth gefn hynny y gellir eu cymhwyso i ddarparu gwasanaethau, naill ai trwy ysgwyddo costau neu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, ni waeth pa un a oes cyfyngiadau ar union beth ellir cymhwyso'r adnoddau iddo'. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas cymhwyswyd.

- 85 Mae lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau, yn ogystal â dangosyddion ariannol eraill, yn amrywio'n sylweddol ar draws cynghorau. Mae ein hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn cymharu lefel y cronfeydd wrth gefn ar draws cyrff llywodraeth leol ers 2015-16. Yn 2022-23, roedd gan saith cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol sy'n cyfateb i lai nag 20% o gost net gwasanaethau. Yn seiliedig ar gyfrifon drafft a ddarparwyd i ni ar gyfer 2023-24 ar adeg cyhoeddi, mae gan ddau gyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol sy'n cyfateb i oddeutu 10% o gost net gwasanaethau. Mae gan bum cyngor arall lai nag 20% o gost net gwasanaethau mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol.

Tabl 3: newid mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol rhwng 2022-23 a 2023-24 (£miliwn)

Cyngor	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2022-23 £ miliwn	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2023-24 £ miliwn	Newid (%)	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2022-23	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2023-24
Blaenau Gwent	47	Ddim ar gael	Ddim ar gael	30%	
Pen-y-bont ar Ogwr	103	76	-26%	30%	21%
Caerffili	165	134	-19%	39%	29%
Caerdydd	163	151	-7%	19%	17%
Sir Gâr	170	149	-12%	38%	30%
Ceredigion	56	51	-9%	32%	25%
Conwy	43	43	2%	16%	15%
Sir Ddinbych	65	Ddim ar gael	Ddim ar gael	27%	
Sir y Fflint	50	38	-23%	15%	11%

Cyngor	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2022-23 £ miliwn	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2023-24 £ miliwn	Newid (%)	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2022-23	Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2023-24
Gwynedd	123	118	-4%	40%	36%
Ynys Môn	40	39	-5%	24%	21%
Merthyr Tudful	38	Ddim ar gael	Ddim ar gael	27%	
Sir Fynwy	27	19	-30%	14%	9%
Castell-nedd Port Talbot	91	74	-19%	25%	19%
Casnewydd	129	121	-6%	40%	33%
Sir Benfro	83	81	-2%	28%	25%
Powys	64	69	8%	20%	20%
Rhondda Cynon Taf	225	215	-4%	36%	32%
Abertawe	179	158	-12%	31%	27%
Torfaen	42	41	-4%	19%	17%
Bro Morgannwg	95	75	-21%	30%	22%
Wrecsam	38	37	-3%	12%	11%
Cymru	2,037			27%	

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon anarchwiliedig

Nodyn: Ar adeg cyhoeddi, nid oedd yr holl gyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi dod i law. Lle nad oeddent wedi dod i law, nodir y cofnodion yn y tabl uchod

Disgwyliadau'r cyhoedd a chyfathrebu gyda hwy


- 86 Mae cynghorau'n cydbwyso pwysau ariannol yn erbyn disgwyliadau eu cymunedau. Gall hyn fod yn gryn her. Er nad oes unrhyw arolwg yn casglu disgwyliadau na boddhad trigolion ledled Cymru, mae data'n cael ei gasglu yn Lloegr. Er enghraifft, mewn arolwg ym mis Mehefin 2024, er bod y rhan fwyaf o ddinasyddion yn fodlon ar eu cynghorau (55%) dim ond 38% oedd yn credu eu bod yn rhoi gwerth am arian. Mae hyn yn awgrymu bwlch o ran y disgwyliadau rhwng yr hyn y mae trigolion yn ei dalu am wasanaethau a'u barn ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu cael.
- 87 Mae cynghorau hefyd yn wynebu'r her, ar unrhyw adeg, efallai na fydd llawer o drethdalwyr cyngor penodol yn cael y gwasanaethau sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o wariant y cyngor hwnnw, fel gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae hyn yn cyflwyno her gyfathrebu i gynghorau esbonio pam a sut y caiff eu cyllid ei ddyrannu a chael cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer penderfyniadau ariannol a allai fod yn amhoblogaidd, er enghraifft lle mae hyn yn golygu lleihau neu ddileu gwasanaethau o bosibl, neu gynyddu taliadau amdanynt.

Ers 2008 mae rhai gwasanaethau wedi gweld toriadau sylweddol i wariant tra bo'r gwariant ar eraill wedi cynyddu

- 88 Gan bod cynghorau wedi wynebu pwysau ar eu hincwm ar y cyfan, mae gwariant mewn rhai gwasanaethau wedi lleihau (**Arddangosyn 8**).

Arddangosiad 8: enghreifftiau o wasanaethau â newidiadau cyfrannol mewn gwariant net mewn termau real gan gynghorau Cymru, rhwng 2008-09 a 2023-24 (prisiau Mehefin 2024)

Mae'r graffig hwn yn dangos y newid gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau gan gynghorau rhwng 2008-09 a 2023-24.



Gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd +94%
 Amddiffynfeydd rhag llifogydd a draenio +92%
 Amddiffyn yr arfordir +91%
 Cymorth i fusnesau +74%
 Gofal cymdeithasol i bobl hŷn +31%
 Gofal cymdeithasol oedolion (dros 65 oed) +27%
 Rheoli gwastraff +15%
 Ysgolion +8%



Diogelwch cymunedol -62%
 Rheoli datblygu -45%
 Gwasanaethau diwylliant a threftadaeth -41%
 Llyfrgelloedd -41%
 Cynllunio -41%
 Safonau masnach - 38%
 Priffyrdd a heolydd -37%
 Tai -21%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o [ddata Llywodraeth Cymru](#)

- 89 Mae gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddio neu ataliol yn aml wedi profi toriadau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer anghenion byrdymor a/neu wasanaethau statudol. Rydym yn cydnabod y gall blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau ataliol fod yn gryn her. Fodd bynnag, dros y tymor hwy, gall buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol wella cynaliadwyedd ariannol trwy ddarparu gwell gwerth am arian yn ogystal â gwella deilliannau i drigolion.

Nododd cyngorau nifer o heriau ariannol cyffredin a sylweddol


- 90 Yn ystod ein gwaith maes, amlinellodd cyngorau rai o'r heriau ariannol allweddol sy'n effeithio ar eu cynaliadwyedd ariannol. Rydym wedi amlinellu rhai o'r rhain isod. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr a byddant yn effeithio ar gynghorau unigol i raddau amrywiol.



Chwyddiant a'r argyfwng costau byw

- 91 Roedd chwyddiant, sef cyfradd y cynnydd mewn prisiau bob blwyddyn, yn gymharol gyson ar oddeutu 2% trwy ddau ddegawd cyntaf y mileniwm newydd (**Arddangosyn 9**). Cododd yn ddramatig tuag at ddiwedd 2021, gan gyfrannu at gostau byw llawer uwch a chynyddu cost darparu gwasanaethau llywodraeth leol.

Arddangosyn 9: Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchentywyr (CPIH) - y gyfradd flynyddol ar gyfer pob eitem, rhwng mis Ionawr 1999 a mis Mehefin 2024



Ffynhonnell: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#)


- 92 Roedd cynghorau'n wynebu'r un pwysau ar eu gwariant eu hunain o ganlyniad i brisiau cynyddol, gan weld cynnydd mawr mewn costau ynni, er enghraifft. Felly gan bod nifer o drigolion yn troi at gynghorau am gymorth ychwanegol, roedd y cynghorau eu hunain dan fwy byth o bwysau ariannol.



Gofal cymdeithasol

- 93 Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos bod disgwyl i ddisgwyliad oes barhau i gynyddu, ynghyd â chyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau gofal cymdeithasol (**Arddangosyn 10**).

Arddangosyn 10: amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol Cymru, rhwng 2023 a 2073 (sail 2021)



Ffynhonnell: [ONS](#)

- 94 Mae'r galw uwch am rai gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn fwy i rai cynghorau oherwydd sut y mae'r boblogaeth yn symud yn fewnol. Gall hyn gynnwys pobl ifanc yn symud i ardaloedd trefol ar gyfer gwaith neu addysg, ond hefyd pobl hŷn yn symud i ardaloedd mwy gwledig neu ar lan y môr ar ôl ymddeol. Gall hyn ei gwneud hi'n anos i gynghorau ragweld y galw am wasanaethau.

- 95 Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2024, cynyddodd nifer y trigolion sy'n oedolion sy'n cael gofal preswyl neu ofal cartref neu gymorth ailalluogi 6.6% i 32,062.¹⁹ Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwariant ar ofal cymdeithasol wedi cyflymu oherwydd cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod. Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 8**, mae gwariant ar ofal cymdeithasol i blant, oedolion a phobl hŷn wedi cynyddu 94%, 27%, a 31% yn y drefn honno mewn termau real ers 2008-09.
- 96 Yn ddiweddarach eleni, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canfyddiadau yn dilyn ei adolygiad o ofal brys ac argyfwng – llifoedd allan o'r ysbyty, ac effaith hynny ar gynghorau a byrddau iechyd.
- 97 Mae cynghorau'n gyfrifol am ofalu am rai plant o fewn eu darpariaeth gofal cymdeithasol. Unwaith y bydd plentyn wedi bod mewn gofal am dros 24 awr, caiff ei ystyried yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (CLA). Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cynyddu'n raddol dros amser. Erbyn 2023, roedd data Llywodraeth Cymru'n dangos bod cynghorau'n gofalu am 7,210 o Blant sy'n Derbyn Gofal - cynnydd o 79% ers 2003.²⁰
- 98 Roedd chwarter y Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2023 wedi'u cartrefu yng Nghymru ond y tu allan i ardal eu cyngor, a 6.5% arall yn wedi'u cartrefu y tu allan i Gymru'n gyfan gwbl. Gall capasiti annigonol olygu bod cynghorau'n ysgwyddo costau ychwanegol gan ei bod yn farchnad gystadleuol gyda nifer gyfyngedig o leoliadau. Gall lleoli plant y tu allan i'r sir gael effaith niweidiol ar y plant hynny yn ogystal â chynyddu costau i gynghorau. Rydym wedi clywed yn anecdotaidd gan gynghorau y gall lleoliadau sydyn, brys arwain at gostau sylweddol uchel - yn enwedig mewn achosion ag anghenion cymhleth.
- 99 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i ddileu elw o'r sector Plant sy'n Derbyn Gofal. Fel rhan o'r polisi hwn²¹, ei nod yw bod llai o blant yn mynd i mewn i'r system ofal a chyfyngu cwmnïau sy'n gallu darparu llety i'r rhai di-elw. Clywsom bryderon gan gynghorau am effaith bosibl y polisi ar gapasiti a chostau. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) wedi adnabod²² ystod o oblygiadau a allai ddeillio o'r polisi, sy'n debygol o effeithio ar gynghorau.

19 Data dangosfwrdd gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru

20 Llywodraeth Cymru, [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol](#)

21 Llywodraeth Cymru, [Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal](#), Gorffennaf 2024

22 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, [Barn arbenigol ar ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal](#), Mai 2024



Tai

- 100 Mae gan gynghorau amrywiaeth o ddyletswyddau tai ac atal digartrefedd. Mewn termau real, er bod gwariant o gyllidebau refeniw cynghorau²³ ar dai wedi gostwng 21% ers 2008-09, mae tai yn gyson wedi bod y trydydd maes gwariant mwyaf gan gynghorau ar ôl addysg.²⁴
- 101 Defnyddir llety dros dro i ddarparu tai interim i drigolion sy'n wynebu digartrefedd. Mae hyn yn aml yn gallu bod ar ffurf gwestai neu hosteli am nad oes digon o gartrefi sy'n eiddo i'r cyngor i ateb y galw. Felly, mae cystadleuaeth yn y farchnad ehangach yn gallu effeithio ar gostau darparu'r llety hwn hefyd. O ran y sefyllfa ym mis Mai 2024, roedd 11,591 o unigolion wedi'u cartrefu dros dro gan gynghorau yng Nghymru, yr oedd 3,003 ohonynt yn blant.²⁵
- 102 Mae hwn yn bwysau sylweddol o ran costau a all fod yn anodd i'w ragweld oherwydd ei sensitifrwydd i'r farchnad rentu a'r economi ehangach. Yn y flwyddyn hyd at fis Awst 2024, canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod rhenti misol preifat wedi cynyddu 8.5% yng Nghymru.²⁶ Daeth hyn yn dilyn newidiadau i reoliadau rhentu preifat ym mis Rhagfyr 2022 o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r ddau newid wedi cael eu dyfynnu gan swyddogion cynghorau fel ffactorau sy'n ychwanegu pwysau ychwanegol ar eu gwasanaethau, yn ogystal â chostau cynyddol o ran cefnogi trigolion mewn eiddo rhent preifat.
- 103 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth llywodraeth leol sy'n canolbwyntio ar lety dros dro ac mae'n bwriadu adrodd ar hyn yn gynnar yn 2025.



Addysg

- 104 Yn gyffredinol, mae cynghorau'n darparu cyllid i ysgolion unigol, sydd wedyn yn pennu cyllideb. Gelwir y rhain yn gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Lle mae gan ysgolion gyllid heb ei wario, gallant greu cronfeydd wrth gefn y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'balansau ysgolion'. Yn ystod y gwaith maes, clywsom bryderon am effaith yr arbedion gofynnol a'r gostyngiad o ganlyniad ym malansau ysgolion. Yn 2023-24, parhaodd balansau ysgolion i leihau'n sydyn i gyfanswm o £115 miliwn yn genedlaethol - sy'n cyfateb i £253 y dysgwr.²⁷ O ganlyniad, roedd gan 21% o ysgolion falansau negyddol a bu arnynt angen cymorth ychwanegol gan gynghorau.

23 Nid yw hyn yn cynnwys Cyfrifon Refeniw Tai (HRAs) lle mae cyngor wedi cadw ei stoc dai ei hun.

24 Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i ddosbarthiad gofal cymdeithasol yn ôl oedran.

25 Llywodraeth Cymru, [Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol](#)

26 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Private rent and house prices, UK: September 2024](#)

27 Llywodraeth Cymru, [Cronfeydd wrth gefn a ddeler gan ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2024 \(Saesneg yn unig\)](#)

- 105 Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), lle mae gan berson anhawster neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol, yn bwysau allweddol o ran costau i ysgolion. Cafodd y system anghenion dysgu ychwanegol ei diwygio yn dilyn deddfwriaeth yn 2018. Mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno'n raddol ers 2021/22 gyda phob disgybl ysgol wedi'u cynnwys yn y trefniadau newydd erbyn 2025/26. Mae'r term 'ADY' wedi disodli'r hen derm 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA) ond yr un yw'r diffiniad yn y bôn.
- 106 Ers 2021, mae cyfran y disgyblion mewn ysgolion a gyllidir gan gynghorau wedi gostwng yn sylweddol. Fe wnaeth cyfran y disgyblion ag AAA/ADY haneru o 22.6% i 11.2% rhwng 2013/14 a 2023/24.²⁸ Fodd bynnag, er gwaethaf gostyngiad yn y galw, mae'r costau wedi parhau i gynyddu. Ceir ansicrwydd ynghylch achos y gostyngiad.
- 107 Cynyddodd gwariant net o gyllidebau dirprwyedig ysgolion ar ADY 13.4% mewn termau real rhwng 2013-14 a 2023-24. Roedd hyn yn gyfanswm o 4.8% o wariant net cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn 2023-24 - i fyny o 4.3% yn 2013-14.²⁹ Mae'r gwariant ar ADY o gyllidebau cynghorau wedi codi 20.7% dros yr un cyfnod. Byddai hyn yn ategu'r farn, er gwaethaf dirywiad yng nghyfran y disgyblion y nodwyd fod ganddynt ADY, bod costau a chymhlethdod rhoi cymorth i ddysgwyr ag ADY yn her sylweddol i ysgolion. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu ADY fel astudiaeth genedlaethol yn y dyfodol.
- 108 Mae costau AAA yn bwysau cyllidebol allweddol i gynghorau ledled y DU. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i 'gytundebau falf diogelwch' gyda 38 o gynghorau ers 2020-21 i gefnogi gwasanaethau AAA. Mae hyn i bob pwrpas yn 'dileu' diffygion cyllidebol sydd gan wasanaethau, gydag amodau y cytunwyd arnynt rhwng y cyngor a Llywodraeth y DU. Nid oes trefniadau o'r fath ar waith yng Nghymru.
- 109 Mae gan gynghorau gyfrifoldebau cyfreithiol am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer rhai dysgwyr. Mae'r broses asesu a'r trothwyon ar gyfer darparu cludiant wedi'u nodi mewn cyfraith ac maent yn ymwneud yn bennaf â'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf. Ni ellir codi tâl ar ddysgwyr sydd â hawl i'r gwasanaethau hyn. Gall cynghorau amrywio polisi lleol i gynnwys mwy o ddisgyblion a gallant godi tâl am y gwasanaeth dewisol hwn, er enghraifft ar gyfer cludiant i ysgolion crefyddol neu Gymraeg heblaw'r ysgol addas agosaf. Mae gwariant net cynghorau ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol wedi cynyddu 25% rhwng 2013-14 a 2023-24 mewn termau real.

28 Llywodraeth Cymru, Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion

29 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau Llywodraeth Cymru, Gwariant alldro referniw addysg



Buddsoddiad cyfalaf

- 110 Rhaid i gynghorau gydbwysu buddsoddiad cyfalaf i gyflawni amcanion a darparu gwasanaethau ochr yn ochr â chynaliadwyedd ariannol. Gall rhaglenni cyfalaf gynnwys gwella neu adeiladu asedau, megis ffyrdd, adeiladau swyddfeydd, neu ysgolion.
- 111 Fel gyda gwariant refeniw, gall cynghorau ddefnyddio ffynonellau cyllid gwahanol ar gyfer eu rhaglen gyfalaf. Yn wahanol i gyllidebau refeniw, gall cynghorau gael benthycy arian hefyd. Mae gan bob ffynhonnell fenthycy risgiau o wahanol fathau a meintiau, gan olygu bod mynd ati i ystyried a goruchwyllo rhaglenni cyfalaf mewn modd gweithredol yn hanfodol i gynaliadwyedd ariannol. Mae ystyried goblygiadau buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y gyllideb refeniw yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.
- 112 Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu data ar fenthyciadau at ein hofferyn data llywodraeth leol i ychwanegu mewnwelediad i'r maes hwn. Yn nhermau arian parod, tyfodd cyfanswm y benthyciadau rhwng 2020-21 a 2022-23 ychydig, sef 4%, i gyfanswm o £6.3 biliwn. Mae benthyciadau'n amrywio o ran eu maint rhwng cynghorau, gan adlewyrchu eu rhaglenni cyfalaf a'u parodrwydd i dderbyn risg (Tabl 4).

Tabl 4: cyfanswm benthyciadau cynghorau ac fel canran o gost net gwasanaethau a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol, 2023-24

Cyngor	Cyfanswm benthyciadau (£ miliynau)	Benthyciadau fel cyfran o gost net gwasanaethau	Benthyciadau fel cyfran o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol
Blaenau Gwent*	190	107%	405%
Pen-y-bont ar Ogwr	122	33%	160%
Caerffili	321	70%	239%
Caerdydd	903	99%	596%
Sir Gâr	413	82%	276%


Cyngor	Cyfanswm benthyciadau (£ miliynau)	Benthyciadau fel cyfran o gost net gwasanaethau	Benthyciadau fel cyfran o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol
Ceredigion	112	56%	221%
Conwy	250	84%	577%
Sir Ddinbych*	232	107%	395%
Sir y Fflint	339	93%	885%
Gwynedd	109	33%	93%
Ynys Môn	125	68%	323%
Merthyr Tudful*	127	89%	331%
Sir Fynwy	180	85%	955%
Castell-nedd Port Talbot	272	68%	368%
Casnewydd	190	52%	158%
Sir Benfro	179	56%	221%
Powys	338	97%	487%
Rhondda Cynon Taf	288	43%	134%
Abertawe	685	117%	435%
Torfaen	111	47%	272%
Bro Morgannwg	150	43%	201%
Wrecsam	522	158%	1419%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon anarchwiliedig

Nodyn: Ar adeg cyhoeddi, nid oedd yr holl gyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi dod i law. O ganlyniad, mae ffigyrau 2022-23 wedi cael eu defnyddio ar gyfer Blaenau Gwent, Sir Ddinbych, a Merthyr Tudful.

- 113 Mae gwariant cyfalaf gan gynghorau wedi cynyddu'n raddol mewn termau real i ychydig dros £1.8 biliwn yn 2023-24. Mae wedi tyfu'n gyflymach na gwariant refeniw dros y cyfnod ers 1999-2000. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth llywodraeth leol sy'n canolbwyntio ar gynllunio cyfalaf yn 2024-25.

Arddangosyn 11: alldro gwariant cyfalaf gan gynghorau Cymru mewn termau real, 1999-2000 i 2023-24 (prisiau 2023-24)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau Llywodraeth Cymru, [gwariant alldro cyfalaf cynghorau](#)

Sylwer: Mae ffigyrau 2015-16 i'w gweld yn chwyddedig o ganlyniad i brynu allan o'r cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, a oedd â gwerth termau real o oddeutu £1.2 biliwn.



Cynaliadwyedd amgylcheddol

- 114 Mae newid hinsawdd a materion amgylcheddol eraill yn effeithio'n uniongyrchol ar wariant cynghorau mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, gall polisi fynnu buddsoddiad yn yr ymateb, megis cyflwyno targedau ailgylchu. Mae gwariant ar reoli gwastraff gan gynghorau wedi cynyddu 15% ers 2008-09.

- 115 Yn ail, mae'n annog cynghorau i fuddsoddi mewn seilwaith i leihau allyriadau carbon er mwyn cyrraedd y targed sero-net cenedlaethol. Fel a amlinellwyd yn flaenorol³⁰, mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch gallu'r sector cyhoeddus i gyrraedd y targed hwn ac un elfen allweddol o hyn yw mynd i'r afael â'r cyllid y mae ei angen.
- 116 Yn drydydd, rhaid i gynghorau adweithio i effeithiau uniongyrchol mwy mynych newid hinsawdd. Er enghraifft, arweiniodd Stormydd Ciara, Dennis a Jorge yn 2020 at lifogydd mewn 3,120 o unedau eiddo domestig ac annomestig, gan arwain at ddifrod gwerth £81 miliwn yn ôl yr amcangyfrif.³¹ Yn ogystal ag effeithio ar yr economi leol, gall y digwyddiadau hyn olygu bod angen ymatebion brys, fel tai a chymorth brys, yn ychwanegol at fynd i'r afael â difrod i eiddo'r cyngor. Wrth i effaith newid hinsawdd ddod yn fwy difrifol a mynych, nid yw'r pwysau ar gyllid cynghorau ond yn debygol o gynyddu. Gall hyn gynyddu'r angen am wariant ataliol, megis ar amddiffynfeydd rhag llifogydd.

30 Archwilio Cymru, [Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030](#), Gorffennaf 2022

31 Cyfoeth Naturiol Cymru, [Chwefror 2020 Llifogydd yng Nghymru](#), Hydref 2020


Cynaliadwyedd ariannol ar dudalen

Arddangosiad 12: graffigyn cynaliadwyedd ariannol

Mae'r graffigyn hwn yn dangos y pwysau ar gynaliadwyedd ariannol cyngorau a dulliau posibl o ymateb iddynt.



- Effaith gronnus arbedion ers 2008
- Galw a disgwyliadau cynyddol
- Gofynion o ran pennu cyllidebau blynyddol
- Gofyn gwneud penderfyniadau anodd
- Materion y tu hwnt i reolaeth neu ddylanwad cyngorau
- Cronfeydd wrth gefn y mae pen draw iddynt
- Dichonoldeb codiadau yn y Dreth Gyngor




- Derbyn y sefyllfa ariannol a ddeallir
- Strategaeth ariannol eglur, wedi'i chyfleu
- Derbyniad a chefnogaeth eang i'r dull
- Cynlluniau realistig, hirdymor ar gyfer arbedion wedi'u cynllunio
- Rheoli risg ar sail asesiadau a chatau lliniaru eglur
- Deialog agored ar gyfer goruchwyliaeth
- Dysgu o ardaloedd eraill a chyda'i gilydd
- Rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith mewn modd ystyrlon

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Ein hadroddiadau lleol

Arddangosyn 13: Adroddiadau cynaliadwyedd ariannol lleol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru



Canfyddiadau adroddiadau lleol

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein prif gasgliadau a'n his-gasgliadau o bob un o'n hadroddiadau lleol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond ni fydd y rhain ond yn effeithiol os yw'n gweithio'n gyflym i nodi, cymeradwyo a gweithredu digon o arbedion i leihau ei fwlch cyllido tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod strategaeth y Cyngor ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn canolbwyntio ar ddulliau gweithredu hirdymor, mae wedi gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn ac ystyried opsiynau arbedion tymor byr llai cynaliadwy i ateb yr her ariannol uniongyrchol.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno er bod rhywfaint o ansicrwydd dros y tymor hwy.
- mae cyfrifoldebau clir ac adroddiadau monitro cyllideb addysgiadol yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o sefyllfa ariannol y Cyngor, ond nid yw'n glir sut y gallai dull strategol y Cyngor o gynaliadwyedd ariannol effeithio ar gymunedau lleol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol y mae'n ei addasu a'i addasu ond ei fod yn gynnar yn datblygu ei ddull gweithredu hirdymor.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull gweithredu tymor hwy i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, sy'n seiliedig ar drefniadau da i gynnwys swyddogion ac aelodau, ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cwrdd â'i holl fwlch cyllido a ragwelir.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllideb allweddol a'i risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'i bwysau cyllidebol drwy gyflwyno trefniadau i reoli a monitro risgiau unigol a phwysau cyllidebol.
- mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod aelodau'n cael gwybod yn rheolaidd am sefyllfa ariannol a rhagolygon y Cyngor, ac i aelodau ddarparu goruchwyliaeth a her. Mae'r Cyngor yn ystyried wrth newid ei drefniadau mewn ymateb i risg uwch i'w gynaliadwyedd ariannol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig ac mae ganddo ddull clir ond heb ei brofi i wella ei gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae ei drefniadau ar gyfer adrodd a goruchwyllo, a modelu gofynion gwasanaethau yn y dyfodol yn gyfyngedig.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor ddull strategol clir o wella ei gynaliadwyedd ariannol, ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cwrdd â'i fwch cyllido tymor canolig. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn ac arbedion dros dro i gwrdd â'i her ariannol uniongyrchol wrth iddo wreiddio ei ddull gweithredu tymor hwy.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig, ond mae modelu gofynion gwasanaethau yn y dyfodol yn llai datblygedig, a allai effeithio ar gywirdeb y bwlch cyllidebol a nodwyd.
- prin yw'r adroddiadau, goruchwyllo aelodau a chraffu ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i effaith.

Cyngor Caerdydd

Mae gan y Cyngor drefniadau rhesymol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol gyda dealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'i adrodd yn rheolaidd i aelodau ond ei fod yng nghamau cynnar datblygu ei raglen newid i'w helpu i gyflawni ei fwch cyllido sylweddol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yng nghamau cynnar adolygu ei fodel darparu a gweithredu gwasanaethau, gan ddatblygu rhaglen newid i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a maint ei heriau ariannol yn y dyfodol, y bydd yn eu defnyddio i danategu ei raglen newid i gwrdd â'r heriau hyn.
- Mae gan y Cyngor drefniadau adrodd effeithiol i alluogi aelodau i oruchwyllo sefyllfa ariannol y Cyngor, ond nid yw'r Cyngor bob amser yn adrodd yn glir ar effeithiau ei benderfyniadau ariannol.

Cyngor Sir Gâr

Mae dull trawsnewid y Cyngor sydd wedi ei wreiddio yn darparu fframwaith strategol i gefnogi ei gadernid ariannol yn gadarnhaol..

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae cyfuniad o strategaeth gyllidebol y Cyngor, ei waith cynllunio ariannol tymor canolig a'i dull trawsnewid hirdymor sydd wedi ei wreiddio yn nodi fframwaith strategol ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i bwysau a'i gostau cyllideb allweddol dros y tymor canolig.
- mae adroddiadau ariannol y Cyngor yn glir ond nid ydynt yn cael eu hintegreiddio'n rheolaidd ag adroddiadau ar gyflawni ei amcanion corfforaethol.

Cyngor Sir Ceredigion

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol presennol, ond nid oes ganddo strategaeth hirdymor i gefnogi hyn.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr i ganolig ond nid oes ganddo strategaeth ariannol hirdymor cynhwysfawr.
- cyflwynir Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn ystod canol y flwyddyn ariannol sicrhau ymgysylltiad cynnar ag Aelodau cyn gosod cyllideb fanwl prosesau. Mae tybiaethau yn cael eu diweddarau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb i darparu asesiad cyfredol o ofynion tebygol y gyllideb.
- effeithiau monitro tymor hwy o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor oherwydd ei ddiffyg strategaeth ariannol hirdymor gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae trefniadau ar waith i gefnogi goruchwyliaeth gyllidebol reolaidd drwy ei hadroddiad cyfredol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Er bod gan y Cyngor drefniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, nid yw'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth fynd i'r afael â maint ei fwlch cyllideb a'i gronfeydd wrth gefn isel, sy'n risg sylweddol i'w gynaliadwyedd hirdymor heb newid trawsnewidiol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth glir a gwybodus sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol, ond mae maint yr arbedion a nodwyd sydd eu hangen a'r lefel isel o gronfeydd wrth gefn yn peryglu ei strategaeth.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol, sy'n cynnwys rhai meysydd gwasanaeth sy'n ehangu'r galw a'r gost yn gyflym.
- mae gan y Cyngor ystod o drefniadau adrodd sy'n caniatáu craffu a sicrwydd i'r Aelodau.

Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda ag Aelodau a swyddogion wrth bennu ei gyllideb ond ar hyn o bryd nid oes ganddo ddull o ddod o hyd i arbedion digonol na chynllun trawsnewid wedi'i weithredu i bontio ei fwlch cyllid.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig, sy'n cael ei gyfleu'n dda i Aelodau a swyddogion, ond sydd â gwendidau o ran sut mae'n nodi effeithlonrwydd ar hyn o bryd ac sydd ar gam cynnar o drawsnewid yn y tymor hwy.
- mae dealltwriaeth y Cyngor o'i sefyllfa ariannol yn glir, gyda chefnogaeth tybiaethau a risgiau a nodwyd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ei ddefnydd diweddar o gronfeydd wrth gefn yn anghynladwy wrth symud ymlaen.
- mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau craffu a monitro yn darparu eglurder ar draws y Pwyllgorau cyfrifol a bydd angen iddynt adolygu effeithiolrwydd trefniadau adrodd ac olrhain a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Cyngor Sir y Fflint

Nid yw trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd y gall nodi trawsnewidiad strategol yn y tymor byr a chanolig yn y raddfa sy'n ofynnol gan ei sefyllfa ariannol. Mae hyn, ynghyd â'i lefel isel o gronfeydd wrth gefn a chostau cynyddol mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn rhoi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perygl difrifol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod y Cyngor wedi ymgysylltu'n dda ag aelodau, mae wedi cymryd ymagwedd tymor byr tuag at gynllunio ariannol manwl sydd wedi arwain at wendidau wrth nodi ac asesu arbedion, nad yw wedi edrych i fynd i'r afael â nhw.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'i bwysau.
- mae gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer adrodd yn rheolaidd a manwl i'r Aelodau ar ei sefyllfa ariannol, ond nid yw'r rhain wedi gallu effeithio ar ei sefyllfa ariannol.

Cyngor Gwynedd

Bu cynnydd sylweddol yn y nifer o adrannau'r Cyngor sydd yn gorwario yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a mae wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau. Nid yw eto i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â bylchau cyllid yn y dyfodol.

- Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu strategaeth hirdymor eto i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol.
- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn adnabod bylchau ariannol tebygol y bydd yn ei wynebu dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i oruchwyllo ei gynaliadwyedd hir dymor - gan gynnwys cynnydd wrth fynd i'r afael â'i fwlch cyllido rhagamcanol.

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae gan y Cyngor drefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr a chanolig, ond nid yw wedi ffurfioli'r broses o gynllunio a goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

- nid yw'r Cyngor wedi ffurfioli strategaeth ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol dros y tymor byr a chanolig ac mae ganddo hanes o reoli pwysau cyllidebol allweddol ac mae wedi darparu gwasanaethau yn unol â'i gyllideb ym mhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf.
- mae gan y Cyngor drefniadau i gefnogi goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i gefnogi goruchwyliaeth ar ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan nad oes ganddo gynllun ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'i fwlch cyllido tymor canolig ac nad oes ganddo ddull hirdymor o wella ei gynaliadwyedd ariannol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn parhau i gymryd ymagwedd tymor byr tuag at fynd i'r afael â'i sefyllfa ariannol ac nad oes ganddo allu ar lefel uwch swyddog i ddatblygu dull hirdymor o wella ei gynaliadwyedd ariannol.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau gwasanaeth a modelau tybiaethau rhesymol i lywio ei gyllideb, ond nid yw'n addasu ei ragdybiaethau dros y tymor canolig a allai effeithio ar gywirdeb y bwlch cyllidebol a nodwyd.
- ceir adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i uwch swyddogion ac uwch aelodau, ond nid yw'r Cyngor yn adrodd ar gyflawni ei arbedion a heb ddull ariannol tymor hir ni all fonitro nac adrodd ar ei effaith.

Cyngor Sir Fynwy

Er bod y Cyngor yn datblygu dull tymor hwy o gynllunio ariannol, nid yw eto i nodi sut y bydd yn cau ei fwlch cyllido yn y dyfodol. O ystyried ei lefelau cronfeydd wrth gefn isel, bydd angen i'r Cyngor weithio'n gyflym i weithredu ei strategaeth ariannol a chryfhau ei wytnwch ariannol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod strategaeth ariannol newydd y Cyngor yn dangos ei ymrwymiad i gryfhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, ar hyn o bryd nid oes ganddi gynlluniau cadarn i gau ei fwlch cyllido a nodwyd.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol ac mae'n cydnabod yr angen i gryfhau ei ddefnydd o ddata er mwyn deall a lliniaru pwysau cost tymor hwy yn well.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth glir a rheolaidd o'i sefyllfa ariannol bresennol, ond mae adrodd ar effaith hirdymor penderfyniadau ariannol yn llai datblygedig.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr ond nad oes ganddo strategaeth ariannol hirdymor wedi'i dogfennu i gefnogi newid mwy trawsnewidiol a llywio penderfyniadau gwariant Aelodau yn y dyfodol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol.
- mae trefniadau adrodd ariannol y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth reolaidd o'i sefyllfa gyllidebol yn ystod y flwyddyn ond nid ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.

Cyngor Dinas Casnewydd

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd drefniadau ariannol cadarn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys cynllun trawsnewid sy'n datblygu a threfniadau goruchwyllo effeithiol, ond nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn sut y bydd yn cau ei fwllch cyllideb dros y tymor canolig a'r hirdymor.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor ddull hirdymor sydd wedi ei ddatblygu'n llawn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Ond mae trefniadau cadarn i reoli ei sefyllfa ariannol tymor byr.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol cyfredol a'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi'r broses o oruchwyllo yn rheolaidd ei sefyllfa a'i risgiau ariannol. Mae'r rhain yn darparu sylfaen dda ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar y cynllun er mwyn galluogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor wrth iddo ddatblygu.

Cyngor Sir Penfro

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr ond nad oes ganddo gynllun tymor hwy i gau ei fwlch cyllido a nodwyd.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor ddull strategol tymor hwy i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol a chau ei fwlch cyllido a nodwyd.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol ond mae gorwariant mewn adrannau gwasanaethau allweddol ers 2023 yn herio ei gynaliadwyedd ariannol.
- mae trefniadau adrodd ariannol y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth reolaidd o'i swyddi cyllideb ac arbedion yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gyllid MTFP.

Cyngor Sir Powys

Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu dull hirdymor eto o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol, ond mae'n datblygu un.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu dull hirdymor o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol eto, ond mae wrthi'n datblygu un. Mae'r Cyngor yn cwblhau dull trawsnewid strategol hirdymor i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol a chau'r bwlch yn ei gyllid a adnabuwyd.
- mae dealltwriaeth y Cyngor am ei her ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol a dealltwriaeth ddatblygedig am ei bwysau a'i risgiau yn y tymor byr a chanolig.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn ategu goruchwyliaeth eglur a rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol bresennol, ond nid yw'n adrodd yn benodol ar effaith ei strategaeth ariannol ar ei amcanion corfforaethol nac ar gymunedau lleol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol sy'n darparu llwyfan i fynd i'r afael â heriau cyllideb tymor hwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau clir i reoli ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr ac mae'n datblygu rhaglenni trawsnewid i fynd i'r afael â phwysau costau cylchol, ond nid yw wedi modelu'r effaith ar y cyd y bydd y rhaglenni hyn yn ei chael ar ei fwlch cyllideb dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- mae dull y Cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol a'r ffactorau sy'n effeithio arno, gan gynnwys pwysau costau cylchol mewn meysydd gwasanaeth penodol.
- mae'r Cyngor yn darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau i'w galluogi i ddeall ei sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, nid yw dull adrodd y Cyngor yn rhoi golwg glir i'r aelodau o'r effaith y mae pob penderfyniad cyllidebol wedi'i chael ar wasanaethau, cymunedau lleol a chyflawni amcanion corfforaethol.

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae gan y Cyngor drefniadau rhesymol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond mae gwendidau wrth gyflawni a monitro'r rhaglen arbedion i gefnogi'r rhain.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn dechrau datblygu dull hirdymor o wella cynaliadwyedd ariannol drwy ei raglen drawsnewid, gyda chefnogaeth ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, ond mae'r cynnydd sy'n cyflawni arbedion gofynnol wedi bod yn arafach na'r disgwyl, gan gyflwyno risgiau i'r Cyngor.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol tymor canolig, ond mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn mewn ymateb i orwariant gwasanaethau a risgiau o amgylch cyllido cyfalaf yn gwanhau ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, ond nid yw'n adrodd am gynnydd gydag arbedion unigol nac yn nodi'n llawn effaith cynigion arbedion i alluogi goruchwyliaeth effeithiol o'i gynaliadwyedd ariannol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i fod yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu camau gweithredu a fydd yn cynhyrchu digon o arbedion i fynd i'r afael â'i fwlch cyllido cyllideb a nodwyd mewn modd amserol a chynaliadwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith, gyda'i fwlch cyllido a nodwyd yn y tymor byr i'r tymor canolig yn cael sylw gan y defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn a mesurau effeithlonrwydd, a gyda chymau gweithredu yn cael eu datblygu i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy.
- mae strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol tymor byr i ganolig, er bod rhywfaint o ansicrwydd dros y tymor hwy.
- mae'r Cyngor yn adrodd ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, gan alluogi goruchwyliaeth gan swyddogion ac aelodau, ac mae'r Cyngor yn cael cyfle i ystyried ac adrodd ar effaith ei strategaeth ariannol ar gymunedau drwy ei gynllun cyflawni blynyddol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Er bod ganddo drefniadau ar gyfer y tymor byr a chanolig, nid oes gan y Cyngor gynllun tymor hir ac asesiadau rheolaidd o effaith penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i reoli ei wytnwch ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond mae ei ddull gweithredu tymor hwy yn llai sicr oherwydd ei fod ar gam cynnar yn ei agenda drawsnewid.
- er bod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol, mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig a hanes cymysg o gyflawni arbedion yn golygu y gallai'r ddealltwriaeth hon fod yn gyfyngedig o ran dyfnder a chywirdeb.
- mae gan y Cyngor drefniadau clir ar gyfer adrodd ar ei sefyllfa ariannol, ond nid yw hyn yn cynnwys dealltwriaeth o effaith cyflawni ei amcanion na sut mae'n effeithio ar y tymor hwy.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r Cyngor wedi nodi pwysau ariannol sylweddol ac nad oes ganddo gynllun a gytunwyd i lenwi'r bwlch cyllid eto.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod y Cyngor yn eglur ynghylch maint a brys ei heriau ariannol ac yn datblygu rhaglen rheoli newid i gydlyn ymagwedd strategol at drawsnewid, nid oes ganddo gynllun eto ar gyfer arbedion digonol i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig.
- mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer rheoli ei gyllideb ac arbedion ariannol.



Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

Amcanion archwilio

Drwy'r crynodeb cenedlaethol hwn a'n hadroddiadau lleol, ein hamcanion oedd:

- darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i ategu eu cynaliadwyedd ariannol.
- esbonio sut y mae cynghorau'n ymdopi gydag adnoddau cyfyngedig ac i ba raddau y maent yn asesu effaith eu penderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau a dinasyddion, yn awr ac yn y dyfodol.
- gan ddefnyddio allbwn y crynodeb cenedlaethol, egluro i ba raddau y mae cynghorau'n ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'u prosesau cynllunio ariannol a phenderfynu.
- gan ddefnyddio allbwn y crynodeb cenedlaethol, ysbrydoli gwelliant trwy nodi enghreifftiau o arfer da wrth reoli a hybu cynaliadwyedd ariannol lle y bo'n briodol.

Ymagwedd a chwmpas

Fe ddefnyddiom ni ddull a oedd yn canolbwyntio ar systemau i archwilio trefniadau i ategu cynaliadwyedd ariannol yn ein hadroddiadau lleol. Ar gyfer ein crynodeb cenedlaethol, fe wnaethom gyfuno hyn ag ymagwedd a oedd yn canolbwyntio ar broblemau i archwilio materion a'u mynychder.

Wrth baratoi ein hymagwedd, fe wnaethom gwrdd â Chymdeithas Trysoryddion Cymru a Llywodraeth Cymru. Fe gadwom ni ein hannibyniaeth trwy gydol ein gwaith.

Fe gwblhaom ni ein gwaith maes yn lleol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024, a oleuodd ein proses i gasglu tystiolaeth genedlaethol dros yr un cyfnod ac ymhellach i mewn i fis Awst.

Yn lleol, fe wnaethom adolygu dull strategol pob cyngor o ategu ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth am ei sefyllfa ariannol gyfredol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd ac arfer goruchwyliaeth ar ei gynaliadwyedd ariannol. Fe wnaethom adolygu'r trefniadau sydd gan bob cyngor i ategu ei gynaliadwyedd ariannol. Ni wnaethom adolygu rheolaeth ariannol ehangach pob cyngor na'u penderfyniadau ariannol unigol.

Roedd ein meini prawf archwilio'n seiliedig ar ein gwybodaeth archwilio gronnus ac yn tynnu ar gyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan CIPFA.

Dulliau

Wrth baratoi'r crynodeb cenedlaethol hwn, fe wnaethom grynhoi tystiolaeth a chanfyddiadau o'n hadroddiadau lleol a ddefnyddiodd y dulliau canlynol:

- cyfweiliadau – ym mhob cyngor fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:
 - Prif Weithredwr
 - Swyddog Adran 151
 - swyddog arweiniol ar gyfer trawsnewid
 - arweinydd y cyngor
 - arweinydd y cabinet dros gyllid
- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau o bob cyngor gan gynnwys pob Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), strategaethau ariannol, adroddiadau ariannol, a chofnodion pwyllgorau.
- dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data ariannol, yn ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ddata a ddarparwyd gan gynghorau. Lle cyflwynir ffigurau ariannol mewn termau real, rydym wedi defnyddio ddatgwyblydd Mehefin 2024 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF i gyfrif am effaith chwyddiant.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

This page is intentionally left blank

Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4484A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig	4
Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych	4
Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad	6
Yr hyn a ganfuom	6
Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor	8
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	9

Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- 2 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i gefnogi eu cynaliadwyedd ariannol.
- 4 Egluro sefyllfa ariannol cynghorau a'r pwysau a'r risgiau allweddol i'w cynaliadwyedd ariannol.

Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig

- 5 Mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cost gynyddol darparu gwasanaethau a galw cynyddol am rai gwasanaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol.
- 6 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'n dal yn ofynnol i gynghorau osod cyllideb gytbwys wrth ddarparu nifer o wasanaethau statudol. Mae cynghorau hefyd yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.
- 7 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod cynghorau'n datblygu dull strategol o'u cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy i'w helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych¹

- 8 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol bresennol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd a goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol. Cyfyngwyd yr archwiliad hwn i ystyriaeth

¹ Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', o ystyried amodau gwell.

o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Nid adolygiad o reolaeth ariannol ehangach y Cyngor oedd hwn, na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae'r Cyngor wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

- 9 Rydym yn cydnabod y bydd rhai ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn, gan fod yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y trefniadau y mae cynghorau'n eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, lle gwnaethom nodi materion cyffredin drwy ein gwaith maes sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau y mae cynghorau wedi'u rhoi ar waith, byddwn yn adrodd ar y rhain yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol arfaethedig.
- 10 Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol digynsail y mae cynghorau wedi'u hwynebu ers blynnyddoedd lawer ac rydym yn debygol o barhau i'w hwynebu am o leiaf y tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys pwysau ariannu'r sector cyhoeddus a ddilynodd yr argyfwng ariannol yn 2008 ac effaith y pandemig ar y pryd a'i ôl-ffeithiau parhaus. Yn fwy diweddar mae cynghorau hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol mewn termau real mewn pŵer gwario o ganlyniad i'r cynnydd cyflymaf mewn chwyddiant ers degawdau. Ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau hyn, bu cynnydd sylweddol yn y galw am rai gwasanaethau hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae'r ffactorau hyn yn bennaf y tu hwnt i reolaeth unrhyw gyngor unigol.
- 11 Yn erbyn y cefndir tymor hir hwn o heriau ariannol mae angen i gynghorau ymateb i heriau mwy diweddar yn gyflym ac rydym yn deall, yn anochel, mewn llawer, os nad pob cyngor, fod rhai o'r manylion penodol o ran sut y bydd pwysau ariannol yn cael eu taclo dros y tymor canolig yn dal i gael eu penderfynu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ar drefniadau ariannol y Cyngor, a lle bo'n briodol lle credwn y gellid cryfhau'r rhain i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol y Cyngor dros y tymor canolig. Dylid edrych ar ein hadroddiad yng nghyd-destun y pwysau ariannol ehangach a hirdymor hyn.
- 12 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol - **Oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?** Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:
- A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?
 - A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol?
 - A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd?
- 13 Mae'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Cyngor yn erbyn pob un o'n cwestiynau wedi'u nodi yn **Atodiad 1**. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ein gwybodaeth gronol, yn ogystal â thynnu ar rai cyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

- 14 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o gynghorwyr ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Ebrill i fis Mai 2024.
- 15 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.



Yr hyn a ganfuom

- 16 Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y Cyngor drefniant da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond nad yw wedi ffurfioli'r gwaith o gynllunio a goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.
- 17 Nid yw'r Cyngor wedi ffurfioli strategaeth ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- 18 Mae'r swyddogion a'r cynghorwyr a gyfwelwyd gennym yn cydnabod bod newidiadau demograffig, ynghyd â galw cynyddol a phwysau cyllidebol, yn debygol o effeithio ar ble a sut y mae'n darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae swyddogion yn bwriadu defnyddio data i ddeall sut y bydd tueddiadau demograffig yn effeithio ar y Cyngor yn y tymor hwy. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cynllunio'n ffurfiol y tu hwnt i'r gorwel dwy flynedd a nodir yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-26 – 2026-27 (MTFP). Mae strategaeth ariannol glir, gadarn a chytunedig yn bwysig i nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb i'r pwysau cyllido a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn unol ag arfer da, yr angen i ailgyflwyno MTFP tair blynedd.
- 19 Nid yw'r Cyngor wedi nodi'r arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gau ei fylchau ariannu yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae MTFP yn nodi y rhagwelir y bydd diffyg cyllid o £7.365 miliwn yn 2025-26 a £0.733 miliwn arall yn 2026-27.² Nid yw wedi nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol i leihau gofynion y gyllideb, ac mae ei MTFP yn nodi mai dim ond trwy leihau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau y gellir cynhyrchu unrhyw arbedion yn y dyfodol. Fodd bynnag, y tu hwnt i gymharu cyfraddau treth gyngor, ni ddaethon ni o hyd i lawer o dystiolaeth

² Er mwyn helpu i gyfrifo ei ddiffygion cyllid rhagamcanol mae'r Cyngor wedi meincnodi ei ragdybiaethau gyda chynghorau eraill yn anffurfiol. Mae rhai o'i ragdybiaethau allweddol (e.e. grant cynnal refeniw, a chwyddiant cyffredinol) yn fwy optimistaidd na chynghorau eraill ledled Cymru.

bod y Cyngor yn edrych mewn mannau eraill i lywio ei ddull gweithredu a sut mae ei ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn cymharu â chyrff eraill. Heb strategaeth hirdymor sy'n nodi sut y gall rôl y Cyngor newid yn y dyfodol a lle mae angen iddo flaenoriaethu ei adnoddau, mae'r Cyngor mewn perygl o leihau capasiti mewn meysydd allweddol a thanseilio ei allu i addasu ac ymateb i heriau hirdymor.

- 20 Mae'r Cyngor wedi gwneud cronfeydd wrth gefn defnydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â bylchau cyllido tymor byr canolig. Defnyddiodd y Cyngor £3.78 miliwn o gronfeydd wrth gefn i gydbwysu cyllideb 2023-24, a £4.425 miliwn yn 2024-25. Mae uwch swyddogion yn cydnabod bod yr adnoddau sydd ar gael i ariannu diffyg cyllidebol wrth gefn yn gyfyngedig, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu datrysiad cynaliadwy tymor hwy.³
- 21 Mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol dros y tymor byr i'r tymor canolig ac mae ganddo hanes o reoli pwysau cyllideb allweddol ac mae wedi darparu gwasanaethau yn unol â'i gyllideb ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf.
- 22 Mae swyddogion a chynghorwyr yn mynegi dealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y Cyngor. Yn gadarnhaol mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn mentrau i leihau pwysau penodol. Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â sawl cynllun i leihau costau gan gynnwys creu lleoliadau i blant yn y sir, buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a nodi cyfleoedd i gynyddu incwm gwasanaethau. Er bod y Cyngor wedi gwneud arbedion cynllunio mae cydnabyddiaeth nad yw'r rhain wedi'u tynnu'n strategol at ei gilydd i sicrhau fframwaith ar gyfer y dyfodol a gwneud penderfyniadau strategol gan aelodau lle gellir modelu a deall effaith hirdymor penderfyniadau.
- 23 Mae gan y Cyngor drefniadau i gefnogi goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd dros y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i gefnogi goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- 24 Mae rolau uwch swyddogion, cynghorwyr a phwyllgorau allweddol wrth fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor dros y tymor byr canolig wedi'u nodi'n glir. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i drefniadau i gefnogi goruchwyllo cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwyllo sefyllfa ariannol y Cyngor yn effeithiol, y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol ac effaith hyn ar ei gymunedau lleol.

³ Ar £40.39 miliwn, cyfanswm cronfeydd referniw defnyddiadwy y Cyngor (heb eu diogelu gan y gyfraith) gan mai cyfran o gost net gwasanaethau oedd 23.7% ar ddiwedd 2022-23, i lawr o 30.1% y flwyddyn flaenorol. Y cyfartaledd ar draws Cymru yn 2022-23 oedd 27.4%.



Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Argymhellion

- A1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i chyfyngu i ddwy flynedd ac nid yw wedi cymeradwyo strategaeth ariannol sy'n nodi'r pwysau ariannol hirdymor a'i ddull strategol o gyflawni'r heriau hyn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau.

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Arddangosyn 2: cwestiwn cyffredinol: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?

Cwestiwn Lefel 2	Meini prawf
A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?	- Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir ei ddull strategol o gefnogi ei gydnerthedd ariannol dros y tymor byr, canolig a hir. - Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig. - Mae dull strategol y Cyngor yn cael ei ddeall a'i gefnogi'n eang gan uwch swyddogion. - Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill. - Mae'r Cyngor wedi nodi'r holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gwrdd â'i fwch cyllido dros y tymor canolig, gyda chefnogaeth cynlluniau â thystiolaeth dda yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol. - Mae strategaeth y Cyngor yn cynnwys y defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn i reoli ei raglen arbedion dros y tymor canolig. - Mae'r Cyngor wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau a lefelau'r dreth gyngor ar gymunedau lleol).
A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol?	- Mae'r Cyngor wedi cyfrifo ei fwch cyllido dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol. - Mae'r Cyngor wedi meincnodi ei ragdybiaethau gyda chyrff cymharol priodol. - Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllideb allweddol yn y tymor canolig a'r tymor hir. - Mae gan y Cyngor hanes o fynd i'r afael â phwysau cyllideb allweddol yn llwyddiannus. - Mae'r Cyngor wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith.

Cwestiwn Lefel 2	Meini prawf
A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwyllo ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd?	• Mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir. • Mae'r Cyngor yn adrodd ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd i aelodau er mwyn galluogi goruchwyllo a chraffu. • Mae gan y Cyngor drefniadau i adrodd yn dryloyw effaith / effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol ac ar gymunedau lleol i aelodau a rhanddeiliaid eraill. • Mae cynllun cynilo y Cyngor yn cynnwys yr hyn y cytunwyd arno, faint o gynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu, a chysylltiadau â'i gyllideb a'i gynllun ariannol tymor canolig. • Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd am gynnydd o ran cyflawni arbedion arfaethedig i aelodau er mwyn galluogi goruchwyllo a chraffu.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Teitl yr adroddiad: Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod dogfen: 4484A2024

Tudalen 183

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i chyfyngu i ddwy flynedd ac nid yw wedi cymeradwyo strategaeth ariannol sy'n nodi'r pwysau ariannol hirdymor a'i ddull strategol o gyflawni'r heriau hyn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol yn y	Cyflwynwyd SATC diweddaraf y Cyngor i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 3 blynedd hyd at 2027/28. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynlluniau strategol sy'n ehangu ar yr amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor a sut y bydd y strategaeth yn cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau a bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i	Medi 2024	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Rhan 151

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	dyfodol ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau.	roi arwydd tymor hwy o gyllid i'r Cyngor, bydd yr holl wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd i mewn i SATC diwygiedig a fydd yn nodi sefyllfa gyllido hirdymor y Cyngor a sut mae'r Cyngor yn anelu at fynd i'r afael â'i faterion cyllido tymor hir.	Rhagfyr 2025	Tîm Arweinyddiaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	11 Chwefror 2025
Pwnc	Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 f5
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.	

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn [Atodiad A](#), ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn [Atodiad B](#).
- 1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2024-25 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Atodiad A – Blaenraglen Waith 2024-25 f5

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)	Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)						Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5)
Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2) Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2023-24 (3.4.8.3.1/2) Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f2 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f3 (3.4.8.3.2)		Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f4 (3.4.8.3.2) Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 f5(3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
Llywodraethiant (3.4.8.4)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2)	Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth a Adfywio 2023-24 (3.4.8.4.4) (yn amodol)		Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2023-24 (3.4.8.4.4)
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)			Adroddiad Blynyddol 2023-24 (3.4.8.5.1/2/3/4)		Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2025-26 (3.4.8.5.1/3/4) Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	
Gwerth am arian (3.4.8.6)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3) Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)		Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3) Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Astudiaeth Genedlaethol) (3.4.8.11.2/3)	Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)			Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)		Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)		
Rheoli Risg (3.4.8.8)			Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.8.3) (dros dro)		Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) Diweddariad Rheoli Risgiau Newid Hinsawdd a Dod yn Sero Net (3.4.8.8.3)		Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)
Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)		Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6)	Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6)			Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-28 (3.4.8.9.2/3)	

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
		Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-24 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)	<i>Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynnyddol 2023-24 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)</i>				
Archwilio Mewnol (3.4.8.10)	Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3) Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/8/11/13)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)		Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) Strategaeth Archwilio Mewnol Blynnyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5) Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12)
Archwilio Allanol (3.4.8.11)	Rhaglen Waith ac Amserlen –		Rhaglen Waith ac Amserlen –	Adroddiad Archwilio	Rhaglen Waith ac Amserlen –	Rhaglen Waith ac Amserlen –	Rhaglen Waith ac Amserlen –

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
	Diweddariad Chwarterol (Ch4 2023) (3.4.8.11.2/3) Cynllun Archwilio Blynnyddol 2024 (3.4.8.11.1/3)		Diweddariad Chwarterol (Ch1 2024) (3.4.8.11.2/3)	Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4)	Diweddariad Chwarterol (Ch2 2024) (3.4.8.11.2/3)	Diweddariad Chwarterol (Ch3 2024) (3.4.8.11.2/3) Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2024 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3) Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Astudiaeth Genedlaethol) (3.4.8.11.2/3)	Diweddariad Chwarterol (Ch3 2024) (3.4.8.11.2/3) Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2024) (3.4.8.11.2/3) Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2024 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3)
Adrodd Ariannol (3.4.8.12)		Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3)			
Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)					Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1)		
Delio â Chwynion (3.4.8.14)			Adroddiad Blynnyddol Pryderon,		Llythyr Blynnyddol Ombwdsmon Gwasanaethau		

Swyddogaeth Graidd	27 Mehefin 2024	18 Gorffennaf 2024	19 Medi 2024	27 Tachwedd 2024	05 Rhagfyr 2024	11 Chwefror 2025	8 Medi 2025
			Cwynion a Chwythu Chwiban 2023-24 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynnyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1)		Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1)		
Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)		Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynnyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.15.1/2/3)					
Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16) ¹							
3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol ²							

¹ O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cyngorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

² Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant (3.4.8.2.10)

Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

Maes	Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu	Presenoldeb
Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg	Amherthnasol	Sesiwn Briffio	Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol	11/02/25	
Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr	Mehefin 2023 Awst 2023				
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2)	Medi 2023				
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	Hydref 2023				
Atal Twyll a Llygredd	Rhagfyr 2023				
Rheoli Risg	Mawrth 2024				

Tudalen 192

Hyfforddiant gorfodol

Maes	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu	Wedi ei Gwblhau
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr ³	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleig)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleig)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	
Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleig)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd	

³ Mae'r modiwl Ninjas Seiber yn fyw unwaith eto ar ddangosfwrdd Pwll Dysgu yr Aelodau. Fel un o ofynion cyllid y grant, bydd gofyn i'r tîm Hyfforddiant a Datblygu adrodd ar gynydd yn chwarterol, a byddant yn codi ymwybyddiaeth bellach gydag aelodau cyn bo hir.